

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol
Social research


Rhif: 05/2010



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Arolwg Rhanddeiliaid Llywodraeth Cynulliad Cymru 2010



Arolwg Rhanddeiliaid Llywodraeth Cynulliad Cymru 2010

Ipsos MORI

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru'n rhannu'r farn honno o reidrwydd

Am ragor o wybodaeth cysylltwch ag:

Enw: Angharad Reakes

Adran: Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 6255

Ebost: Angharad.Reakes@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010

ISBN

© Blwyddyn Hawlfraint y Goron

Tabl cynnwys

CRYNODEB GWEITHREDOL.....	ii
1. CYFLWYNIAD.....	1
2. NATUR YMGYSYLLTIAD RHANDDEILIAID Â SWYDDOGION LLYWODRAETH Y CYNULLIAD.....	9
3. BARN AM SWYDDOGION LLYWODRAETH Y CYNULLIAD.....	22
4. YR YSGOGWYR BODLONRWYDD ALLWEDDOL.....	49
<i>ATODIAD A. HOLIADUR YR AROLWG A CHANLLAW I'R TESTUNAU.....</i>	<i>57</i>
<i>ATODIAD B. METHODOLEG.....</i>	<i>79</i>
<i>ATODIAD C: PROFFIL Y SAMPL.....</i>	<i>91</i>
<i>ATODIAD D. RHANDDEILIAID LLAI DIWEDDAR - CANFYDDIADAU.....</i>	<i>97</i>
<i>ATODIAD E. NODWEDDION CANFYDDEDIG SWYDDOGION – CANFYDDIADAU YN ÔL ADRAN.....</i>	<i>101</i>
<i>ATODIAD F. FFACTORAU LLWYDDIANT CRITIGOL – CANFYDDIADAU YN ÔL ADRAN.....</i>	<i>117</i>
<i>ATODIAD G. DADANSODDI AMRYW O ELFENNAU.....</i>	<i>128</i>
<i>ATODIAD H. DADANSODDIAD O'R YSGOGWYR ALLWEDDOL – CANFYDDIADAU YN ÔL ADRAN.....</i>	<i>135</i>
<i>ATODIAD I. LLYTHYRAU A ANFONWYD YMLAEN LLAW.....</i>	<i>140</i>

CRYNODEB GWEITHREDOL

1 Mae Llywodraeth y Cynulliad, ers ei sefydlu, wedi rhoi blaenoriaeth i asesu sut y mae'n ymgysylltu â rhanddeiliaid, ar lefel gorfforaethol ac ar lefel maes/adran, a darganfod ffyrdd o wella'i threfniadau ymgysylltu. Er mwyn gwneud hyn, mae wedi comisiynu tri arolwg annibynnol o'i rhanddeiliaid hyd yn hyn – yn 2006, 2008 a'r don ddiweddaraf hon yn 2010.

2 Cynhaliwyd arolwg 2010 gan Ipsos MORI. Ei nod cyffredinol oedd asesu perfformiad meysydd ac adrannau Cyfarwyddwyr Cyffredinol Llywodraeth y Cynulliad yn eu cyfanrwydd yng nghyd-destun ymgysylltu â rhanddeiliaid. Cynlluniwyd yr arolwg hefyd gyda'r bwriad o ddarparu tystiolaeth sylfaenol er mwyn datblygu'r ffordd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda rhanddeiliaid, ac yn cynnwys rhanddeiliaid, a darparu data y gellir eu cymharu â chanfyddiadau 2006 a 2008.

3 Defnyddiwyd yr un fethodoleg i raddau helaeth ar gyfer arolwg 2010 ag a ddefnyddiwyd yn 2006 a 2008. Gofynnwyd i adrannau a meysydd Llywodraeth y Cynulliad ddarparu rhestr o unigolion yr oeddent yn eu hystyried fel rhanddeiliaid. Defnyddiwyd y rhestrau hyn wedyn fel ffrâm samplu ar gyfer yr arolwg. Gallai ymatebwyr gymryd rhan dros y ffôn neu ar-lein a chynigiwyd yr holiadur yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cymerodd cyfanswm o 1,228 o rhanddeiliaid ran yn yr arolwg - 662 dros y ffôn a 566 ar-lein - rhwng 18 Chwefror ac 11 Mawrth 2010.

4 Mae'r canfyddiadau a gyflwynir yn y crynodeb hwn yn seiliedig ar y rhanddeiliaid hynny a oedd wedi bod mewn cysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn ystod y 12 mis diwethaf (89 y cant o'r holl ymatebwyr). Gofynnwyd llai o gwestiynau i'r rhanddeiliaid nad oeddent wedi bod mewn cysylltiad â'r swyddogion yn ystod y 12 mis diwethaf a chofnodir y canfyddiadau yn Atodiad D.

Natur ymgysylltiad rhanddeiliaid â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad

5 Y prif ddulliau a ddefnyddiwyd gan y rhanddeiliaid i ryngweithio â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn ystod y 12 mis blaenorol oedd negeseuon ebost wedi eu personoli, cyfarfodydd wyneb yn wyneb a sgysiau ffôn (nodwyd hyn gan 79 y cant, 73 y cant a 68 y cant yn y drefn honno).

6 Roedd lefelau ymgysylltu â swyddogion y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn amrywio. Roedd y mwyafrif (83 y cant) wedi gofyn am wybodaeth, cyngor neu arweiniad, roedd 70 y cant wedi ymateb i ymgynghoriadau ac roedd 63 y cant wedi cymryd rhan mewn grŵp cynghori neu weithgor. Roedd cyfran lai – 39 y cant – wedi gweithio mewn partneriaeth â swyddogion i lunio polisi.

7 Byddai'n well gan y mwyafrif o'r ymatebwyr (89 y cant) gyfathrebu â swyddogion yn Saesneg tra byddai'n well gan naw y cant ddefnyddio'r Gymraeg. O blith y rhai hynny y byddai'n well ganddynt gyfathrebu â'r swyddogion yn Gymraeg, dywedodd 42 y cant eu bod yn gallu gwneud hynny yn anaml neu byth, a dywedodd 31 y cant eu bod yn gallu gwneud hynny weithiau. Dywedodd 28 y cant eu bod yn gallu cyfathrebu â swyddogion yn Gymraeg bob amser neu yn aml.

8 Dywedodd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid (82 y cant) eu bod yn ei chael yn weddol rwydd neu'n rhwydd iawn i ymgysylltu â swyddogion tra dywedodd 15 y cant eu bod yn ei chael yn anodd iawn neu'n weddol anodd. Yn yr un modd, dywedodd y mwyafrif o'r rhanddeiliaid (70 y cant) eu bod yn ei chael yn weddol rwydd neu'n rhwydd iawn i gael gwybodaeth gan swyddogion tra dywedodd tua chwarter y rhanddeiliaid (23 y cant) bod cael gwybodaeth yn weddol anodd neu'n anodd iawn.

Barn am swyddogion Llywodraeth y Cynulliad

9 Roedd saith o bob deg rhanddeiliad (70 y cant) yn fodlon â'r ffordd yr oedd y swyddogion wedi ymgysylltu â hwy yn ystod y flwyddyn flaenorol, tra oedd tua un o bob deg (13 y cant) yn anfodlon. Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn teimlo bod yr ymgysylltu wedi gwella, aros yr un fath neu waethygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, dywedodd hanner yr ymatebwyr (51 y cant) ei fod wedi aros yr un fath, dywedodd un o bob tri (31 y cant) ei fod wedi gwella a dywedodd 13 y cant ei fod wedi gwaethygu.

10 Roedd y mwyafrif o'r rhanddeiliaid yn cytuno bod y swyddogion yn canolbwyntio ar gyflawni (54 y cant) ond dim ond un rhan o dair ohonynt (34 y cant) oedd yn cytuno bod Llywodraeth y Cynulliad yn cael ei rheoli'n dda a dim ond 17 y cant oedd yn cytuno bod gwahanol rannau o'r sefydliad yn cydweithio'n dda.

11 Roedd yr agweddau ar ymgysylltu y gwelwyd bod swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn eu cyflawni'n dda yn cynnwys dangos parch at randdeiliaid (dywedodd 87 y cant bod swyddogion yn gwneud hyn bob amser neu'n aml), darparu gwybodaeth gywir a dibynadwy (dywedodd 66 y cant fod hyn yn digwydd bob amser neu'n aml) a dangos ymrwymiad i roi sylw i faterion sy'n effeithio ar ardaloedd y tu allan i Gaerdydd (dywedodd 64 y cant fod hyn yn digwydd bob amser neu'n aml). Roedd yr agweddau ar berfformiad swyddogion na chafodd adborth mor gadarnhaol yn cynnwys gofyn beth yw barn sefydliadau (dywedodd 44 y cant fod hyn yn digwydd bob amser neu'n aml) ac ymateb o fewn graddfeydd amser hwylus (dywedodd 49 y cant fod hyn yn digwydd bob amser neu'n aml).

Ysgogwyr bodlonrwydd allweddol

12 Dadansoddwyd ffactorau er mwyn rhannu canfyddiadau'r arolwg yn nifer llai o themâu craidd. Yn dilyn hyn dadansoddwyd yr ysgogwyr allweddol er mwyn canfod pa rai o'r themâu hyn oedd yn cael yr effaith fwyaf ar fodlonrwydd cyffredinol rhanddeiliaid â dull Llywodraeth y Cynulliad o ymgysylltu. Dangosodd y dadansoddiad hwn mai'r ysgogydd a oedd yn cael yr effaith fwyaf ar fodlonrwydd rhanddeiliaid â Llywodraeth y Cynulliad oedd y ffactor 'agored a hygyrch', yn cael ei ddilyn gan 'reolaeth a chyflawniad strategol', 'ymatebol ac effeithlon' a 'gwerthfawrogi perthynas'. Roedd yr ysgogwyr eraill a oedd yn cael ychydig yn llai o effaith ar fodlonrwydd yn cynnwys: 'gweithio gyda Chymru', 'gwelliannau canfyddedig mewn ymgysylltu dros gyfnod', 'pa mor rhwydd yw cael gwybodaeth gan swyddogion' ac 'annog cystadleuaeth rhwng cyrff cyhoeddus'.

13 O ran barn ynglŷn â pha mor dda y mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn perfformio yng nghyswllt yr ysgogwyr allweddol, daeth 'gwerthfawrogi perthynas' i'r amlwg fel yr ysgogydd perfformiad gorau â sgôr o 77 y cant yn cael ei ddilyn gan 'pa mor rhwydd yw cael gwybodaeth gan swyddogion' â sgôr o 70 y cant. Cafodd yr ysgogwyr 'agored a hygyrch', 'ymatebol ac effeithlon' a 'gweithio gyda Chymru' sgorau cymharol uchel hefyd (59 y cant, 58 y cant a 58 y cant yn y drefn honno). Roedd perfformiad yn gymharol wael ar gyfer 'gwelliannau canfyddedig mewn ymgysylltu dros gyfnod' (33 y cant), 'annog cystadleuaeth rhwng cyrff cyhoeddus' (32 y cant) a 'ffocws cenedlaethol yn hytrach na lleol' (29 y cant).

14 Nodwyd blaenoriaethau ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol drwy edrych ar effaith gymharol yr ysgogwyr ochr yn ochr â'r sgorau perfformiad. Dangosodd hyn mai 'agored a hygyrch', 'rheolaeth a chyflawniad strategol' ac 'ymatebol ac effeithlon' oedd yn cael yr effaith fwyaf ar fodlonrwydd ond roedd y sgorau perfformiad yn is na'r sgôr meincnod o 60 y cant a bennwyd gan Lywodraeth y Cynulliad. O ganlyniad, mae'r rhain yn flaenoriaethau ar gyfer unrhyw waith gwella yn y dyfodol yng nghyswllt ymgysylltu â rhanddeiliaid.

1 CYFLWYNIAD

Cefndir

1.1 Yn sefyllfa bresennol y sector cyhoeddus, mae mwy o sylw wedi cael ei roi i ymgysylltu â rhanddeiliaid. Yn wir, ystyrir bod gan rhanddeiliaid ran gynyddol bwysig i'w chwarae drwy gyflenwi gwasanaethau a thrwy gyfrannu at ddatblygiad polisi'r llywodraeth.

1.2 Ers ei sefydlu, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ceisio cynnwys a gweithio gydag ystod eang o rhanddeiliaid ym maes datblygu polisi, gweithredu a chyflawni. Yn ychwanegol at hyn, mae wedi rhoi blaenoriaeth i asesu'n barhaus ei dull o ymgysylltu â rhanddeiliaid, ar lefel gorfforaethol ac ar lefel maes/adran, a darganfod ffyrdd o wella'i threfniadau ymgysylltu.

1.3 Er mwyn gwneud hyn, mae wedi comisiynu tri arolwg annibynnol o'i rhanddeiliaid hyd yn hyn – yn 2006, 2008 a'r don ddiweddaraf hon yn 2010.

Nodau ac amcanion

1.4 Nodau cyffredinol ymchwil 2010 oedd asesu perfformiad meysydd ac adrannau Cyfarwyddwyr Cyffredinol Llywodraeth y Cynulliad yn eu cyfanrwydd yng nghyswllt ymgysylltu â rhanddeiliaid, a darparu tystiolaeth sylfaenol er mwyn datblygu'r ffordd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda rhanddeiliaid ac yn eu cynnwys. Amcanion penodol yr ymchwil oedd:

- cynnal arolwg o'r rhanddeiliaid hyn
- cynhyrchu canfyddiadau a fydd yn caniatáu i Lywodraeth y Cynulliad ddeall cysylltiadau â rhanddeiliaid yn well a sut y gall eu gwella
- lle bo modd, cynhyrchu canfyddiadau y gellir eu defnyddio ar lefel Cyfarwyddwyr Cyffredinol, ar lefel adrannau ac is-adrannau, ac nid yn unig ar lefel gorfforaethol¹

¹ Y tro hwn, dim ond ar lefel y Cyfarwyddwyr Cyffredinol ac ar gyfer wyth o adrannau mawr Llywodraeth y Cynulliad yr oedd yn bosibl cynhyrchu canfyddiadau. Nid oedd yn bosib dadansoddi'r canlyniadau ymhellach oherwydd maint bach y samplau.

- darparu data y gellir eu cymharu â chanfyddiadau 2006 a 2008
- darparu data er mwyn edrych ar newidiadau dros gyfnod, gan gynnwys rhesymau dros newidiadau.

Diffiniad o randdeiliad

1.5 Er mwyn gallu gwneud cymariaethau, mabwysiadwyd yr un diffiniad o randdeiliad ar gyfer ymchwil 2010 ag a ddefnyddiwyd yn arolygon 2006 a 2008. Mae'r diffiniad yn fwiadol eang er mwyn sicrhau bod yr ymchwil mor gynhwysol ag sy'n bosibl. Mae'n cynnwys arbenigwyr, partneriaid cyflawni, cyrff un mater/grwpiau buddiant, awdurdodau lleol, mudiadau sector gwirfoddol, sefydliadau'r sector preifat, sefydliadau academaidd, cyrff proffesiynol, ac adrannau ac asiantaethau llywodraeth y Deyrnas Unedig a chyrff llywodraethu rhyngwladol.

1.6 Nid yw'r diffiniad yn cynnwys Cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad (CNLC). Pan oedd yr arolwg rhanddeiliaid yn cael ei ddatblygu yn 2006, roedd y broses o uno nifer o Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (a ailenwyd yn CNLC) a'u gwneud yn rhan o Lywodraeth y Cynulliad wedi cychwyn. O ganlyniad, mae CNLCau wedi eu heithrio o'r ffrâm samplu er mwyn sicrhau dull cyson o sefydlu cronfa ddata yn cynnwys manylion rhanddeiliaid.

Methodoleg yr ymchwil

Creu'r ffrâm samplu

1.7 Er mwyn darparu ffrâm samplu ar gyfer yr ymchwil, gwahoddodd Is-adran Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru holl Is-adrannau Llywodraeth y Cynulliad i ddarparu rhestr o unigolion yr oeddent yn eu hystyried fel eu prif randdeiliaid. Ar gyfer pob rhanddeiliad, gofynnwyd i is-adrannau ddarparu manylion cysylltu llawn, gan gynnwys teitl swydd, enw'r sefydliad, rhif ffôn, cyfeiriad ebost a chod post. Yn ystod y cyfnod yr oedd yr wybodaeth yn cael ei choladu, bu cynrychiolwyr yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol yn cysylltu ag is-adrannau er mwyn annog cymaint o ymateb ag a oedd yn bosibl a chynnig unrhyw arweiniad ychwanegol yr oedd ei angen.

1.8 Ar ôl i'r Is-adran Ymchwil Gymdeithasol dderbyn rhestrau'r is-adrannau daethpwyd â hwy at ei gilydd i greu un ffeil Excel cyn ei hanfon ymlaen at Ipsos MORI i'w thwtio a'i dad-ddyblygu. Roedd y ffrâm samplu derfynol yn cynnwys 9,567 o randdeiliaid (ceir rhagor o fanylion am y camau a gymerwyd er mwyn creu'r ffrâm samplu yn Atodiad B).

Cyfweliadau cwmpasu

1.9 Er mwyn helpu i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y broses o gynllunio holiadur yr arolwg, cynhaliwyd 10 cyfweliad cwmpasu ansoddol ymhlith trawstoriad o randdeiliaid wedi eu dewis ar hap o'r ffrâm samplu.

1.10 Cynhaliwyd y cyfweliadau cwmpasu dros y ffôn a strwythurwyd hwy o amgylch Canllaw Trafodaeth wedi ei gynllunio gan Ipsos MORI yn dilyn ymgynghoriad manwl â'r Is-adran Ymchwil Gymdeithasol. Roedd y cwestiynau a ofynnwyd yn y cyfweliadau'n gyffredinol a phenagored ar bwrpas er mwyn galluogi'r rhai a oedd yn cymryd rhan i nodi a diffinio materion yn eu termau eu hunain. Roedd y prif themâu'n cynnwys barn rhanddeiliaid am eu perthynas waith â Llywodraeth y Cynulliad, sut fath o ymgysylltu y byddent yn hoffi ei weld yn y dyfodol, a beth ddylai blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad fod yn eu barn hwy er mwyn gwella ymgysylltu â rhanddeiliaid. Ceir copi o'r canllaw trafodaeth yn Atodiad A.

1.11 Cynhaliwyd y cyfweliadau cwmpasu rhwng 9 a 20 Tachwedd 2009. Rhoddwyd cyfle i bawb gymryd rhan yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Samplau'r arolwg

1.12 Y targed a osodwyd ar gyfer maint y sampl oedd 1,200. Er mwyn gwneud hyn, lluniwyd sampl cychwynnol o 3,080 o randdeiliaid, yn seiliedig ar gyfradd ymateb dybiedig o 60% a chyfradd 'annefnyddiol' o 30%.² Trefnwyd y sampl mewn haenau anghymesur³ er mwyn sicrhau bod modd cael y nifer mwyaf posibl o gyfweliadau ar gyfer pob un o feysydd Cyfarwyddwyr Cyffredinol Llywodraeth y Cynulliad ac

² Roedd y tybiaethau hyn yn seiliedig ar y cyfraddau cyfatebol a gafwyd yn Arolwg Rhanddeiliaid 2008 Llywodraeth y Cynulliad, ac arolwg peilot 2010.

³ Mae hyn yn golygu bod ymatebwyr, yn hytrach na chael eu dewis ar hap, wedi cael eu dewis ar sail pa rai o feysydd Llywodraeth y Cynulliad oedd yn eu cynnwys yn y ffrâm samplu. Y nod oedd sicrhau bod modd cynnal nifer sylfaenol o gyfweliadau ar gyfer pob maes. Yn ymarferol, golygai hyn ddewis cyfran fwy o'r rhanddeiliaid a oedd wedi eu cynnwys gan y meysydd llai yn hytrach na chan y rhai mwy.

adrannau mwy Llywodraeth y Cynulliad (y cyfeirir atynt yma wedi hyn gyda'i gilydd fel meysydd Llywodraeth y Cynulliad). Mae tabl 1.1 yn dangos nifer y cysylltiadau yn y ffrâm samplu ar gyfer pob maes, ynghyd â'r nifer a samplwyd.

Tabl 1.1: Samplau'r arolwg yn ôl meysydd Llywodraeth y Cynulliad

Adran	Sampl ar gael	Sampl a ddewiswyd
Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Leol	2,087	500
Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau	1,260	300
Yr Economi a Thrafnidiaeth	464	300
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	388	300
Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd	1,343	300
Pobl, Lleoedd a Gwasanaethau Corfforaethol	242	242
Y Prif Weinidog a'r Cabinet	174	174
Cyllid	164	164
Dyfodol Cynaliadwy	3445	800
<i>Cyfanswm</i>	<i>9,567</i>	<i>3,080</i>

1.13 Tua diwedd cyfnod y gwaith maes, daeth yn amlwg y byddai angen cael rhagor o samplau er mwyn sicrhau bod modd cyrraedd y targed ar gyfer nifer yr holiaduron a gwblhawyd. O ganlyniad, samplwyd 600 yn rhagor o gysylltiadau ar hap o naw maes Llywodraeth y Cynulliad.

Datblygu holiadur

1.14 Gan fod yr arolwg yn cael ei ddefnyddio i olrhain barn rhanddeiliaid am Lywodraeth y Cynulliad dros gyfnod, roedd llawer o'r cwestiynau craidd yr un fath â'r rhai yn y ddwy don flaenorol. Serch hynny, gwnaethpwyd mân newidiadau i'r dewisiadau ymateb mewn rhai eitemau ar sail canfyddiadau'r ymarfer cwmpasu. Yn ychwanegol at hyn, cynhwyswyd nifer o gwestiynau newydd er mwyn gwneud yr arolwg yn fwy cydnaws ag 'Egwyddorion Perthynas' ac 'Agenda Hwyluso Llywodraeth' Llywodraeth y Cynulliad. Cafodd y newidiadau effaith sylweddol ar hyd yr holiadur. Er mwyn sicrhau nad oedd y cyfweiliad yn para am fwy nag 20 munud, dilëwyd nifer o gwestiynau y gwelwyd bod eu gwerth dadansoddol yn gyfyngedig yn yr arolygon blaenorol.

1.15 Ceir rhestr lawn o'r holl newidiadau sylweddol a wnaethpwyd i'r holiadur ar gyfer arolwg 2010 yn Atodiad B.

1.16 Er mwyn sicrhau bod yr holiadur yn hawdd i'w ddeall a bod y sgript CATI a'r sgript ar-lein yn gweithio'n iawn, cynhaliwyd arolwg peilot rhwng 1 a 5 Chwefror 2010. Ceir mwy o fanylion am y peilot yn Atodiad B.

1.17 Roedd holiadur yr arolwg terfynol yn cynnwys dwy brif set o gwestiynau; un set ar gyfer rhanddeiliaid nad oeddent wedi bod mewn cysylltiad â Llywodraeth y Cynulliad yn ystod y 12 mis blaenorol, a set arall ar gyfer y rhai hynny a oedd wedi bod mewn cysylltiad â hi yn ystod y 12 mis blaenorol.

1.18 Gofynnwyd cwestiynau i ymatebwyr a oedd wedi bod mewn cysylltiad â Llywodraeth y Cynulliad yn ystod y 12 mis blaenorol ynghylch:

- natur eu perthynas â Llywodraeth y Cynulliad
- beth maent yn ei hoffi a beth maent yn ei gasáu ynglŷn â gweithio gyda swyddogion Llywodraeth y Cynulliad
- pa mor fodlon ydynt yn gyffredinol â'r ffordd y mae swyddogion yn ymgysylltu â rhanddeiliaid
- eu barn am agweddau penodol ar ddull swyddogion o ymgysylltu
- y dulliau y maent hwy'n eu defnyddio i ymgysylltu â swyddogion, a lefel yr ymgysylltu
- pa mor rhwydd yw hi iddynt ymgysylltu â swyddogion a chael gwybodaeth ganddynt
- perfformiad swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yng nghyswllt 'ffactorau llwyddiant critigol'
- gwelliannau posibl i'r ffordd y mae swyddogion yn ymgysylltu â rhanddeiliaid.

1.19 Gofynnwyd llai o gwestiynau i'r ymatebwyr *nad* oeddent wedi bod mewn cysylltiad â Llywodraeth y Cynulliad yn ystod y 12 mis blaenorol. Roedd y cwestiynau hyn yn ymwneud â'r canlynol:

- eu rhesymau dros beidio â chael cysylltiad
- eu barn ynglŷn â Llywodraeth y Cynulliad
- gwelliannau posibl i'r ffordd y mae swyddogion yn ymgysylltu â rhanddeiliaid.

1.20 Yn ychwanegol at hyn, gofynnwyd set o gwestiynau i ddibenion dadansoddi i bawb a ymatebodd i'r arolwg, pa un a oeddent wedi cwblhau'r fersiwn hir neu'r fersiwn byr o'r holiadur. Roedd y cwestiynau hyn yn ymwneud â'u sefydliad a'u rôl yn y sefydliad. Mae copi o'r holiadur i'w weld yn Atodiad A.

Methodoleg yr arolwg

1.21 Cynhaliwyd y prif waith maes rhwng 18 Chwefror ac 11 Mawrth 2010. Fel yn yr arolygon blaenorol, rhoddwyd cyfle i'r rhanddeiliaid ddewis a oeddent am gymryd rhan dros y ffôn neu ar-lein. Cynigiwyd yr holiaduron ffôn a'r holiaduron ar-lein yn Gymraeg ac yn Saesneg.

1.22 Cymerodd cyfanswm o 1,228 o randdeiliaid ran yn yr arolwg – 662 dros y ffôn a 566 ar-lein. Disgrifir proffil sampl yr arolwg yn Atodiad C.

Cyfweliadau dilynol

1.23 Cynhaliwyd cyfweliadau dilynol manwl gyda detholiad o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg er mwyn edrych yn fanwl ar farn yr ymatebwyr am agweddau penodol ar ddulliau Llywodraeth y Cynulliad o ymgysylltu â rhanddeiliaid.

1.24 Fel yn y cam cwmpasu, cynhaliwyd pob un o'r cyfweliadau dros y ffôn gan ddefnyddio canllaw trafodaeth a luniwyd gan Ipsos MORI mewn ymgynghoriad â'r Is-adran Ymchwil Gymdeithasol. Roedd y prif feysydd yr ymdriniwyd â hwy yn cynnwys:

- rhesymau dros fodlonrwydd/anfodlonrwydd â dull Llywodraeth y Cynulliad o ymgysylltu â rhanddeiliaid
- hygyrchedd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad
- i ba raddau y mae swyddogion yn gofyn am farn sefydliadau eraill
- i ba raddau y mae swyddogion yn darparu ymateb prydlon
- i ba raddau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn gydgysylltiedig

- dealltwriaeth swyddogion o sefydliadau rhanddeiliaid

1.25 Cynhaliwyd pum cyfweiliad ar hugain, a recriwtiwyd pobl i gymryd rhan ar sail yr atebion negyddol a roddasant yn yr arolwg. Yn fwy penodol, roedd y sampl yn cynnwys: chwech o bobl a ddywedodd eu bod yn ei chael yn anodd i ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad; chwech a ddywedodd nad yw swyddogion yn gofyn am eu barn cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu sefydliad; chwech a ddywedodd nad yw swyddogion yn ymateb o fewn graddfeydd amser hwylus; a saith a ddywedodd nad yw gwahanol rannau o Lywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Fodd bynnag, gan ein bod wedi holi pob un a gymerodd ran ynglŷn â'r *holl* agweddau ar ymgysylltu a restrwyd uchod – pa un a oedd eu profiadau o'r agweddau hyn yn gadarnhaol neu'n negyddol – roedd y cyfweiliadau dilynol yn gyfle i edrych ar gryfderau a gwendidau dull gweithredu Llywodraeth y Cynulliad.

1.26 Mae copi o'r canllaw trafodaeth a ddefnyddiwyd yn y cyfweiliadau dilynol i'w weld yn Atodiad A.

1.27 Cynhaliwyd y cyfweiliadau dilynol rhwng 6 Ebrill a 5 Mai 2010. Unwaith eto, rhoddwyd cyfle i bobl gymryd rhan drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Dehongli canfyddiadau'r ymchwil

a) Data meintiol

1.28 Mae holl ganlyniadau'r arolwg yn ddarostyngedig i amrywioldeb samplu, sy'n golygu nad yw'r gwahaniaethau a welwyd rhwng is-grwpiau yn sylweddol bob amser o safbwynt ystadegol h.y. mae'n bosibl mai cyd-ddigwyddiad ydyw. Drwy gydol yr adroddiad, dim ond pan fo gwahaniaethau ystadegol sylweddol (ar lefel 0.05) yr ydym wedi gwneud sylwadau – h.y. lle gallwn fod yn weddol sicr ei bod yn annhebygol mai cyd-digwyddiad ydyw. Ceir canllaw i ddibynadwyedd ystadegau yn Atodiad B.

1.29 Drwy gydol yr adroddiad, mae seren (*) yn dynodi unrhyw werth sy'n llai nag un y cant ond yn fwy na sero, tra mae llinell (-) yn dynodi sero. Lle nad yw'r canrannau'n adio i roi 100%, gall hyn fod oherwydd talgrynnu cyfrifiadurol, eithrio categorïau 'ddim yn gwybod' neu fwy nag un ateb. Lle rhoddir canrannau yng nghorff

yr adroddiad ar gyfer cyfuniadau o gategoriâu ymateb (megis y cyfanswm sy'n fodlon, sy'n cyfuno'r rhai hynny sy'n ymateb drwy ddweud bodlon 'iawn' a 'gweddol' fodlon), ceir y rhain drwy gyfrifo canran yr ymatebwyr yn y categori cyfunol a thalgrynnu'r canlyniad. Gall hyn fod yn wahanol i ganlyniad adio'r canlyniadau wedi eu talgrynnu o'r ddau gategori gwahanol a gyflwynwyd mewn ffigurau a thablau yn yr adroddiad (gweler er enghraifft baragraff 2.27 a ffigur cyfatebol 2.6).

b) Data ansoddol

1.30 Fel y rhan fwyaf o waith ymchwil ansoddol, roedd elfennau ansoddol yr astudiaeth hon yn cynnwys llawer llai o bobl na'r elfen feintiol. Er hynny, roedd yr elfen ansoddol yn edrych ar agweddau mewn llawer mwy o fanylder. Y nod yw peidio â chyffredinoli i'r boblogaeth ehangach yng nghyd-destun cyffredinolrwydd agweddau; yn hytrach, mae angen canfod ac edrych ar faterion a themâu sy'n ymwneud â'r pwnc sy'n cael ei ymchwilio. Wrth gynnal ymchwil ansoddol, cymerir yn ganiataol bod materion a themâu sy'n effeithio ar y rhai sy'n cymryd rhan yn adlewyrchiad o faterion a themâu yn y boblogaeth ehangach. Er na ellir mesur i ba raddau y mae'r ffactorau hyn yn berthnasol i'r boblogaeth ehangach neu i is-grwpiau penodol, mae ymchwil ansoddol yn werthfawr gan ei bod yn nodi'r ystod o wahanol faterion sy'n gysylltiedig ynghyd â'r effaith y gallant ei chael.

2 NATUR YMGYSYLLTIAD RHANDDEILIAID Â SWYDDOGION LLYWODRAETH Y CYNULLIAD

2.1 Mae'r bennod hon yn edrych ar y math o gysylltiad a gafodd rhanddeiliaid gyda swyddogion yn ystod y 12 mis blaenorol. Mae'n edrych ar y meysydd y buont mewn cysylltiad â hwy, y dulliau yr oeddent wedi eu defnyddio i gysylltu a lefel yr ymgysylltu. Mae'r bennod hefyd yn ystyried pa mor rhwydd neu anodd oedd hi i randdeiliaid ymgysylltu â swyddogion a pha mor aml roeddent wedi gallu cyfathrebu â hwy yn eu dewis iaith. Mae canfyddiadau'r arolwg, sy'n cael eu cyflwyno yn y bennod hon a'r penodau sy'n ei dilyn, yn seiliedig ar y rhanddeiliaid hynny a oedd wedi bod mewn cysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn ystod y 12 mis diwethaf (89 y cant o'r holl ymatebwyr). Adroddir am ganfyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid nad oeddent wedi bod mewn cysylltiad â swyddogion yn ystod y 12 mis diwethaf ar wahân yn Atodiad D.


Meysydd Llywodraeth y Cynulliad y buwyd mewn cysylltiad â hwy

2.2 Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi'r meysydd hynny yn Llywodraeth y Cynulliad y buont mewn cysylltiad fwyaf â hwy yn ystod y 12 mis blaenorol. Fel y dengys ffigur 2.1, cyfeiriodd tua un rhan o dair (34 y cant) at faes Cyfarwyddwr Cyffredinol Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, cyfeiriodd tua chwarter (23 y cant) at faes yr Economi a Thrafnidiaeth a chyfeiriodd cyfrannau tebyg at feysydd lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (22 y cant) a'r Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (18 y cant). Cyfeiriodd tua un o bob deg at y canlynol: Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (14 y cant), Materion Gwledig (11 y cant), Y Prif Weinidog a'r Cabinet (11 y cant), Treftadaeth (10 y cant) ac lechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau lechyd (10 y cant). Roedd ychydig yn llai o'r ymatebwyr wedi bod mewn cysylltiad ag unrhyw un arall o feysydd Llywodraeth y Cynulliad.

2.3 O ran nifer meysydd Llywodraeth y Cynulliad yr oedd yr ymatebwyr wedi bod mewn cysylltiad â hwy, cyfeiriodd 60 y cant at un maes yn unig, cyfeiriodd 22 y cant at ddau faes a chyfeiriodd cyfran debyg (18 y cant) at dri maes neu fwy.

Ffigur 2.1: Cyfran y rhanddeiliaid mewn cysylltiad â phob un o feysydd Llywodraeth y Cynulliad

C. Yn ystod y 12 mis diwethaf, â pha un/rai o feysydd Llywodraeth y Cynulliad y buoch mewn cysylltiad â hwy amlaf?



Sail: Pawb a fu mewn cysylltiad â swyddogion yn ystod y 12 mis blaenorol (1,092)

Dulliau rhyngweithio â swyddogion

2.4 Fel y dengys ffigur 2.2, y prif ddull yr oedd rhanddeiliaid wedi ei ddefnyddio i ryngweithio â swyddogion oedd negeseuon ebost wedi eu personoli (nodwyd gan 79 y cant o'r ymatebwyr). Roedd hyn yn cael ei ddilyn gan gyfarfodydd wyneb yn wyneb (73 y cant) a sgysiau ffôn (68 y cant). Roedd y dulliau a nodwyd yn llai aml yn cynnwys cynadleddau neu ddigwyddiadau (37 y cant), negeseuon ebost heb eu personoli (31 y cant), llythyrau (29 y cant) a dogfennau ysgrifenedig megis adroddiadau neu gynigion (29 y cant). Nid yw'n bosibl gwneud cymariaethau uniongyrchol rhwng y canlyniadau hyn a'r canfyddiadau cyfatebol o arolygon 2006 a 2008 gan fod newidiadau wedi eu gwneud i'r cwestiwn⁴ yn 2010. Er hynny, ymddengys bod gostyngiad graddol wedi bod yn nifer yr ymatebwyr sy'n nodi llythyrau a dogfennau ysgrifenedig fel eu prif ddull o ryngweithio.

⁴ ...Addaswyd ychydig ar y rhestr o ddewisiadau ateb ar gyfer arolwg 2010. Yn benodol, disodlwyd y dewis 'ebost' cyffredinol gan y dewis 'negeseuon ebost wedi'u personoli' a 'negeseuon ebost heb eu personoli'. Yn ogystal â hynny, ychwanegwyd 'gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru' ac 'e-gylchlythyrau Llywodraeth Cynulliad Cymru' yn ddewisiadau am y tro cyntaf yn 2010.

2.5 Roedd ychydig o wahaniaethau amlwg rhwng is-grwpiau yn y canfyddiadau, er bod cyfran uwch na'r cyfartaledd o ymatebwyr yn y De-ddwyrain wedi nodi cyfarfodydd wyneb yn wyneb fel eu prif ddull o gysylltu (77 y cant o gymharu â 73 y cant yn gyffredinol).


2.6 Gofynnwyd hefyd i'r ymatebwyr nodi pa dulliau y byddai'n *well* ganddynt eu defnyddio i ryngweithio â swyddogion. Fel y gwelir yn ffigur 2.2, roedd rhywfaint o gysondeb rhwng y dulliau cysylltu yr oedd rhanddeiliaid yn eu ffafrio a'r dulliau a ddefnyddiwyd mewn gwirionedd, gyda chyfarfodydd wyneb yn wyneb, negeseuon ebost wedi eu personoli a sgysiau ffôn unwaith eto'n dod i'r brig fel y tri ymateb mwyaf cyffredin (yn cael eu nodi gan 75 y cant, 70 y cant a 59 y cant o'r ymatebwyr).

2.7 Mynegodd cyfran uwch na'r cyfartaledd o'r ymatebwyr yn y De-ddwyrain bod yn well ganddynt gyfarfodydd wyneb yn wyneb (79 y cant o gymharu â 75 y cant yn gyffredinol), tra mynegodd cyfran uwch na'r cyfartaledd o'r rhai hynny yn y Gogledd-ddwyrain bod yn well ganddynt gysylltu drwy gynadleddau neu ddigwyddiadau (37 y cant o gymharu â 28 y cant yn gyffredinol).

Ffigur 2.2: Dulliau rhyngweithio â swyddogion – a ddefnyddiwyd ac a ffefrir

C. Beth yw'r prif ddulliau rydych yn eu defnyddio i ryngweithio â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad?

C. A pha ddulliau y byddai'n well gennych eu defnyddio i ryngweithio â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad?



Sail : Pawb a fu mewn cysylltiad â swyddogion yn ystod y 12 mis blaenorol (1,092)


Lefelau ymgysylltu

2.8 Mae Ffigur 2.3 yn crynhoi'r gwahanol lefelau ymgysylltu a fu rhwng ymatebwyr a swyddogion. Mae'r rhain yn amrywio o ofyn am wybodaeth a chynngor gan swyddogion (y lefel 'isaf' o ymgysylltu) i weithio mewn partneriaeth â swyddogion i lunio polisi (y lefel 'uchaf' o ymgysylltu).

2.9 Roedd tua phedwar o bob pum ymatebydd (83 y cant) wedi gofyn am wybodaeth, cynngor neu arweiniad gan swyddogion, 70 y cant wedi ymateb i ymgynghoriad a 63 y cant wedi cymryd rhan mewn grŵp cynghori neu weithgor. Roedd cyfran lai - 39 y cant - wedi gweithio mewn partneriaeth â swyddogion i lunio polisi.

Ffigur 2.3: Lefelau ymgysylltu

C. Wrth ymwneud â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, pa rai o'r rhain rydych wedi eu gwneud yn ystod y 12 mis diwethaf fel cynrychiolydd eich sefydliad?



Sail : Pawb a fu mewn cysylltiad â swyddogion yn ystod y 12 mis blaenorol (1,092)

2.10 I ddibenion dadansoddi, dosbarthwyd yr ymatebwyr i un o dri grŵp annibynnol ar ei gilydd yn seiliedig ar y lefel *uchaf* o ymgysylltu yr oeddent wedi ei chael gyda swyddogion Llywodraeth y Cynulliad.⁵ Y tri grŵp oedd:

- Lefel isel: ymatebwyr a nododd mai eu lefel ymgysylltu uchaf oedd gofyn am wybodaeth gan swyddogion neu ymateb i ymgynghoriad.
- Lefel ganolig: ymatebwyr a nododd mai eu lefel ymgysylltu uchaf oedd cymryd rhan mewn grŵp cynghori neu weithgor.
- Lefel uchel: ymatebwyr a nododd mai eu lefel ymgysylltu uchaf oedd gweithio mewn partneriaeth â swyddogion i lunio polisi.

2.11 Dosbarthwyd tua dwy ran o bump o'r ymatebwyr (39 y cant) i'r grŵp ymgysylltu 'lefel uchel', 32 y cant i'r grŵp ymgysylltu 'lefel ganolig' a'u chwarter (25 y cant) i'r grŵp ymgysylltu 'lefel isel'.

2.12 Oherwydd ymrwymiad parhaus Llywodraeth y Cynulliad i fanteisio ar wybodaeth a phrofiad y trydydd sector,⁶ dosbarthwyd cyfran uwch na'r cyfartaledd o ymatebwyr o sefydliadau'r trydydd sector i'r grŵp ymgysylltu 'lefel uchel' (50 y cant o gymharu â 39 y cant yn gyffredinol).

⁵ Felly, er enghraifft, cafodd ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi ymateb i ymgynghoriad ac wedi cymryd rhan mewn gweithgor eu categoreiddio ar sail eu profiad o weithgor.

⁶ Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) 'Y Trydydd Dimensiwn' – Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Cynllun Sector Gwirfoddol. Ar gael yn: <http://wales.gov.uk/dsjlg/publications/voluntary/thethirddimension/planw?lang=cy>

Amllder y cysylltiad

2.13 Pan ofynnwyd pa mor aml yr oeddent wedi bod mewn cysylltiad â swyddogion, dywedodd ychydig dros un rhan o dair o'r rhanddeiliaid (34 y cant) rhwng un a phedair gwaith yn y 12 mis diwethaf, dywedodd cyfran debyg (36 y cant) yn fisol a dywedodd 29 y cant yn ddyddiol neu'n wythnosol.⁷ Mae'r canfyddiadau hyn yn gyson â'r canlyniadau cyfatebol o arolwg 2008 (31 y cant, 36 y cant a 32 y cant yn y drefn honno).

2.14 Dengys dadansoddiad rhanbarthol bod cyfran uwch na'r cyfartaledd o'r ymatebwyr yn y De-ddwyrain wedi dweud eu bod wedi cael cysylltiad dyddiol neu wythnosol â swyddogion (36 y cant o gymharu â 29 y cant yn gyffredinol).

2.15 Fel y disgwyliid, roedd cyfran uwch na'r cyfartaledd o'r ymatebwyr a oedd wedi eu gosod yn y grŵp ymgysylltiad 'lefel uchel' wedi bod mewn cysylltiad â swyddogion ar sail ddyddiol neu wythnosol (45 y cant o gymharu â 29 y cant yn gyffredinol). I'r gwrthwyneb, roedd cyfran uwch na'r cyfartaledd o'r ymatebwyr a oedd wedi eu gosod yn y grŵp ymgysylltiad 'lefel isel' wedi bod mewn cysylltiad â swyddogion rhwng un a phedair gwaith yn ystod y 12 mis blaenorol (55 y cant o gymharu â 34 y cant yn gyffredinol).

Nifer y swyddogion y buwyd mewn cysylltiad â hwy

2.16 Pan ofynnwyd â faint o swyddogion yr oeddent wedi bod mewn cysylltiad â hwy, dywedodd ychydig yn llai nag un rhan o dair o'r ymatebwyr (32 y cant) rhwng un a phum swyddog, dywedodd cyfran debyg (31 y cant) rhwng chwech a deg swyddog a dywedodd 34 y cant eu bod wedi bod mewn cysylltiad â mwy na deg.

2.17 Unwaith eto, roedd rhywfaint o wahaniaethau rhwng y lefelau ymgysylltu: roedd cyfran uwch na'r cyfartaledd o'r rhai hynny a oedd yn y grŵp ymgysylltu 'lefel

⁷ Er mwyn dadansoddi is-grwpiau crëwyd newidyn 'amlder cysylltiad' a oedd yn rhannu'r ymatebwyr yn 2 grŵp: y rhai hynny a gafodd 'gysylltiad rheolaidd' â swyddogion a'r rhai hynny a gafodd 'gysylltiad afreolaidd'. Roedd y grŵp cyntaf yn cynnwys y rhai hynny a ddywedodd eu bod wedi ymgysylltu â swyddogion ar sail ddyddiol, wythnosol neu fisol tra'r oedd yr ail grŵp yn cynnwys y rhai hynny a ddywedodd eu bod wedi ymgysylltu â swyddogion rhwng un a phedair gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf.


uchel' wedi bod mewn cysylltiad â mwy na 10 swyddog (49 y cant o gymharu â 34 y cant yn gyffredinol).

Yr iaith a ffefrir er mwyn cyfathrebu â Llywodraeth y Cynulliad

2.18 Pan ofynnwyd ym mha iaith y byddai'n well ganddynt gyfathrebu â swyddogion, Saesneg oedd ateb y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (89 y cant) tra dywedodd naw y cant y byddai'n well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg. Fel y disgwyliid, dywedodd cyfran uwch na'r cyfartaledd o'r ymatebwyr yn y Gogledd-orllewin mai Cymraeg fyddai'r iaith y byddent yn ei ffafrio (46 y cant o gymharu â naw y cant yn gyffredinol).

2.19 Gofynnwyd i bob un o'r rhai a ddywedodd y byddai'n well ganddynt gyfathrebu yn Gymraeg pa mor aml yr oeddent yn gallu gwneud hyn yn ymarferol. Roedd y profiadau'n amrywio gydag oddeutu dau o bob pum ymatebydd (42 y cant) yn dweud eu bod yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg yn anaml neu byth, a 31 y cant yn dweud eu bod yn gallu gwneud hynny weithiau (ffigur 2.4). Dywedodd 28 y cant eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg bob amser neu'n aml wrth ymgysylltu â swyddogion. Unwaith eto, mae'r canfyddiadau hyn yn gyson ar y cyfan â chanfyddiadau arolwg 2008.

Ffigur 2.4: Y gallu i ymgysylltu â swyddogion yn Gymraeg




Sail: *Pawb y byddai'n well ganddynt gyfathrebu â swyddogion yn Gymraeg (2008:91; 2010:101)*

Pa mor rhwydd yw ymgysylltu â swyddogion

2.20 Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (82 y cant) ei bod yn weddol rwydd iddynt ymgysylltu â swyddogion, a dywedodd 24 y cant ei bod yn rhwydd *iawn*. Ar y llaw arall, dywedodd 15 y cant ei bod yn *anodd* ymgysylltu â swyddogion. Er 2008, mae cynnydd bychan wedi bod yng nghyfran gyffredinol y rhanddeiliaid sy'n dweud bod ymgysylltu â swyddogion yn rhwydd (ffigur 2.5).

Ffigur 2.5: Pa mor rhwydd yw ymgysylltu â swyddogion

C. Yn gyffredinol, pa mor rhwydd neu anodd yw hi i ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad?



Sail: *Pawb a fu mewn cysylltiad â swyddogion yn ystod y 12 mis blaenorol (2008:1,138; 2010:1,092)*

2.21 Nid oedd llawer o amrywiadau yn y canlyniadau yn ôl maes Llywodraeth y Cynulliad, ond dywedodd cyfran ychydig yn uwch na'r cyfartaledd o'r ymatebwyr a oedd wedi bod mewn cysylltiad â maes Cyfarwyddwr Cyffredinol Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau bod ymgysylltu â swyddogion yn anodd (18 y cant o gymharu â 15 y cant yn gyffredinol).

2.22 Edrychwyd yn fanylach ar farn rhanddeiliaid ynglŷn â pha mor rhwydd yw ymgysylltu â swyddogion yn yr ymchwil ansoddol er mwyn cael dealltwriaeth fanwl o'r problemau a wynebwr gan rhanddeiliaid a sut y gallai Llywodraeth y Cynulliad wella'i pherfformiad yn y maes hwn.

2.23 Dywedodd nifer o'r rhai a gymerodd ran fod ymgysylltu â swyddogion yn tueddu i fod yn broses 'un ffordd' a hynny'n bennaf **oddi wrth** sefydliadau sy'n rhanddeiliaid i swyddogion. Teimlai'r rhanddeiliaid hyn y dylai swyddogion fod yn fwy rhagweithiol wrth ymestyn allan at sefydliadau sy'n rhanddeiliaid gan y byddai hyn yn gwella'r berthynas waith yn ogystal â galluogi swyddogion i fanteisio'n effeithiol ar arbenigedd a gwybodaeth sefydliadau sy'n rhanddeiliaid. Awgrymodd rhai y gallai swyddogion fod yn fwy rhagweithiol drwy rannu gwybodaeth am ddatblygiadau polisi neu gyfleoedd i gael cyllid mewn meysydd neu adrannau eraill yn Llywodraeth y Cynulliad a fyddai o ddiddordeb i sefydliadau a sectorau'r ymatebwyr. Teimlai eraill y gallai swyddogion wneud mwy drwy ddangos gwerthfawrogiad o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan sefydliadau sy'n rhanddeiliaid a darparu mwy o adborth i rhanddeiliaid ynglŷn â'u gwaith, yn enwedig a yw'n unol â disgwyliadau Llywodraeth y Cynulliad.

Rwy'n meddwl eu bod nhw tua 20 mlynedd y tu ôl i'r rhan fwyaf o sefydliadau rheoli gwybodaeth o ran sut rydych yn mynd ati o ddirif i ymgysylltu â'r bobl sy'n gwneud y gwaith o ddydd i ddydd, ac mae gan y bobl hynny fwy o wybodaeth na neb.

Sefydliad iechyd/GIG

Yn anaml iawn y mae'r Cynulliad yn rhagweithiol ... ac yn anfon pethau gan ddweud "hei, gallech chi wneud cais am hwn" felly bron iawn na ddywedech chi mai ar ddamwain mae rhywun yn clywed am wybodaeth o'r fath.

Y trydydd sector

Does yna ddim gweithredu dilynol o unrhyw fath ... [Dydyn ni] byth yn siŵr ydy'r gwaith rydyn ni'n ei ddatblygu yn unol â'r hyn y mae'r Cynulliad yn credu y dylen ni fod yn ei wneud ac [ydyn nhw] yn deall pam rydyn ni'n gwneud yr hyn rydyn ni yn ei wneud. Dydyn ni'n math yna o adborth ddim fel petai e'n dod yn ôl.

Y trydydd sector

Mi fyddwn i'n hoffi eu gweld nhw'n curo ar y drws ac yn dweud "rydych chi'n gwneud gwaith arbennig o dda"... Mi wnaethon ni ennill [gwobr] yn ddiweddar ac mi ddylai hynny fod wedi annog swyddogion ar ryw lefel i gysylltu â ni a gofyn "gawn ni ddod draw i weld ymarfer da yma"... [yn lle hynny] dim byd, tawelwch llwyr.

Y sector cyhoeddus

2.24 Roedd rhai o'r farn bod swyddogion yn ymddangos fel pe baent yn ymgysylltu'n rhagweithiol â nifer cyfyngedig o sefydliadau ac y dylent wneud mwy yn y dyfodol i ymgysylltu ag ystod ehangach o sefydliadau. Teimlai nifer o'r rhai a fu'n cymryd rhan bod ymgysylltiad swyddogion â sefydliadau sy'n rhanddeiliaid wedi ei gyfyngu'n aml i sefydliadau mawr, y rhai hynny sydd wedi eu lleoli nid nepell o Gaerdydd neu'r rhai hynny y maent wedi sefydlu perthynas â hwy ers blynyddoedd lawer. Yn gysylltiedig â hyn, roedd teimlad bod swyddogion yn cymryd yn ganiataol yn aml, a hynny'n amhriodol, bod barn sefydliadau mawr mewn sector penodol yr un fath ar y cyfan â barn sefydliadau llai yn y sector hwnnw.

Mae'r sefydliadau mawr a'r achosion mwy poblogaidd yn gallu lleisio'u barn, tra mae sefydliadau llai fel ein sefydliad ni yn sicr yn cael pethau'n anos...Nid yw'r ffaith bod sefydliad yn fawr neu'n bodoli ers llawer o flynyddoedd, yn golygu o reidrwydd mai llais y sefydliad hwnnw yw'r unig lais dilys yn y maes.

Y trydydd sector

2.25 Roedd llawer o'r rhai a gymerodd ran yn teimlo bod ymgysylltu â swyddogion yn anodd gan nad oeddent yn siŵr gyda phwy y dylent gysylltu yn Llywodraeth y Cynulliad. Teimlai'r bobl hyn y gellid darparu manylion cysylltu swyddogion, yn ogystal â'u cylch gwaith, i randdeiliaid. Roedd y rhai hynny a oedd yn teimlo ei bod yn gymharol *rwydd* i gysylltu â swyddogion, er hynny, yn aml yn cwestiynu gwerth y cysylltiad hwnnw, ac yn dweud nad yw swyddogion bob amser fel pe baent yn derbyn neu'n gweithredu argymhellion a barn sefydliadau sy'n rhanddeiliaid.

Fel arfer mewn sefydliad rydych yn gallu gweld ar y rhyngrwyd ..., pwy di pwy, be di be, beth yw eu proffil, ac mae hyn yn digwydd yn aml yn adrannau eraill y llywodraeth, fel eich bod yn gwybod lle i fynd. Dydy hynny ddim yn rhwydd ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Sefydliad iechyd/GIG

Ymgysylltu fel mewn deialog ... [os] oes arnon ni angen ateb i hyn, mae'n gallu mynd drwy'r AALI, maen nhw'n cael ateb gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac yn ôl â ni. Ond dydy hynny ddim yr un fath â deialog, dadl a thrafodaeth.

Y sector cyhoeddus

2.26 Gan edrych ar ganfyddiadau cadarnhaol yr arolwg, cafwyd nifer o sylwadau ffafriol iawn hefyd gan nifer o ymatebwyr am eu profiad o ymgysylltu â swyddogion.

Roeddent yn priodoli eu profiadau cadarnhaol yn aml i'r ffaith eu bod wedi cael manylion cysylltu swyddogion unigol yn y meysydd hynny yn Llywodraeth y Cynulliad yr oeddent mewn cysylltiad fwyaf â hwy, neu i'r ffaith eu bod wedi sefydlu perthynas ers tro â swyddogion penodol. Yn ychwanegol at hyn siaradodd nifer o'r ymatebwyr mewn termau cadarnhaol am "strwythurau" a oedd wedi eu sefydlu er mwyn hwyluso ymgysylltiad â swyddogion. Roedd y rhain yn cynnwys cael un pwynt cyswllt yn Llywodraeth y Cynulliad y gallent gyfeirio pob ymholiad ato a/neu gael cyfarfod wyneb yn wyneb â swyddogion lle gallent godi materion fel yr oeddent yn codi.

Wel mae gen i enwau'r swyddogion sy'n ymwneud â [fy sefydliad], fi 'di cwrdd â nhw yn y cyfarfodydd, a mae gen i rif eu ffôn nhw, a mae gen i cyfeiriadau ebost nhw - there's no escape! Sai'n gwybod ble maen nhw'n byw!

Llywodraeth leol

Rydyn ni'n cael cyfarfodydd rheolaidd ... sianeli cyfathrebu agored ac rydym wedi datblygu perthynas â hwy ... Gan ein bod yn cael y cysylltiadau rheolaidd hyn pan mae problemau yn codi [mae] cyfleoedd i siarad [â swyddogion]. Rydyn ni'n meddwl bod hynny'n gweithio'n effeithiol iawn.

Y sector cyhoeddus


Pa mor rhwydd yw cael gwybodaeth

2.27 Yn gyson â'r canfyddiad bod y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid yn teimlo bod ymgysylltu â swyddogion yn rhwydd, dywedodd saith o bob deg ymatebydd bod cael gwybodaeth gan swyddogion hefyd yn weddol rwydd neu'n rhwydd iawn (ffigur 2.6). Serch hynny, dywedodd lleiafrif arwyddocaol – tua chwarter yr ymatebwyr (23 y cant) – fod cael gwybodaeth gan swyddogion yn weddol *anodd* neu'n *anodd* iawn (ffigur 2.6).

2.28 Yn galonogol, ers 2008 gwelwyd cynnydd o bedwar pwynt canran yng nghyfran gyffredinol yr ymatebwyr a ddywedodd ei bod yn rhwydd cael gwybodaeth gan swyddogion.

Ffigur 2.6: Pa mor rhwydd yw cael gwybodaeth gan swyddogion

C. Yn gyffredinol, pa mor rhwydd neu anodd yw hi i gael gwybodaeth gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad?



Sail: Pawb a fu mewn cysylltiad â swyddogion yn ystod y 12 mis blaenorol (2008:1,138; 2010:1,092)

2.29 Unwaith eto, ymatebodd yr ymatebwyr a oedd mewn cysylltiad â maes Cyfarwyddwr Cyffredinol Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn fwy negyddol na'r sampl yn ei gyfanrwydd, gydag oddeutu un rhan o dair (31 y cant) o'r grŵp hwn yn dweud ei bod yn anodd cael gwybodaeth gan swyddogion (o gymharu â 23 y cant yn gyffredinol).

2.30 Holwyd y rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil ansoddol hefyd ynghylch eu profiad o gael gwybodaeth gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad. Roedd y rhai hynny a oedd wedi cael profiad negyddol yn gyffredinol yn teimlo nad oedd cael gwybodaeth yn her ynddi ei hun, ond mai'r hyn a oedd yn anodd oedd dod o hyd i'r swyddogion priodol i gael yr wybodaeth ganddynt. Roedd mynediad at wybodaeth yn llai o broblem ymhlith y rhai hynny a oedd â chysylltiadau yn Llywodraeth y Cynulliad; roedd yr ymatebwyr hyn ar y cyfan yn gallu cael mynediad drwy'r cysylltiadau hynny.

2.31 Roedd yr ymchwil ansoddol hefyd yn gyfle i edrych ar farn rhanddeiliaid am wefan Llywodraeth y Cynulliad. Ymhlith y rhai hynny a oedd wedi cael profiad o ddefnyddio'r wefan i gael gwybodaeth, roedd y farn yn weddol negyddol. Teimlai'r rhai a gymerodd ran nad oedd y wefan yn hawdd ei defnyddio a disgrifiodd rhai hi fel

“anhreiddiadwy”. Yn fwy penodol, teimlai’r rhai a gymerodd ran fod strwythur y wefan yn wael a bod hynny’n arwain at broblemau wrth geisio dod o hyd i’r dudalen briodol i gael gwybodaeth benodol neu ddogfennau polisi. Teimlai un o’r rhai a gymerodd ran y gellid gwella strwythur presennol y wefan drwy roi mwy o bwyslais ar ddisgwyliadau defnyddwyr y wefan a’r wybodaeth y mae arnynt ei hangen. Teimlai’r ymatebydd hwn hefyd y gellid gwella’r wefan drwy gynnwys tudalen “lleisio barn” yn rhestru’r holl wahanol ymgynghoriadau sy’n cael eu cynnal yn holl feysydd Llywodraeth y Cynulliad.

[Rwy’n] credu bod gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru’n wael. Mae’n anodd iawn llywio drwyddi ac ... rwy’n weddol hyderus â Thechnoleg Gwybodaeth, ac yn gallu brwydro fy ffordd drwy’r rhan fwyaf o bethau fel arfer, ond mae hwn yn dipyn o labyrinth ac nid yw bob amser yn rhwydd dod o hyd i’r union beth rydych ei eisiau.

Y sector cyhoeddus

Byddai’n werth iddynt edrych ar y wefan o safbwynt defnyddwyr a gofyn iddynt eu hunain pam mae rhywun yn edrych arni. Fy nheimplad i yw ei bod wedi cael ei chreu i adlewyrchu’r hyn y maen nhw’n ei wneud yn hytrach nag edrych ar bethau o safbwynt aelod o’r cyhoedd sy’n logio i mewn a gweld beth yn union maen nhw eisiau ei ddarganfod.

Y trydydd sector

3 BARN AM SWYDDOGION LLYWODRAETH Y CYNULLIAD

3.1 Mae'r bennod hon yn edrych ar farn rhanddeiliaid am swyddogion Llywodraeth y Cynulliad. Mae'n dechrau drwy edrych ar eu bodlonrwydd cyffredinol â'r modd y mae swyddogion yn ymgysylltu â sefydliadau, cyn ystyried eu barn am agweddau penodol ar ymgysylltu. Mae'r bennod yn cloi drwy ddisgrifio sut y byddai rhanddeiliaid yn hoffi ymgysylltu â swyddogion yn y dyfodol.

Bodlonrwydd â'r modd yr ymgysylltir â rhanddeiliaid

3.2 Roedd y farn gyffredinol am swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn gadarnhaol: dywedodd 70 y cant o'r rhanddeiliaid eu bod yn fodlon â'r ffordd roedd swyddogion wedi ymgysylltu â hwy yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a dywedodd 28 y cant eu bod yn fodlon *iawn*. Cyfran lawer llai o'r ymatebwyr – 13 y cant – gyfeiriodd at unrhyw anfodlonrwydd. Fel y dengys tabl 3.1, mae'r canlyniadau hyn yn debyg iawn i ganfyddiadau cyfatebol arolygon 2006 a 2008.

Tabl 3.1: Bodlonrwydd cyffredinol â'r modd yr ymgysylltir â rhanddeiliaid

	2006	2008	2010
	%	%	%
Bodlon iawn	22	24	28
Gweddol fodlon	49	45	42
Ddim yn fodlon nac yn anfodlon	15	16	15
Gweddol anfodlon	10	10	10
Anfodlon iawn	2	3	3
Ddim yn gwybod	2	2	1
<i>Sail: Pawb sydd wedi bod mewn cysylltiad â swyddogion yn ystod y 12 mis blaenorol</i>	1,068	1,139	1,092

3.3 Fel y dengys tabl 3.2 roedd y canlyniadau'n weddol gyson rhwng y gwahanol feysydd roedd yr ymatebwyr wedi bod mewn cysylltiad â hwy amlaf yn Llywodraeth y Cynulliad. Wedi dweud hynny, roedd *anfodlonrwydd* dipyn yn uwch ymhlith ymatebwyr a oedd wedi ymwneud â swyddogion ym maes yr Economi a Thrafnidiaeth (18 y cant o gymharu ag 13 y cant yn gyffredinol).

Tabl 3.2: Bodlonrwydd cyffredinol â'r modd yr ymgysylltir â rhanddeiliaid yn ôl maes Llywodraeth y Cynulliad

	Bodlon	Anfodlon	Sail
	%	%	
Holl feysydd Llywodraeth y Cynulliad	70	13	1,092
Cyllid	74	16	90
Y Prif Weinidog a'r Cabinet	72	16	120
Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	69	16	194
Treftadaeth	69	17	108
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	69	13	158
Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau	67	16	369
Yr Economi a Thrafnidiaeth	67	18	250
Materion Gwledig	67	18	119
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad	67	11	76
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	65	17	242
Gwasanaethau Cyfreithiol	64	23	22*
Is-adran yr Ysgrifennydd Parhaol	64	21	14*
Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd	62	12	107
Pobl, Lleoedd a Gwasanaethau Corfforaethol	62	21	73

* Gan fod y sail yn fach nid yw'n bosibl cymharu â meysydd eraill Llywodraeth y Cynulliad

3.4 Roedd bodlonrwydd hefyd yn is na'r cyfartaledd ymhlith ymatebwyr a oedd yn cynrychioli sefydliadau academaidd (63 y cant o gymharu â 70 y cant). Adlewyrchid y gwahaniaeth hwn mewn rhan arall o'r arolwg, a thrafodir hynny'n llawnach isod.

3.5 Roedd amrywiadau eraill hefyd, ac roedd y rhai hynny'n ddibynnol ar faint o gysylltiad roedd rhanddeiliaid wedi ei gael â swyddogion: roedd y rhai hynny a oedd mewn cysylltiad rheolaidd yn llawer mwy bodlon na'r rhai hynny nad oeddent mewn cysylltiad rheolaidd (72 y cant o gymharu â 66 y cant). Er hyn, nid oedd gwahaniaeth yn ôl *lefel* yr ymgysylltiad a gafodd rhanddeiliaid – nid oedd y rhai hynny a oedd yn y grŵp ymgysylltiad 'lefel uchel' yn fwy bodlon na'r rhai a oedd yn y grŵp ymgysylltiad 'lefel isel'.⁸ Mae'r canfyddiadau hyn, sydd braidd yn baradocsaidd, yn awgrymu ei bod yn bosibl fod a wnelo ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid fwy â chreu deialog barhaus â sefydliadau yn hytrach na chynyddu'r dylanwad uniongyrchol y gallant ei gael ar waith Llywodraeth y Cynulliad.

⁸ Nodir sut y penderfynwyd ynglŷn â lefelau ymgysylltu ym mharagraff 2.9 yn y bennod flaenorol.

3.6 Dengys dadansoddiad rhanbarthol o'r canlyniadau bod bodlonrwydd â'r modd yr ymgysylltir â rhanddeiliaid yn uwch yng nghanolbarth Cymru nag mewn ardaloedd eraill, yn enwedig y gogledd-ddwyrain a'r de-ddwyrain (79 y cant o gymharu â 68 y cant a 67 y cant yn y drefn honno).

Newidiadau canfyddedig yn y modd yr ymgysylltir â rhanddeiliaid dros gyfnod

3.7 Pan ofynnwyd a oeddent yn teimlo bod dull swyddogion Llywodraeth y Cynulliad o ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi gwella, gwaethygu neu aros yr un fath yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, dywedodd hanner yr ymatebwyr (51 y cant) ei fod wedi aros yr un fath. Yn y cyfamser, dywedodd un rhan o dair (31 y cant) ei fod wedi gwella a dywedodd 13 y cant ei fod wedi gwaethygu. Fel yn achos y ffigurau bodlonrwydd, mae'r canlyniadau hyn wedi aros yn sefydlog i raddau helaeth er 2008.

Tabl 3.3: Newid canfyddedig yn y modd yr ymgysylltir â rhanddeiliaid yn ystod y 12 mis blaenorol

	2006	2008	2010
	%	%	%
Gwell o lawer	6	5	6
Ychydig yn well	25	23	25
Dim newid	56	49	51
Ychydig yn waeth	6	12	10
Gwaeth o lawer	1	3	3
Ddim yn gwybod	6	8	5
<i>Sail: Pawb sydd wedi bod mewn cysylltiad â swyddogion yn ystod y 12 mis blaenorol</i>	1,068	1,139	1,092

3.8 Unwaith eto roedd rhywfaint o wahaniaeth barn wrth ystyried gwahanol feysydd Llywodraeth y Cynulliad. Dywedodd cyfrannau uwch na'r cyfartaledd o randdeiliaid a oedd wedi bod mewn cysylltiad â maes Cyfarwyddwr Cyffredinol Cyllid ac â'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol fod ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi gwella. Ar y llaw arall, teimlai cyfran uwch na'r cyfartaledd o'r rhai hynny a oedd wedi bod mewn cysylltiad ag Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd fod ymgysylltu wedi dirywio. Gellir priodoli'r canfyddiad olaf yn rhannol o leiaf i'r ad-drefnu diweddar yn y GIG yng Nghymru. Daeth y trefniadau newydd i rym ar 1 Hydref 2009 ac maent wedi golygu newidiadau sylweddol i'r ffordd y mae gwasanaethau iechyd y wlad yn cael eu trefnu a'u cyflenwi. Mae rhanddeiliaid sy'n

ymgysylltu ag Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd ymhlith y rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y newidiadau. Mae'n bosibl bod gan rai ohonynt amheuan ynglŷn â'r modd y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymdrin â'r ad-drefnu neu ynglŷn â'r trefniadau newydd sy'n bodoli yn awr a bod hyn yn cael effaith negyddol ar eu barn am swyddogion.

Tabl 3.4: Newid canfyddedig yn y modd yr ymgysylltir â rhanddeiliaid yn ystod y 12 mis blaenorol, yn ôl maes Llywodraeth y Cynulliad

	Gwell	Gwaeth	Sail
	%	%	
Holl feysydd Llywodraeth y Cynulliad	31	13	1,092
Is-adran yr Ysgrifennydd Parhaol	50	7	14*
Gwasanaethau Cyfreithiol	45	5	22*
Cyllid	41	13	90
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	39	8	158
Yr Economi a Thrafnidiaeth	36	15	250
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad	33	7	76
Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau	32	17	369
Materion Gwledig	32	16	119
Y Prif Weinidog a'r Cabinet	31	12	120
Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	30	10	194
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	30	14	242
Treftadaeth	27	16	108
Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd	27	20	107
Pobl, Lleoedd a Gwasanaethau Corfforaethol	25	12	73

* Gan fod y sail yn fach nid yw'n bosibl cymharu â meysydd eraill Llywodraeth y Cynulliad

3.9 O ran gwahaniaethau eraill, roedd y farn unwaith eto'n fwy cadarnhaol na'r cyfartaledd ymhlith y rhai hynny a oedd mewn cysylltiad rheolaidd â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad – dywedodd 35 y cant o'r grŵp hwn fod ymgysylltu wedi gwella yn ystod y 12 mis diwethaf, o gymharu â 25 y cant o'r rhai hynny nad oeddent mewn cysylltiad mor aml.


Pethau roedd yr ymatebwyr yn ei 'hoffi' a'u 'casáu' ynglŷn â gweithio gyda swyddogion

3.10 Gofynnwyd (yn ddigymell) i'r ymatebwyr beth yn fwyaf arbennig roeddent yn ei hoffi a'i gasáu am weithio gyda swyddogion Llywodraeth y Cynulliad. Fel y dengys

ffigur 3.1, y pwyntiau y cyfeiriwyd atynt amlaf fel pethau roeddent yn eu hoffi oedd bod swyddogion yn gyfeillgar ac yn agos atoch (25 y cant), yn hawdd mynd atynt (15 y cant) ac yn gymwynasgar (14 y cant). Roedd yr ymatebion mwyaf cyffredin nesaf yn ymwneud â lefel gwybodaeth swyddogion (12 y cant), proffesiynoldeb (11 y cant) ac ymrwymiad i ddod o hyd i atebion effeithiol (10 y cant).

Ffigur 3.1: Beth mae rhanddeiliaid yn ei hoffi ynglŷn â gweithio gyda swyddogion – y 10 prif ymateb

C. Beth fydddech chi'n ei ddweud rydych yn ei hoffi fwyaf am weithio gyda swyddogion yn Llywodraeth Cynulliad Cymru?



Sail: *Pawb a fu mewn cysylltiad yn ystod y 12 mis blaenorol (1,092)*

3.11 Roedd sylwadau a wnaethpwyd yn yr ymchwil ansoddol yn cadarnhau'r canfyddiadau hyn:

Maen nhw wastad yn onest, os nad yw nhw'n gwybod, neu os nad yw nhw'n gallu ateb cwestiwn, mi wedan nhw, chi'n gwybod...Wnan nhw ddim, chi'n gwybod, mynd rownd ti yn trio rhoi rhyw fath o ateb i chi er mwyn cael chi i fynd i ffwrdd

Llywodraeth leol

Maen nhw bob amser yn broffesiynol, maen nhw wastad yn gefnogol ac maen nhw wastad yn gymwynasgar a byddwn i'n dweud fy mod i wedi datblygu perthynas bersonol gref iawn gyda'r unigolion rwy'n ymwneud â hwy.

Sefydliad iechyd/GIG

Mae uwch weision sifil ... yn mynychu cyfarfodydd ac rydych yn cael cyfle i fynd atyn nhw wedyn ar ddiwedd y cyfarfodydd os ydych chi eisiau egluro mater penodol sy'n berthnasol i chi.

Y trydydd sector


Rwy'n teimlo ei bod hi'n hawdd mynd at bobl, rydych yn gallu mynd drwodd at y person iawn ... ac fel arfer mi allwch chi gael cyfarfod wyneb yn wyneb â'r person hwnnw os ydych chi'n dymuno.

Y trydydd sector

3.12 O ran y pethau roedd rhanddeiliaid yn ei *gasáu* am weithio gyda swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, roedd yr ymatebion mwyaf cyffredin yn ymwneud â gormod o fiwrocratiaeth mewn prosesau (cyfeiriodd 18 y cant o'r ymatebwyr at hyn) a diffyg pendantrwydd wrth wneud penderfyniadau (18 y cant). Cyfeiriwyd droeon hefyd at ddiffyg trefniadau gweithio cydgysylltiedig rhwng gwahanol rannau o Lywodraeth y Cynulliad (wyth y cant) a swyddogion ddim yn deall sefydliadau sy'n rhanddeiliaid (wyth y cant). Dywedodd cyfrannau llai o randdeiliaid fod swyddogion yn gosod terfynau amser afrealistig (chwech y cant) ac nad ydynt yn rhoi digon o wybodaeth iddynt am ddatblygiadau pwysig (pump y cant).

Ffigur 3.2: Beth mae rhanddeiliaid yn ei gasáu am weithio gyda swyddogion – y 10 prif ymateb

C. Beth fydddech chi'n ei ddweud rydych yn ei hoffi leiaf am weithio gyda swyddogion yn Llywodraeth Cynulliad Cymru?



Sail: *Pawb a fu mewn cysylltiad yn ystod y 12 mis blaenorol (1,092)*

3.13 Roedd y gwendidau hyn a welwyd yn themâu a oedd yn cael eu hailadrodd yn yr arolwg ac maent yn cael eu trafod yn llawnach isod.

Nodweddion Llywodraeth y Cynulliad a'r swyddogion

3.14 Cyflwynwyd wyth datganiad am Lywodraeth y Cynulliad a swyddogion Llywodraeth y Cynulliad i'r ymatebwyr a gofynnwyd iddynt i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno â phob un. Mae'r canlyniadau, sy'n cael eu crynhoi yn nhabl 3.5, yn rhoi asesiad cymysg i raddau o berfformiad y sefydliad.

3.15 Roedd mwyafrif bach o'r rhanddeiliaid yn cytuno bod swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn canolbwyntio ar gyflawni (54 y cant) ac yn anghytuno â'r datganiad eu bod yn bell ac yn amhersonol (68 y cant). Roedd y farn ynglŷn â'r datganiadau eraill yn llai ffafriol. Gan edrych yn gyntaf ar y datganiadau hynny sy'n ymwneud â gweithredu'n lleol, roedd llai na hanner yr ymatebwyr yn cytuno bod Llywodraeth y Cynulliad yn caniatáu i'w sefydliad feddwl beth yw'r ffordd orau o gyflawni ar lefel leol (44 y cant), ac roedd mwy na chwarter yr ymatebwyr yn anghytuno (26 y cant). Yn ychwanegol at hyn, roedd mwy o ymatebwyr yn cytuno nag a oedd yn anghytuno bod Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i'w sefydliad ganolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol yn hytrach na rhai lleol (43 y cant a 26 y cant yn y drefn honno).

3.16 O ran rheolaeth a threfniadaeth Llywodraeth y Cynulliad, roedd y farn braidd yn negyddol. Roedd oddeutu un rhan o dair o'r rhanddeiliaid (34 y cant) yn cytuno bod Llywodraeth y Cynulliad yn ei chyfanrwydd yn cael ei rheoli'n dda tra'r oedd tua chwarter y rhanddeiliaid (23 y cant) yn anghytuno. Yn ychwanegol at hyn, roedd 17 y cant yn cytuno bod gwahanol rannau o'r sefydliad yn gweithio'n dda gyda'i gilydd; roedd tua hanner y rhanddeiliaid (48 y cant) yn anghytuno.

3.17 O ran y datganiad, 'Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n annog cyrff cyhoeddus i gystadlu â'i gilydd er mwyn eu hysgogi i wella', roedd y farn yn rhanedig gyda chwarter y rhanddeiliaid yn cytuno (25 y cant) a chyfran debyg yn anghytuno (26 y cant).

Tabl 3.5: Nodweddion canfyddedig swyddogion Llywodraeth y Cynulliad

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Y naill na'r llall	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod / amherthnasol
Mae'r swyddogion yn bell ac yn amherthnasol	2	11	17	49	20	1
Mae'r swyddogion yn amharod i arloesi	6	21	22	38	8	6
Mae'r swyddogion yn canolbwyntio ar gyflawni	8	46	21	17	4	4
Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru fel cyfangorff yn cael ei rheoli'n dda	2	32	33	18	5	10
At ei gilydd, mae gwahanol adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio'n dda gyda'i gilydd	1	16	23	29	18	13
Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n annog cyrff cyhoeddus i gystadlu â'i gilydd er mwyn eu hysgogi i wella	2	23	28	22	5	20
Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gadael i fy sefydliad i benderfynu beth yw'r ffordd orau i gyflwyno ar lefel leol	7	37	20	19	6	11
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i'm sefydliad ganolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol yn hytrach na rhai lleol	8	35	22	23	3	9

Sail: Pawb sydd wedi bod mewn cysylltiad yn ystod y 12 mis blaenorol (1,092)

3.18 Ni ellir gwneud llawer o gymariaethau ag arolwg 2008 gan fod y rhan fwyaf o'r datganiadau yn nhabl 3.5 wedi cael eu hychwanegu at yr holiadur am y tro cyntaf yn 2010. Serch hynny, ar gyfer tri datganiad lle *mae* modd gwneud cymhariaeth – ‘pell ac amherthnasol’, ‘amharod i arloesi’ a ‘chanolbwyntio ar gyflawni’ – ymddengys bod y farn wedi aros yr un fath i raddau helaeth dros y blynyddoedd, er bod lleihad bychan yng nghyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno bod swyddogion yn bell ac yn amherthnasol (o 19 y cant i 13 y cant).

3.19 Ar gyfer pob un o'r datganiadau yn nhabl 3.5, roedd yr ymatebion yn amrywio gan ddibynnu pa rai o feysydd Llywodraeth y Cynulliad roedd yr ymatebwyr wedi bod mewn cysylltiad â hwy amlaf. Wedi dweud hynny, nid oedd *patrwm* ymateb clir ar gyfer yr holl ddatganiadau, ac mae hynny'n awgrymu nad oes yr un o feysydd Llywodraeth y Cynulliad yn perfformio'n arbennig o dda nac yn arbennig o wael yn gyson yng nghyswllt yr agweddau hynny ar ymgysylltu y rhoddwyd sylw iddynt yn y

cwestiwn hwn yn yr arolwg. Ceir dadansoddiad llawn o'r canlyniadau yn ôl meysydd Llywodraeth y Cynulliad yn Atodiad E.

Edrych ar weithio cydgysylltiedig

3.20 Gan mai ychydig o'r rhanddeiliaid oedd yn teimlo bod gwahanol rannau o Lywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, edrychwyd ar y mater yn weddol fanwl yn y cyfweiliadau ansoddol dilynol. Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn cymryd rhan ddisgrifio'r mathau o broblemau roeddent wedi eu cael yng nghyswllt gweithio cydgysylltiedig a sut roedd y problemau hyn wedi effeithio ar eu sefydliad. Gofynnwyd iddynt hefyd ystyried sut y gallai Llywodraeth y Cynulliad wella'i threfniadau gweithio cydgysylltiedig yn y dyfodol.

3.21 Dywedodd y rhai a gymerodd ran dro ar ôl tro fod "meddylfryd seilo" ymhlith swyddogion, a bod hynny'n atal gweithio effeithiol ac yn cyfyngu ar effeithiolrwydd Llywodraeth y Cynulliad. Roedd syniad bod adrannau – a rhannau o adrannau – ddim yn cyfathrebu digon ar faterion a oedd o ddiddordeb i'r naill a'r llall ac, o ganlyniad, eu bod yn datblygu strategaethau anghyson, yn methu ag adnabod cysylltiadau pwysig rhwng meysydd polisi ac yn dyblygu gwaith ei gilydd.

Pan fydda i'n mynd i mewn i siarad â rhywun rydw i'n ei adnabod am faes gwaith, bron iawn na ddywedwn i mod i'n rhoi gwybodaeth iddyn nhw am bobl sy'n eistedd drws nesaf atyn nhw, sy'n ymwneud â'r un gwaith ... rydw i'n siarad yn llythrennol am bobl sy'n eistedd wrth yr un clwstwr o ddesgiau, a heb fod yn siarad â phobl eraill sydd wrth yr un clwstwr o ddesgiau am ddarn o waith maen nhw'n ei wneud ar y cyd.

Sefydliad iechyd/GIG

3.22 Rhoddwyd enghreifftiau amrywiol o weithio cydgysylltiedig gwael ar sail profiad y rhai a gymerodd ran o ymgysylltu â swyddogion ym meysydd Llywodraeth y Cynulliad. Er enghraifft, teimlai rhai o'r ymatebwyr fod gwahanol rannau o Lywodraeth y Cynulliad fel pe bai ganddynt syniadau gwahanol ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau Byrddau Gwasanaethau Lleol, a gallai hynny amharu ar effeithiolrwydd y Byrddau. Cyfeiriodd eraill at ddiffyg gweithio cydgysylltiedig rhwng yr hen Gyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad a'u rhiant adrannau yn Llywodraeth y Cynulliad – roedd teimlad nad oedd rhai o'r Cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad wedi eu cymathu'n llawn o fewn Llywodraeth y Cynulliad eto ac nad ydynt bob amser fel pe

baent yn 'canu'r un dôn' â gweddill y sefydliad. Roedd cyfeiriadau hefyd at ddiffyg gweithio cydgysylltiedig rhwng gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Yn fwy penodol, teimlai rhai y gellid gwneud mwy ar lefel strategol i sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu hintegreiddio yn y pwynt cyflenwi, yn enwedig gan fod gwasanaethau iechyd yn cael eu cyflenwi drwy'r GIG tra mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael eu cyflenwi drwy lywodraeth leol.

Mae'n ymddangos bod teimladau cymysg iawn, iawn yn dod o Lywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd o ran sut maent yn gweld Byrddau Gwasanaeth Lleol a beth fydd eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y dyfodol.

Y trydydd sector

Un o'r prif feysydd hyn yw iechyd a gofal cymdeithasol, lle mae gennych chi'r adran iechyd, a llywodraeth leol yn ymdrin â gofal cymdeithasol. Ond os ydych chi'n edrych ar bethau o safbwynt y dinesydd, y cyfan y mae arno ef ei eisiau yw gofal. Dydy e ddim yn gwahaniaethu rhwng y bwrdd iechyd lleol yn darparu rhywbeth neu'r awdurdod lleol yn darparu gofal cymdeithasol, mae e'n ei weld fel gwasanaeth di-dor ac eto, yn aml iawn, mae'n ddatgymalog ...

Y trydydd sector

3.23 Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr beth yn eu barn hwy oedd y prif ffactorau a oedd yn atal gwaith cydgysylltiedig, yr ateb mwyaf cyffredin oedd bod swyddogion braidd yn "amddiffynnol" o'u meysydd gwaith perthynol ac, o ganlyniad, yn gyndyn iawn o ildio unrhyw bwerau neu reolaeth i rannau eraill o Lywodraeth y Cynulliad. Roedd teimlad cyffredinol y bydd yn anodd gwneud cynnydd onid yw hyn yn newid.

Yr hyn rydyn ni'n ei gael yw llawer o nodweddion sbardun personoliaeth ... ond personoliaethau sydd naill ai'n amddiffynnol neu sydd â'r gallu [i] adeiladu ymerodraeth.

Sefydliad iechyd/GIG

3.24 Teimlid bod gweithio cydgysylltiedig gwael yn cael effaith fawr ar randdeiliaid. Dywedodd rhai rhanddeiliaid fod eu sefydliad wedi colli cyfle i gael arian gwerthfawr neu i gyflwyno tendrau gan nad oedd rhan arbennig o Lywodraeth y Cynulliad yn gwybod bod eu sefydliad hwy'n bodoli, er ei fod wedi sefydlu perthynas waith dda â rhannau eraill. Disgrifiodd rhai adegau pan oeddent wedi cael negeseuon gwrthgyferbyniol gan swyddogion mewn gwahanol rannau o Lywodraeth y Cynulliad

ynglŷn â sut y dylent fod yn ymwneud â menter neu ddarn arbennig o waith a bod hyn wedi gwneud iddynt deimlo eu bod wedi eu “rhwygo”, a’i fod hefyd wedi atal cynnydd. Dywedodd ychydig o’r ymatebwyr eu bod yn teimlo, gan eu bod yn gwybod nad yw adrannau’n cyfathrebu, eu bod hwy’n “gwneud y gwaith rhedeg i gyd” ac yn gwneud cysylltiadau polisi priodol eu hunain a all olygu cysylltu â mwy nag un swyddog ynglŷn â’r un mater. Pwysleisiodd rhanddeiliaid sy’n cynrychioli sefydliadau bach yn fwyaf arbennig fod y broses hon yn gallu bod yn drwm iawn ar adnoddau.

3.25 Er bod llawer o’r rhanddeiliaid yn teimlo nad oedd llawer o dystiolaeth i awgrymu y byddai gweithio cydgysylltiedig yn Llywodraeth y Cynulliad yn gwella yn y dyfodol agos, roedd lleiafrif arwyddocaol yn fwy optimistaidd, ac yn nodi bod y sefydliad “yn symud i’r cyfeiriad cywir”. Cafwyd cyfeiriad at yr ad-drefnu diweddar i greu meysydd Cyfarwyddwyr Cyffredinol ac ymdrechion eraill ar ran y Llywodraeth i “symud oddi wrth adrannau un pwnc”. Cyfeiriodd ambell un o’r ymatebwyr at enghreifftiau mwy penodol o fentrau sydd wedi helpu i wella gweithio cydgysylltiedig mewn meysydd polisi arbennig. Er enghraifft, cyfeiriodd un person at y Strategaeth Drafnidiaeth Genedlaethol gan ddweud bod y strategaeth wedi rhoi “pwrpas cyffredin” i swyddogion y mae eu gwaith yn gysylltiedig â’r maes hwn. Enghraifft arall y cyfeiriwyd ati oedd y newidiadau diweddar yn nhrefniadaeth APADGOS y teimlid eu bod wedi arwain at fwy o gydlyniaeth ym maes polisi sy’n ymwneud â phlant a phobl ifanc.

Mae newidiadau wedi eu gwneud gyda phlant a phobl ifanc. Erbyn hyn mae mwy o weithio cydgysylltiedig, [a] dull gweithredu cymharol ddi-dor o ddim i 25.

Y trydydd sector

3.26 Teimlid mai’r allwedd i welliant parhaus ym maes gweithio cydgysylltiedig oedd cael swyddogion i gydnabod “eu bod yn gweithio fel rhan o dîm” a chyflawni eu gwaith yn unol â hynny. Awgrymodd ambell un o’r ymatebwyr hefyd y dylai Llywodraeth y Cynulliad edrych ar arferion a gweithdrefnau presennol y sefydliad er mwyn nodi arferion da ym maes gweithio cydgysylltiedig, a allai fod yn sail i ddysgu ar y cyd.

Ffactorau llwyddiant critigol

3.27 Fel yn yr arolygon blaenorol, cyflwynwyd rhestr o ‘ffactorau llwyddiant critigol’ yn ymwneud ag ymgysylltu â rhanddeiliaid i’r rhanddeiliaid, a gofynnwyd iddynt osod y ffactorau hyn yn nhrefn eu pwysigrwydd ac asesu perfformiad Llywodraeth y Cynulliad ym mhob un hefyd. Gofynnwyd i’r ymatebwyr ateb ar sail eu profiad o weithio gyda swyddogion yn un o feysydd Llywodraeth y Cynulliad. Gofynnwyd i’r rhai hynny a oedd wedi bod mewn cysylltiad â mwy nag un maes ddewis un o’r meysydd hyn i siarad amdano. Os nad oedd un maes arbennig yn apelio atynt, dewiswyd maes ar hap iddynt. Rhoddwyd cyfle i bob ymatebydd a oedd wedi bod mewn cysylltiad â mwy nag un o feysydd Llywodraeth y Cynulliad ailadrodd y cwestiynau ar gyfer y meysydd hynny. Dewisodd cyfanswm o 20 ymatebydd ailadrodd y cwestiynau ar gyfer mwy nag un maes.

3.28 Er bod data wedi eu casglu ar lefel meysydd Llywodraeth y Cynulliad, nid yw’r canfyddiadau’n cael eu hadrodd yn ôl maes at ei gilydd gan fod y samplau’n fach. Yn lle hynny, mae’r canfyddiadau sy’n seiliedig ar feysydd wedi eu crynhoi i ddarparu canlyniadau ar lefel gorfforaethol. Wedi dweud hynny, cyfeirir at wahaniaethau rhwng meysydd lle mae maint y samplau’n caniatáu a darperir dadansoddiad llawn o’r canlyniadau yn ôl maes yn Atodiad F.

Pwysigrwydd canfyddedig ffactorau llwyddiant critigol

3.29 Er bod bron y cyfan o’r ymatebwyr yn ystyried pob un o’r ffactorau llwyddiant yn bwysig, roedd *graddau* pwysigrwydd pob un yn amrywio rhywfaint.

3.30 Y ffactorau oedd yn cael eu hystyried fel y rhai pwysicaf oedd: ‘Maen nhw’n darparu gwybodaeth fanwl gywir a dibynadwy’ (dywedodd 88 y cant bod hyn yn hanfodol neu’n bwysig iawn), ‘Maen nhw’n gofyn am farn y sefydliad rwy’n rhan ohono cyn gwneud penderfyniadau sy’n effeithio arnom’ (82 y cant), ‘Maen nhw’n ymrwymedig i roi sylw i faterion sy’n effeithio ar ardaloedd yng Nghymru sydd y tu allan i Gaerdydd’ (78 y cant), ‘Maen nhw’n rhannu gwybodaeth yn agored’ (79 y cant) ac ‘Maen nhw’n ymgysylltu’n rhagweithiol â rhanddeiliaid’ (77 y cant).

3.31 Yn y cyfamser, roedd llai o bwysigrwydd yn cael ei roi i’r canlynol: ‘Maen nhw’n fy nhrin i â pharch’ (68 y cant), ‘Maen nhw’n gosod y dinesydd wrth galon y

penderfyniadau a wneir ganddynt' (67 y cant), ac 'Maen nhw'n ymateb o fewn terfynau amser sy'n gyfleus i mi' (67 y cant).

Tabl 3.6: Pwysigrwydd canfyddedig ffactorau llwyddiant critigol

	Hanfodol	Pwysig iawn	Pwysig	Ddim yn bwysig	Ddim yn gwybod
	%	%	%	%	%
Maen nhw'n darparu gwybodaeth fanwl gywir a dibynadwy	58	30	12	*	*
Maen nhw'n gofyn am farn y sefydliad rwy'n rhan ohono cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnom	50	32	15	2	2
Maen nhw'n ymrwymedig (committed) i roi sylw i faterion sy'n effeithio ar ardaloedd yng Nghymru sydd y tu allan i Gaerdydd	48	30	14	4	4
Maen nhw'n ddiduedd wrth ddelio â sefydliadau	43	32	22	2	2
Maen nhw'n rhannu gwybodaeth yn agored	42	36	20	1	1
Maen nhw'n ymgysylltu'n rhagweithiol â rhanddeiliaid	41	36	20	1	1
Maen nhw'n gosod y dinesydd wrth galon y penderfyniadau a wneir ganddynt	39	29	24	4	4
Maen nhw'n ymroddedig i welliant parhaus	38	33	25	2	2
Maen nhw'n egluro pwy sy'n atebol am ganlyniadau	37	34	24	2	2
Maen nhw'n rhoi gwybodaeth i mi sy'n hawdd ei deall	37	37	25	1	*
Maen nhw'n deall y sefydliad rwyf yn rhan ohono	37	35	25	2	1
Maen nhw'n fy nhrin i â pharch	36	32	30	2	*
Maen nhw'n ymateb o fewn terfynau amser sy'n gyfleus i mi	29	39	30	2	*

Sail: Pawb a atebodd ynglŷn ag unrhyw un o feysydd Llywodraeth y Cynulliad (1,103)

3.32 Cyflwynwyd y rhan fwyaf o'r ffactorau llwyddiant a restrir uchod i'r arolwg am y tro cyntaf yn 2010, a dim ond pump a gariwyd ymlaen o holiadur 2008. Y pump hyn yw: 'Maen nhw'n darparu gwybodaeth fanwl gywir a dibynadwy', 'Maen nhw'n ddiduedd wrth ddelio â sefydliadau', 'Maen nhw'n rhannu gwybodaeth yn agored', 'Maen nhw'n ymroddedig i welliant parhaus' ac 'Maen nhw'n egluro pwy sy'n atebol am ganlyniadau'. Mae canlyniadau 2010 ar gyfer y ffactorau hyn yn gyson ar y cyfan â'r rhai a gofnodwyd yn 2008.

Perfformiad yng nghyswllt y ffactorau llwyddiant critigol

3.33 Mae tabl 3.7 yn dangos sut mae perfformiad Llywodraeth y Cynulliad yn cael ei weld yng nghyswllt y ffactorau llwyddiant critigol. Y ffactorau hynny lle'r oedd Llywodraeth y Cynulliad yn cael ei gweld yn cyflawni'n gymharol dda (h.y. lle dywedodd cyfran uchel o'r ymatebwyr fod swyddogion bob amser neu yn aml yn arddangos y ffactorau hyn) oedd:

- 'Maen nhw'n fy nhrin i â pharch' (dywedodd 87 y cant bod hyn yn digwydd bob amser neu yn aml)
- 'Maen nhw'n darparu gwybodaeth fanwl gywir a dibynadwy' (66 y cant)
- 'Maen nhw'n ymrwymedig (committed) i roi sylw i faterion sy'n effeithio ar ardaloedd yng Nghymru sydd y tu allan i Gaerdydd' (64 y cant)
- 'Maen nhw'n rhoi gwybodaeth i mi sy'n hawdd ei deall' (64 y cant)
- 'Maen nhw'n ddiuedd wrth ddelio â sefydliadau' (63 y cant)
- 'Maen nhw'n ymroddedig i welliant parhaus' (63 y cant).

3.34 Fodd bynnag, mae'r gyfran o'r rhanddeiliaid sy'n rhoi'r ymateb mwyaf cadarnhaol - h.y. 'bob amser' – yn gyson isel. Mae'r ffigur hwn oddeutu'r chwarter neu lai ar gyfer pob un o'r ffactorau, ar wahân i 'Maen nhw'n fy nhrin i â pharch'. Er na ddylai hyn dynnu oddi wrth asesiad cadarnhaol rhanddeiliaid ar y cyfan o'r ffactorau hyn, mae'n dangos bod lle i wella ac mae'n darparu sail ar gyfer pennu targedau i olrhain cynnydd.

3.35 Yn gyson â chanfyddiadau yr adroddwyd amdanynt yn ffigur 3.2, y ffactorau llwyddiant lle'r oedd Llywodraeth y Cynulliad i'w gweld yn cyflawni'n gymharol wael (h.y. lle dywedodd cyfran gymharol uchel o'r ymatebwyr bod swyddogion yn arddangos y ffactorau hyn yn anaml neu byth) oedd:

- 'Maen nhw'n gofyn am farn y sefydliad rwy'n rhan ohono cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnom' (dywedodd 16 y cant o'r rhanddeiliaid mai 'yn anaml' y mae hyn yn digwydd neu nad yw 'byth' yn digwydd)
- 'Maen nhw'n ymateb o fewn terfynau amser sy'n gyfleus i mi' (15 y cant)
- 'Maen nhw'n egluro pwy sy'n atebol am ganlyniadau' (12 y cant)
- 'Maen nhw'n deall y sefydliad rwyf yn rhan ohono' (10 y cant).

Tabl 3.7: Perfformiad canfyddedig yng nghyswllt ffactorau llwyddiant critigol

	Bob amser	Yn aml	Weithiau	Yn anaml	Byth	Udim yn gwybod
	%	%	%	%	%	%
Maen nhw'n fy nhrin i â pharch	57	29	10	1	*	1
Maen nhw'n ymrwymedig i roi sylw i faterion sy'n effeithio ar ardaloedd yng Nghymru sydd y tu allan i Gaerdydd	28	37	21	3	*	12
Maen nhw'n ddiuedd wrth ddelio â sefydliadau	27	36	22	4	1	11
Maen nhw'n darparu gwybodaeth fanwl gywir a dibynadwy	25	41	28	4	*	2
Maen nhw'n ymroddedig i welliant parhaus	25	37	21	4	*	12
Maen nhw'n egluro pwy sy'n atebol am ganlyniadau	20	31	31	9	2	6
Maen nhw'n rhoi gwybodaeth i mi sy'n hawdd ei deall	20	44	30	4	1	1
Maen nhw'n rhannu gwybodaeth yn agored	17	37	33	8	1	3
Maen nhw'n ymgysylltu'n rhagweithiol â rhanddeiliaid	17	39	31	7	1	5
Maen nhw'n deall y sefydliad rwyf yn rhan ohono	17	34	35	9	1	4
Maen nhw'n gofyn am farn y sefydliad rwy'n rhan ohono cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnom	15	29	37	12	4	4
Maen nhw'n gosod y dinesydd wrth galon y penderfyniadau a wneir ganddynt	15	32	29	6	1	16
Maen nhw'n ymateb o fewn terfynau amser sy'n gyfleus i mi	15	34	34	13	2	2

Sail: Pawb a atebodd ynglŷn ag unrhyw un o feysydd Llywodraeth y Cynulliad (1,103)

3.36 Mae tabl 3.8 yn dangos patrymau yn y modd y mae perfformiad Llywodraeth y Cynulliad yng nghyswllt y pum ffactor llwyddiant a oedd wedi eu cynnwys yn arolygon 2008 a 2010 yn cael ei weld. Ar gyfer dau o'r ffactorau – 'Maen nhw'n darparu gwybodaeth fanwl gywir a dibynadwy', ac 'Maen nhw'n rhannu gwybodaeth yn agored' – ymddengys bod canfyddiadau wedi gwella er 2008. Ar gyfer y tri ffactor arall – 'Maen nhw'n egluro pwy sy'n atebol am ganlyniadau', 'Maen nhw'n ymroddedig i welliant parhaus' ac 'Maen nhw'n ddiuedd wrth ddelio â sefydliadau' – mae'r canlyniadau wedi aros yn sefydlog.

Tabl 3.8: Perfformiad canfyddedig yng nghyswllt ffactorau llwyddiant critigol – patrymau

	2006: Bob amser/yn aml	2008: Bob amser/yn aml	2010: Bob amser/yn aml
	%	%	%
Maen nhw'n darparu gwybodaeth fanwl gywir a dibynadwy	60	61	66
Maen nhw'n ddiuedd wrth ddelio â sefydliadau	63	61	63
Maen nhw'n ymroddedig i welliant parhaus	n/a	59	63
Maen nhw'n rhannu gwybodaeth yn agored	44	46	55
Maen nhw'n egluro pwy sy'n atebol am ganlyniadau	51	50	51

Sail: Pawb a atebodd ynglŷn ag unrhyw un o feysydd Llywodraeth y Cynulliad (2006:1,039; 2008:1,121; 2010:1,103)

Perfformiad yng nghyswllt y ffactorau llwyddiant critigol – gwahaniaethau yn ôl meysydd Llywodraeth y Cynulliad

3.37 O edrych ar ganlyniadau 2010 yn ôl meysydd Llywodraeth y Cynulliad, cafwyd yr asesiad mwyaf cadarnhaol gan randdeiliaid a ddewisodd ymateb ynglŷn â'r Adran Dreftadaeth, gyda chyfran uwch na'r cyfartaledd o'r grŵp hwn yn dweud bod swyddogion bob amser neu yn aml: yn darparu gwybodaeth fanwl gywir a dibynadwy, yn darparu gwybodaeth hawdd ei deall, yn ymateb o fewn terfynau amser cyfleus ac yn gofyn beth yw barn sefydliadau cyn gwneud penderfyniadau yn eu cylch (gweler tabl 3.9).

Tabl 3.9: Perfformiad canfyddedig yng nghyswllt ffactorau llwyddiant critigol – canlyniadau ar gyfer y rhai hynny a ddewisodd ymateb ynglŷn â'r Adran Dreftadaeth o gymharu â'r canlyniadau cyffredinol

	Treftadaeth: Bob amser/yn aml	Cyffredinol: Bob amser/yn aml
	%	%
Maen nhw'n darparu gwybodaeth fanwl gywir a dibynadwy	80	66
Maen nhw'n rhoi gwybodaeth i mi sy'n hawdd ei deall	78	64
Maen nhw'n ymateb o fewn terfynau amser sy'n gyfleus i mi	62	49
Maen nhw'n gofyn am farn y sefydliad rwy'n rhan ohono cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnom	55	44
<i>Sail</i>	65	1,103

3.38 Mewn gwrthgyferbyniad, dywedodd cyfran gyson *is* na'r cyfartaledd o'r rhanddeiliaid a ddewisodd ymateb ynglŷn â maes Cyfarwyddwr Cyffredinol Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau fod swyddogion bob amser neu yn aml: yn rhannu gwybodaeth yn agored, yn darparu gwybodaeth fanwl gywir a dibynadwy, yn

darparu gwybodaeth hawdd ei deall, yn ymateb o fewn terfynau amser sy'n gyfleus iddynt hwy ac yn deall eu sefydliad (gweler tabl 3.10).

Tabl 3.10: Perfformiad canfyddedig yng nghyswllt ffactorau llwyddiant critigol – canlyniadau ar gyfer y rhai hynny a ddewisodd ymateb ynglŷn â maes Cyfarwyddwr Cyffredinol Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau o gymharu â'r canlyniadau cyffredinol

	Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau: Bob amser/yn aml	Cyffredinol: Bob amser/yn aml
	%	%
Maen nhw'n rhannu gwybodaeth yn agored	51	55
Maen nhw'n darparu gwybodaeth fanwl gywir a dibynadwy	58	66
Maen nhw'n rhoi gwybodaeth i mi sy'n hawdd ei deall	57	64
Maen nhw'n ymateb o fewn terfynau amser sy'n gyfleus i mi	35	49
Maen nhw'n deall y sefydliad rwyf yn rhan ohono	45	51
<i>Sail</i>	<i>271</i>	<i>1,103</i>

3.39 Yn yr un modd, dywedodd cyfrannau is na'r cyfartaledd o'r rhanddeiliaid a ddewisodd ymateb ynglŷn â'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod swyddogion yn rhannu gwybodaeth yn agored, yn delio â sefydliadau yn ddiuedd, wedi ymrwymo i roi sylw i'r mathau o faterion sy'n effeithio ar ardaloedd y tu allan i Gaerdydd ac yn deall eu sefydliad bob amser neu yn aml (gweler tabl 3.11).

Tabl 3.11: Perfformiad canfyddedig yng nghyswllt ffactorau llwyddiant critigol – canlyniadau ar gyfer y rhai hynny a ddewisodd ymateb ynglŷn â'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o gymharu â'r canlyniadau cyffredinol

	Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Bob amser/yn aml	Cyffredinol: Bob amser/yn aml
	%	%
Maen nhw'n rhannu gwybodaeth yn agored	47	55
Maen nhw'n ddiuedd wrth ddelio â sefydliadau	51	63
Maen nhw'n ymrwymedig i roi sylw i faterion sy'n effeithio ar ardaloedd yng Nghymru sydd y tu allan i Gaerdydd	55	64
Maen nhw'n deall y sefydliad rwyf yn rhan ohono	45	51
<i>Sail</i>	<i>173</i>	<i>1,103</i>

3.40 O gymharu â'r ymatebwyr yn gyffredinol, dywedodd cyfran is o'r rhanddeiliaid a ymatebodd ynglŷn ag Adran yr Economi a Thrafnidiaeth bod swyddogion wedi ymrwymo i sicrhau gwelliant parhaus, yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rhagweithiol ac

yn gofyn beth yw eu barn cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt bob amser neu yn aml (gweler tabl 3.12). Ceir dadansoddiad manwl o ganfyddiadau'r ffactorau llwyddiant yn ôl meysydd Llywodraeth y Cynulliad yn Atodiad F.

Tabl 3.12: Perfformiad canfyddedig yng nghyswllt ffactorau llwyddiant critigol – canlyniadau ar gyfer y rhai hynny a ddewisodd ymateb ynglŷn ag Adran yr Economi a Thrafnidiaeth o gymharu â'r canlyniadau cyffredinol

	Yr Economi a Thrafnidiaeth: Bob amser/yn aml	Cyffredinol: Bob amser/yn aml
	%	%
Maen nhw'n ymroddedig i welliant parhaus	49	63
Maen nhw'n ymgysylltu'n rhagweithiol â rhanddeiliaid	46	56
Maen nhw'n gofyn am farn y sefydliad rwy'n rhan ohono cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnom	30	44
<i>Sail</i>	<i>147</i>	<i>1,103</i>

Perfformiad yng nghyswllt y ffactorau llwyddiant critigol – gwahaniaethau yn ôl mathau o sefydliadau

3.41 Gan adlewyrchu eu lefel bodlonrwydd is â'r modd yr ymgysylltir â rhanddeiliaid, cafwyd asesiadau llai cadarnhaol at ei gilydd yng nghyswllt y ffactorau llwyddiant gan ymatebwyr a oedd yn cynrychioli sefydliadau academaidd na'u cymheiriaid mewn mathau eraill o sefydliadau. Dywedodd cyfran is na'r cyfartaledd o'r grŵp hwn fod swyddogion bob amser neu yn aml: yn darparu gwybodaeth fanwl gywir a dibynadwy, yn darparu gwybodaeth hawdd ei deall, yn ymateb o fewn terfynau amser cyfleus, yn deall eu sefydliad ac yn gofyn beth yw barn y sefydliad cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arno (gweler tabl 3.13).

Tabl 3.13: Perfformiad canfyddedig yng nghyswllt ffactorau llwyddiant critigol – canlyniadau ar gyfer y rhai hynny sy'n cynrychioli sefydliadau academiaidd o gymharu â'r canlyniadau cyffredinol

	Rhanddeiliaid sy'n cynrychioli sefydliadau academiaidd: Bob amser/yn aml	Cyffredinol: Bob amser/yn aml
	%	%
Maen nhw'n darparu gwybodaeth fanwl gywir a dibynadwy	53	66
Maen nhw'n rhoi gwybodaeth i mi sy'n hawdd ei deall	55	64
Maen nhw'n ymateb o fewn terfynau amser sy'n gyfleus i mi	36	49
Maen nhw'n deall y sefydliad rwyf yn rhan ohono	35	51
Maen nhw'n gofyn am farn y sefydliad rwy'n rhan ohono cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnom	34	44
<i>Sail</i>	146	1,103

3.42 Dywedodd cyfran is na'r cyfartaledd o randdeiliaid a oedd yn cynrychioli sefydliadau'r trydydd sector fod swyddogion yn ymdrin â sefydliadau yn ddiudedd (53 y cant o gymharu â 63 y cant) a'u bod wedi ymrwymo i sicrhau gwelliant parhaus (53 y cant o gymharu â 63 y cant) bob amser neu yn aml.

Perfformiad yng nghyswllt y ffactorau llwyddiant critigol – gwahaniaethau yn ôl ardaloedd y cynllun gofodol

3.43 Nifer cymharol fach o wahaniaethau rhanbarthol a welwyd yng nghanlyniadau'r ffactorau llwyddiant, er bod cyfran uwch na'r cyfartaledd o randdeiliaid yng Nghanol Cymru a Bae Abertawe wedi dweud bod swyddogion wedi ymrwymo i sicrhau gwelliant parhaus bob amser neu yn aml (75 y cant a 76 y cant o gymharu â 63 y cant), a dywedodd cyfran uwch na'r cyfartaledd o'r rhai hynny yn y De-ddwyrain fod swyddogion wedi ymrwymo i roi sylw i'r mathau o faterion sy'n effeithio ar ardaloedd y tu allan i Gaerdydd bob amser neu yn aml (72 y cant o gymharu â 64 y cant).

3.44 Roedd y cyfweiliadau ansoddol yn gyfle i edrych yn fanwl ar brofiad rhanddeiliaid yng nghyswllt ffactorau llwyddiant lle mae Llywodraeth y Cynulliad yn cael ei gweld yn perfformio'n gymharol wael.

Gofyn beth yw barn sefydliadau cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt

3.45 Mynegwyd nifer o wahanol safbwyntiau gan y rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil ansoddol ynglŷn â dull Llywodraeth y Cynulliad o ymgynghori â sefydliadau sy'n rhanddeiliaid. O'r safbwyntiau mwy negyddol, cyfeiriodd ambell un o'r ymatebwyr at adegau pan na ymgynghorwyd â hwy ynglŷn â datblygiadau polisi allweddol a oedd yn effeithio ar eu sectorau, ac at y rhwystredigaeth a ddatblygodd yn sgil hynny. Ymhlith yr ymatebwyr hyn, roedd teimlad y byddai gwybodaeth ac arbenigedd sefydliadau sy'n rhanddeiliaid wedi bod o fudd i'r swyddogion a oedd yn llunio'r polisiau hyn. Roedd nifer o'r ymatebwyr hefyd yn teimlo y dylid cael mwy o gyfleoedd i ymgysylltu â rhanddeiliaid *yn gynharach* yn y broses, cyn i'r dogfennau ymgynghori gael eu hysgrifennu. Roedd yr ymatebwyr hyn yn teimlo, yn y rhan fwyaf o achosion, bod cyfeiriad cyffredinol polisi wedi ei bennu'n barod mewn dogfennau ymgynghori, sy'n golygu mai ychydig o gyfle y mae rhanddeiliaid yn ei gael i ddylanwadu ar hyn.

Dydy'r Cynulliad Cenedlaethol ddim wedi cysylltu â ni o gwbl, fel grŵp o benaethiaid ysgolion uwchradd. Byddwn i'n tybio y byddai'n briodol, os yw Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ceisio cyflawni cynlluniau neu gyfarwyddiadau, ac y byddai'n fuddiol iddynt siarad â chriw o benaethiaid mewn gwahanol ranbarthau.

Sefydliad academaidd/Ysgol

Rydyn ni wedi bod yn gweinyddu cynllun grant yma ers chwe neu saith blynedd erbyn hyn [ac] roedden ni'n gwybod ei fod yn mynd i gael ei adolygu. Mae'r Cynulliad wedi ei adolygu erbyn hyn ac mae gwerth y cyllid sydd wedi cael ei ddyrannu wedi ei gwtogi ar gyfer y flwyddyn nesaf ac ... maen nhw wedi ei ailddosbarthu drwy Gymru gyfan mewn ffordd wahanol. Dydyn nhw ddim wedi ymgynghori â rhanddeiliaid lleol er mwyn canfod beth fyddai'r egwyddor orau, beth fyddai'r [ffordd] orau o ailddosbarthu adnodd[au] prin.

Y trydydd sector

Yn hytrach na'n cynnwys ni yn y broses o lunio polisi drwy ymgynghori ar y diwedd, byddwn [...] gweld ymagwedd fwy rhagweithiol a chydgyssylltiedig at bolisi – lle mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ar y dechrau yn hytrach na dogfen rydych chi'n ei llunio ar y diwedd, dull mwy cynhwysol o lunio polisi.

Y trydydd sector

3.46 Teimlai rhai ymatebwyr nad oedd Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori ag ystod ddigon eang o sefydliadau am feysydd penodol. Er enghraifft, teimlai un

ymatebydd fod swyddogion yn tueddu i gymryd yn ganiataol bod safbwyntiau'r gymuned fusnes yn ei chyfanrwydd yn cael eu cynrychioli gan y grwpiau lobïo mawr, sydd wedi sefydlu eu hunain yn well, fel Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI) a Sefydliad y Cyfarwyddwyr (IoD). Roedd hyn yn ei dro'n arwain at ymdeimlad bod ymgynghori â busnesau wedi ei gyfyngu i'r sefydliadau hyn.

Mae'r CBI yn grŵp lobïo â barn bendant a pherswâd gwleidyddol amlwg a gwelwyd nifer o enghreifftiau lle mae ymgynghori â busnesau wedi golygu'r CBI neu'r IoD. Dydy hynny ddim yn mynd i lawr yn dda iawn gyda'r gymuned fusnes ... ehangach ac mae'n beth rhwystredig iawn.

Y trydydd sector

3.47 Holwyd yr ymatebwyr ynglŷn â'r ffactorau sydd wrth wraidd methiant ymddangosiadol swyddogion Llywodraeth y Cynulliad i ymgynghori'n briodol â rhanddeiliaid. Ymhlith y rhai hynny a oedd yn gallu cynnig barn, cafwyd cyfeiriadau at agwedd "ni sy'n gwybod orau" ymhlith rhai swyddogion.

Ymddengys bod rhyw syniad eu bod nhw'n gwybod beth maen nhw'n ei wneud ac nad ydyn nhw ddim angen dim help gan neb arall ... Mae yna dipyn o draha yn gysylltiedig â rhai o brif feysydd y gwasanaeth sifil yng Nghymru. Ac ystyried cyn lleied o brofiad sydd ganddynt byddai'n werth iddynt ymarfer mwy o wyleidd-dra.

Y trydydd sector

3.48 Mater arall a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr ymchwil ansoddol oedd yr amser a roddid i randdeiliaid ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth y Cynulliad. Dywedodd ambell un o'r ymatebwyr fod y cyfnodau ymgynghori'n rhy fyr weithiau. Ymddengys bod hyn yn anhawster, yn enwedig i ymatebwyr o sefydliadau llai a nododd nad oedd gan eu sefydliad hwy ddigon o staff bob amser i helpu i lunio ymateb i ymgynghoriad o fewn yr amseroedd penodedig.

3.49 Er gwaetha'r canfyddiadau hyn, cafwyd sylwadau cadarnhaol iawn gan nifer o'r rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil ansoddol ynglŷn â'r graddau yr oedd Llywodraeth y Cynulliad yn gofyn am eu barn. Rhoddodd yr ymatebwyr hyn enghreifftiau o adegau pan roddwyd cyfle iddynt ddylanwadu ar gyfeiriad polisi ar adeg gynharach yn y broses, cyn ymgynghoriad. Rhoddodd rhai hefyd enghreifftiau o adegau pan oedd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi mynd ati'n benodol i ofyn i sefydliadau a

oedd yn rhanddeiliaid am eu profiadau a'u barn am feysydd penodol ac wedi defnyddio'r rhain i lunio cynigion ar gyfer polisi mewn dogfennau ymgynghori.

Cawsom drafodaethau cyn yr ymgynghoriad ffurfiol, felly cawsom gyfle i fynegi ein barn yn gynnar ynglŷn â phwyntiau o egwyddor cyn iddynt gael eu gwneud yn rhan o'r broses ymgynghori ffurfiol ... Fydden ni ddim yn disgwyl iddyn nhw wrando a chytuno ar bopeth rydyn ni'n ei ddweud ... ond roedden ni'n fodlon ein bod wedi cael gwrandawriad teg. Cawsom gyfarfodydd ar ôl hynny i egluro pwyntiau ac mae'n deg dweud bod rhai o'r pwyntiau wedi cael eu derbyn, ac eraill heb gael eu derbyn, ond rwy'n credu ein bod yn ddigon aeddfed i ddeall sut mae prosesau gwleidyddol yn gweithio [a'n bod] yn un o nifer o ymgynghoreion ...

Y sector preifat

Yn aml iawn, cyn iddynt bennu'r canllawiau a mynd ymlaen i ymgynghori'n ffurfiol, maent yn dod atom ac yn dweud "dyma beth rydyn ni'n mynd i'w wneud ac oes gennych chi unrhyw farn". [Mae hyn] wedyn yn mynd ymlaen yn y bôn i'w ... trafodaethau mewnol hwy, ...ac rwy'n meddwl bod hynny'n reit dda.

Y sector cyhoeddus

3.50 Mae'r sylwadau cadarnhaol hyn yn dangos yn glir pa fath o ymgynghori y mae rhanddeiliaid yn ei werthfawrogi ac, o ganlyniad, maent yn dystiolaeth sylfaenol bwysig er mwyn cyflwyno gwelliannau yn y dyfodol.

Ymateb o fewn terfynau amser cyfleus

3.51 Gan droi at fater y terfynau amser y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymateb o'u mewn, roedd sylwadau'r ymatebwyr yn ymwneud â dwy brif thema: faint o amser y mae'n ei gymryd i swyddogion gydnabod llythyrau, negeseuon ebost a gohebiaeth arall; ac oedi cyn gweithredu polisiâu a mentrau pwysig.

3.52 O ran y thema gyntaf, cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr at adegau pan oeddent wedi cyflwyno ymholiadau, ceisiadau am gyllid, tendrau neu ymatebion i ymgynghoriad i swyddogion ond heb gael prin ddim yn ôl am rai misoedd, neu flynyddoedd mewn un achos. Nodasant fod hyn yn beth rhwystredig iawn, a'i fod yn aml yn achosi problemau ymarferol sylweddol iddynt hefyd, er enghraifft, methu â chynllunio ymlaen llaw neu wneud cynnydd â mentrau neu brosiectau penodol.

Cyn y gallem fynd â [y datblygiad] hwnnw i'r cyhoedd o ran ymgynghori, roedd arnom angen llythyr i gadarnhau bod yr arian yn ei le, oherwydd allwn ni ddim ymgynghori â'r cyhoedd nes ein bod yn siŵr bod yr arian ar gael. Roedd hwnnw'n ddyddiad terfynol pwysig iawn o'n rhan ni, ond, mi gymerodd hi rhwng Tachwedd a Chwefror inni gael llythyr gan y Cynulliad yn cadarnhau mewn gwirionedd bod arian yn ei le.

Llywodraeth leol

Rwy'n dal i aros am ymatebion i rai pethau wnaethon ni eu trafod flwyddyn neu ddwy yn ôl ac a gafodd eu gadael yn benagored ac mae'n debyg gan nad ydyn ni'n flaenoriaeth uchel i'r unigolion dan sylw, ond mae'n beth rhwystredig iawn pan ydych chi yn y pen arall yn disgwyl am ganlyniadau, felly mae rhai pethau yn tueddu i eistedd am gyfnod maith.

Y trydydd sector

3.53 Roedd teimlad nad hyd yr oedi fel y cyfryw a oedd yn achosi'r rhwystredigaeth fwyaf i randdeiliaid bob amser ond, yn hytrach, fethiant swyddogion i ddarparu ymatebion cynnal priodol yn y cyfamser. Dro ar ôl tro dywedodd ymatebwyr y dylai pob gohebiaeth a anfonir ganddynt i Lywodraeth y Cynulliad gael ei hateb ag ebost neu lythyr cydnabod cychwynnol yn cynnwys rhyw syniad pa bryd y maent yn debygol o gael ymateb.

Gall fynd i dwll mawr du a dydych chi ddim yn cael ymateb o unrhyw fath ac mae hynny'n digwydd yn aml. Fel rheol rwy'n ffonio pennaeth yr adran ac yn dweud: "mae rhywbeth yn dal pethau'n ôl, beth sy'n digwydd?" Mae'n beth rhwystredig iawn ac mae'n ymddangos nad oes neb yn meddwl am anfon ebost at randdeiliaid allanol. Dydyn nhw ddim hyd yn oed yn ddigon cwrtais i ddweud "rydyn ni wedi cael eich ebost, mae'n cael sylw, down yn ôl atoch ymhen 48 awr" neu beth bynnag, sy'n beth arferol i'w wneud mewn busnes, ac rwy'n credu y byddai hynny'n ddefnyddiol iawn. Mae dim ymateb yn rhoi'r argraff o draha sydd ddim yn wir mae'n debyg ond dyna'r argraff rydych yn ei gael os nad yw rhywun yn barod i fynd i'r drafferth i anfon ebost i ddweud diolch am dynnu'n sylw at hyn neu beth bynnag, mae'n gwneud i chi deimlo eich bod yn ymdrin â thwll mawr du.

Y trydydd sector

'[dylai swyddogion] rhoi y darlun i gyd, chi'n gwybod, "bydde ni'n hala'r wybodaeth hyn yn y cyfnod hyn, bydde ni moyn eich barn chi yn y cyfnod hyn erbyn y dyddiad hyn, fe gewch chi, *sort of overview* yn y cyfnod hyn, a wedyn bydde ni moyn eich barn chi ar yr *overview* erbyn hyn, a wedyn fe gewch chi'r ddogfen, chi'n gwybod, yn ei chyfanrwydd erbyn hyn." Fel bod chi'n gallu gweld reit o'r cychwyn cyntaf, *ok*, 'na faint yw e i fi aros nes bod fi'n cael clywed ganddyn nhw, a bydd gwaith 'da fi i wneud fan hyn a fan hyn, ond bydd pethau'n digwydd yn y cyfamser

Llywodraeth leol

3.54 O ran oedi yn ymwneud â gweithredu polisi a mentrau, dywedodd ychydig o'r rhai a gymerodd ran fod gwneud penderfyniadau, yn enwedig mewn perthynas â chyllid, yn aml yn araf iawn a gall hyn arwain at golli momentwm ac yn y pen draw gall gael effaith andwyol ar gyflawni gwasanaethau neu brosiectau pwysig. Trafodwyd y mater hwn hefyd mewn termau mwy cyffredinol, a chyfeiriodd rhai ymatebwyr at oedi rhwng cyhoeddiadau cychwynnol gan weinidogion a'r newid ei hun yn digwydd "yn y maes".

Mae rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf yn dod i ben ar 31 Mawrth a chyflwynwyd y ceisiadau [i Lywodraeth y Cynulliad] ym mis Tachwedd y llynedd ond maen nhw'n dal i edrych ar brosiectau er mwyn penderfynu ydyn nhw'n mynd i'w hariannu nhw neu beidio.

Llywodraeth leol

Os yw e'n ymwneud â ffrwd ariannu er enghraifft, weithiau mae oedi sylweddol rhwng cyhoeddiad gan weinidog a sut mae hynny wedyn yn cael ei roi yn y system ... mae datganiad cyhoeddus wedi ei wneud am rywbeth ond mewn gwirionedd dydy [Llywodraeth y Cynulliad] ddim wedi cael popeth yn ei le er mwyn i rywun allu mynd allan o ddifrif a gwneud rhywbeth.

Y trydydd sector

3.55 Roedd y rhai a gymerodd ran yn priodoli'r cynnydd araf hwn i nifer o wahanol ffactorau. Awgrymodd un person mai'r rheswm oedd bod swyddogion yn aml yn gorfod cael dogfennau wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg neu'n gorfod "mynd drwy sianeli cyfreithiol", sydd ill dau'n gallu cymryd llawer o amser. Teimlai person arall fod problem darparu adnoddau yn Llywodraeth y Cynulliad neu o leiaf bod "yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu cymhwysu'n wael".

Dealltwriaeth swyddogion o sefydliadau rhanddeiliaid

3.56 O ran dealltwriaeth Llywodraeth y Cynulliad o sefydliad y rhanddeiliad, tueddai'r rhai a gymerodd ran i ailadrodd y farn, a drafodwyd yn y bennod flaenorol, nad yw swyddogion yn ddigon rhagweithiol wrth geisio nodi'r ystod o sefydliadau i ymgysylltu â hwy. Ar ben hynny, teimlid bod tueddiad ymhlith swyddogion i 'homogeneiddio' mathau penodol o sefydliadau, gan gam-dybio, er enghraifft, bod

gan bob ysgol neu bob awdurdod lleol neu bob elusen iechyd yr un anghenion a'u bod yn wynebu'r un heriau.

3.57 Yn gysylltiedig â hyn awgrymwyd dro ar ôl tro nad yw swyddogion yn sylweddoli bod sefydliadau gwledig yn wynebu heriau penodol. Teimlid bod hyn yn amlwg yn nhermau polisi a hefyd o ran dull cyffredinol swyddogion o ymgysylltu â'r sefydliadau hyn – dywedodd nifer bychan o'r rhai o Ogledd Cymru a gymerodd ran nad yw swyddogion, wrth drefnu cyfarfodydd, bob amser yn rhoi digon o ystyriaeth i amser siwrneiau, a oes cludiant cyhoeddus ar gael, ac yn y blaen.

Dydw i ddim yn siŵr ydyn nhw'n deall yn iawn beth yn union rydyn ni'n ei wneud. Mae sylwadau eithafol yn cael eu gwneud nad ydych chi'n adlewyrchu eich ysgol ... rwy'n gwybod nad ydyn nhw'n deall yn iawn beth rydyn ni'n ei wneud na pha fath o ysgol sydd gennym ni a pha fath o broblemau rydyn ni'n eu hwynebu.

Y sector cyhoeddus

Does ganddyn nhw fawr o ddealltwriaeth o logisteg go iawn amser teithio i fyfyrwyr ddod, gan ein bod ni mewn ardal wledig gan mwyaf ... Mae'r fformiwla ariannu felly, sy'n sail i'r system gynllunio wedi ei chynllunio'n bennaf ar gyfer ardal drefol at ei gilydd â dwysedd poblogaeth uchel.

Sefydliad academaidd

3.58 Yn y pen draw, y farn a fynegwyd amlaf oedd bod swyddogion wedi colli cysylltiad â'r byd y tu allan i'w swyddfeydd yng Nghaerdydd ac nad ydyn nhw'n gwneud yr ymdrech angenrheidiol i dreulio amser gyda sefydliadau rhanddeiliaid i ddatblygu ymwybyddiaeth wirioneddol o'r hyn y maent yn ei wneud o ddydd i ddydd ac o'r cyd-destun y maent yn gweithio ynddo. Awgrymwyd gan fwy nag un y dylai secondiadau neu ymweliadau maes fod yn elfen fwy creiddiol o ddull swyddogion o ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn iddynt fod mewn gwell sefyllfa i ddatblygu a gweithredu polisiâu a strategaethau effeithiol.

Wel rwy'n credu bod angen ymwneud llawer mwy â'r awdurdodau lleol. ... Pe bai yna system lle byddent yn gallu cael eu hanfon ar secondiad atom ni a chael golwg ar rai o'r problemau ymarferol wrth geisio cyflawni yn y maes, rwy'n credu y bydden nhw mewn llawer gwell sefyllfa ...

Llywodraeth leol

Gallwch chi siarad faint fynnwch chi amdano fe dros y ffôn, ond pan fyddwch chi'n dod allan rydych chi'n gallu gweld y ffaith nad oes unrhyw

fuddsoddiad wedi bod yn un o'n hysbytai ers blynyddoedd lawer, rydych chi'n gallu deall wedyn pam rydym ni'n gweiddi ynghylch y ffaith ein bod yn cael buddsoddiad yn yr ardal honno.

GIG/Sefydliad iechyd

3.59 Gan gadarnhau'r sylwadau hyn, roedd y lleiafrif o'r ymatebwyr a siaradodd mewn termau cadarnhaol am ddealltwriaeth Llywodraeth y Cynulliad o'u sefydliad yn priodoli hyn i'r ffaith fod swyddogion *wedi* ymweld â hwy, naill ai drwy wahoddiad neu o'u hewyllys eu hunain.

Fe wnaethon ni eu gwahodd i sesiynau ymgynefino er mwyn iddynt ddod i adnabod y busnes a dod i adnabod y bobl; fe wnaethon ni ddod i'w hadnabod nhw, felly rwy'n credu bod hynny wedi hwyluso'r broses yn eithaf da.

Y sector preifat

Dyheadau ar gyfer ymgysylltu yn y dyfodol

3.60 Gofynnwyd i'r rhanddeiliaid a fyddent yn hoffi cael mwy, llai neu tua'r un faint o gysylltiad â swyddogion yn y maes neu'r meysydd hynny y dewisasant ymateb yn eu cylch. Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (53 y cant) yn fodlon â hynny o gysylltiad yr oeddent yn ei gael ar hyn o bryd, tra dywedodd 44 y cant y byddent yn hoffi cael mwy o gysylltiad. Dim ond dau y cant ddywedodd y byddent yn hoffi cael llai.

3.61 Dywedodd cyfran uwch na'r cyfartaledd o'r rhanddeiliaid a ddewisodd siarad am swyddogion ym maes Cyfarwyddwr Cyffredinol Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau y byddent yn hoffi cael mwy o gysylltiad yn y dyfodol (52 y cant, o gymharu â 44 y cant yn gyffredinol). Ychydig iawn o wahaniaethau amlwg eraill oedd i'w gweld rhwng is-grwpiau yn y canlyniadau.


3.62 Gofynnwyd i'r rhanddeiliaid hefyd ystyried (yn ddigymell) sut y gallai swyddogion yn y maes neu'r meysydd hynny y dewisasant siarad amdanynt wella'u dull o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y dyfodol. Cafwyd ystod eang iawn o ymatebion ac ni chafodd un gwelliant penodol ei grybwyll gan fwy nag un o bob deg ymatebydd. Serch hynny, yn gyson â'r canfyddiadau yr adroddwyd amdanynt drwy gydol y bennod hon, yr ymatebion mwyaf cyffredin oedd y dylai swyddogion:

- ddatblygu gwell dealltwriaeth o sefydliadau sy'n rhanddeiliaid (cyfeiriwyd at hyn gan 10 y cant)
- sefydlu mwy o gysylltiad wyneb yn wyneb â'r sefydliadau hynny (8 y cant)
- sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf (7 y cant)
- cymryd camau i wella trefniadau gweithio cydgysylltiedig yn Llywodraeth y Cynulliad (6 y cant).

3.63 Dywedodd un o bob pum ymatebydd (20 y cant) eu bod o'r farn nad oedd angen *unrhyw welliannau i'r ffordd yr oedd swyddogion yn ymgysylltu â rhanddeiliaid* (ffigur 3.3).

Ffigur 3.3: Blaenoriaethau ar gyfer gwella'r modd yr ymgysylltir â rhanddeiliaid – y 10 prif ymateb

C. Sut, os o gwbl, rydych yn meddwl y gallai swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru wella'r ffordd y maent yn gweithio gyda sefydliadau eraill ac yn eu cynnwys?



Sail: *Pawb a atebodd am unrhyw un o feysydd Llywodraeth Cynulliad Cymru (1,103)*

4 YR YSGOGWYR BODLONRWYDD ALLWEDDOL

4.1 Mae'r bennod hon yn nodi'r ffactorau allweddol sy'n ysgogi bodlonrwydd ymhlith rhanddeiliaid â'u hymgysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ac yn mynd ymlaen wedyn i edrych ar yr effaith gymharol y mae pob ysgogydd yn ei gael ar fodlonrwydd a pha mor dda y mae rhanddeiliaid yn gweld perfformiad swyddogion yng nghyswllt yr ysgogwyr allweddol hyn. Mae'n gorffen drwy nodi meysydd penodol y gallai Llywodraeth y Cynulliad eu gwella er mwyn gwella profiad rhanddeiliaid o ymgysylltu â swyddogion.

Nodi ysgogwyr bodlonrwydd â'r modd yr ymgysylltir â rhanddeiliaid

4.2 Er mwyn nodi'r prif ffactorau sy'n ysgogi bodlonrwydd â'r modd yr ymgysylltir â rhanddeiliaid defnyddiwyd dwy dechneg ystadegol, sef, dadansoddi ffactorau ac atchweliad. Defnyddiwyd y dechneg gyntaf, dadansoddi ffactorau, i edrych a oedd unrhyw ffyrdd ystyrlon o grwpio data'r arolwg yn nifer llai o ffactorau craidd. Mae'r math hwn o ddadansoddiad yn ddefnyddiol iawn ar gyfer eitemau mewn arolygon lle mae'n debygol y bydd cydberthynas agos rhyngddynt h.y. mewn achosion lle mae ymatebwyr sy'n rhoi ateb penodol i un eitem yn yr arolwg yn debygol o roi ateb penodol i eitem arall yn yr arolwg. Yn yr astudiaeth hon, nodwyd yr eitemau yn yr arolwg a gynlluniwyd er mwyn edrych ar farn rhanddeiliaid am nodweddion penodol swyddogion (gweler tabl 3.5) ac 13 ffactor llwyddiant critigol (gweler tabl 3.7) fel eitemau a allai fod â chydberthynas agos rhyngddynt. O ganlyniad, defnyddiwyd dadansoddiad o ffactorau i edrych a ellid cwtogi'r eitemau hyn yn yr arolwg yn nifer llai o grwpiau ystyrlon.

4.3 Dewiswyd saith ffactor o'r dadansoddiad ac enwyd y rhain fel a ganlyn: 'ymatebol ac effeithlon', 'gweithio gyda Chymru', 'rheolaeth a chyflawniad strategol', 'gwerthfawrogi perthynas', 'agored a hygyrch', 'ffocws cenedlaethol yn hytrach na lleol' ac 'annog cystadleuaeth rhwng cyrff cyhoeddus'. Mae tabl 4.1 drosodd yn cynnwys manylion yr eitemau yn yr arolwg sy'n cyfrannu fwyaf at bob ffactor.⁹

⁹ Ceir manylion llawn am ganlyniad y dadansoddiad o'r ffactorau yn Atodiad G.

Tabl 4.1: Ffactorau a ddewiswyd

Ffactor	Eitemau yn yr arolwg sy'n cyfrannu at y ffactor
Ymatebol ac effeithlon	Maen nhw'n rhoi gwybodaeth i mi sy'n hawdd ei deall Maen nhw'n darparu gwybodaeth fanwl gywir a dibynadwy Maen nhw'n ymateb o fewn terfynau amser sy'n gyfleus i mi Maen nhw'n rhannu gwybodaeth yn agored Maen nhw'n egluro pwy sy'n atebol am ganlyniadau Maen nhw'n deall y sefydliad rwyf yn rhan ohono Maen nhw'n ymgysylltu'n rhagweithiol â rhanddeiliaid
Gweithio gyda Chymru	Maen nhw'n ymrwymedig (committed) i roi sylw i faterion sy'n effeithio ar ardaloedd yng Nghymru sydd y tu allan i Gaerdydd Maen nhw'n gosod y dinesydd wrth galon y penderfyniadau a wneir ganddynt Maen nhw'n gofyn am farn y sefydliad rwy'n rhan ohono cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnom
Rheolaeth a chyflawniad strategol	At ei gilydd, mae gwahanol adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio'n dda gyda'i gilydd Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru fel cyfangorff yn cael ei rheoli'n dda Mae'r swyddogion yn canolbwyntio ar gyflawni Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gadael i fy sefydliad i benderfynu beth yw'r ffordd orau i gyflwyno ar lefel leol
Gwerthfawrogi perthynas	Maen nhw'n fy nhrin i â pharch Maen nhw'n ymroddedig i welliant parhaus Maen nhw'n ddiduedd wrth ddelio â sefydliadau
Agored a hygyrch	Mae'r swyddogion yn bell ac yn amhersonol Mae'r swyddogion yn amharod i arloesi
Ffocws cenedlaethol yn hytrach na lleol	Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i'm sefydliad ganolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol yn hytrach na rhai lleol
Annog cystadleuaeth rhwng cyrff cyhoeddus	Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n annog cyrff cyhoeddus i gystadlu â'i gilydd er mwyn eu hysgogi i wella
66.8% o'r amrywiant wedi ei egluro - 21 o newidynnau wedi eu hychwanegu, colli 14 ffactor	

4.4 Er mwyn nodi ysgogwyr bodlonrwydd, defnyddiwyd y saith ffactor hyn wedyn fel newidynnau annibynnol mewn model atchweliad. Y newidyn dibynnol oedd bodlonrwydd cyffredinol â'r ffordd y mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda sefydliadau rhanddeiliaid. Yn gyson â'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd yn 2008, cafodd nifer o eitemau eraill yn yr arolwg a allai hefyd gael dylanwad ar fodlonrwydd ag ymgysylltiad eu bwydo i mewn i'r model atchweliad er mwyn penderfynu a oeddent yn ysgogwyr bodlonrwydd. Roedd yr eitemau ychwanegol yn yr


arolwg a gafodd eu bwydo i mewn i'r model yn cynnwys: ardal cynllun gofodol, dulliau a ddefnyddiwyd i ryngweithio â swyddogion, pa mor rhwydd yw cael gwybodaeth gan swyddogion a barn ynglŷn â gwelliannau i drefniadau ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.¹⁰

4.5 Nododd y model atchweliad 13 ysgogydd bodlonrwydd ag ymgysylltiad sy'n bwysig o safbwynt ystadegol ac mae'r rhain i'w gweld yn ffigur 4.1 ynghyd â'r effaith gymharol y mae pob un yn ei gael ar fodlonrwydd. Dosbarthwyd yr ysgogwyr a nodwyd i ddau grŵp – 'gweithredol' ac 'anweithredol'. Roedd y grŵp 'gweithredol' yn cynnwys ysgogwyr a allai gael eu dylanwadu'n uniongyrchol gan Lywodraeth y Cynulliad ac a allai felly wella bodlonrwydd cyffredinol rhanddeiliaid ag ymgysylltiad. Fel y gwelir o ffigur 4.1, 'agored a hygyrch' oedd yn cael yr effaith fwyaf ar fodlonrwydd, ac roedd yn cael ei ddilyn gan 'reolaeth a chyflawniad strategol', 'ymatebol ac effeithlon' a 'gwerthfawrogi perthynas'. Nodwyd 'gweithio gyda Chymru', 'gwelliannau canfyddedig mewn ymgysylltu dros gyfnod', 'pa mor rhwydd yw cael gwybodaeth gan swyddogion' ac 'annog cystadleuaeth rhwng cyrff cyhoeddus' hefyd fel ysgogwyr bodlonrwydd allweddol er bod effaith yr ysgogwyr hyn yn gymharol fychan. Nodwyd 'ffocws cenedlaethol yn hytrach na lleol' fel ysgogydd bodlonrwydd *negyddol* h.y. mae teimlad bod gan swyddogion ffocws cenedlaethol yn hytrach na lleol yn arwain at lefelau bodlonrwydd is.

4.6 Roedd y grŵp 'anweithredol' yn cynnwys ysgogwyr sy'n ymwneud â gwybodaeth ddemograffig benodol am rhanddeiliaid neu agweddau penodol ar y ffordd y mae rhanddeiliaid yn ymgysylltu â swyddogion. Maent yn 'anweithredol' gan nad oes llawer y gall Llywodraeth y Cynulliad ei wneud i newid neu wella perfformiad, gyda'r bwriad o wella bodlonrwydd rhanddeiliaid. Roedd ysgogwyr yn y grŵp 'anweithredol' yn cynnwys ardal cynllun gofodol Hafan Sir Benfro, negeseuon ebost wedi eu personoli a gwefannau eraill. Nodwyd cynadleddau neu ddigwyddiadau hefyd fel ysgogydd *negyddol* yng nghyswllt bodlonrwydd â'r modd yr ymgysylltir â rhanddeiliaid.

¹⁰ Mae manylion yr eitemau o'r arolwg a gafodd eu bwydo i mewn i'r model atchweliad i'w gweld yn Atodiad G.

Ffigur 4.1: Ysgogwyr bodlonrwydd allweddol ac effaith ar fodlonrwydd



52% o'r bodlonrwydd wedi ei egluro gan y model


4.7 Mae ffigur 4.2 yn dangos perfformiad swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yng nghyswllt yr ysgogwyr bodlonrwydd allweddol gweithredol fel yr adroddwyd amdanynt gan yr ymatebwyr. Yn y rhan fwyaf o achosion, y 'sgôr' perfformiad sy'n cael ei dangos yw cyfran y rhanddeiliaid a ymatebodd yn *gadarnhaol* i'r eitemau perthnasol

o'r arolwg.¹¹ Felly, er enghraifft, y sgôr perfformiad ar gyfer 'pa mor rhwydd yw cael gwybodaeth gan swyddogion' yw cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn teimlo ei bod yn rhwydd iawn neu'n weddol rwydd cael gwybodaeth gan swyddogion. Yn achos eitemau yn yr arolwg a oedd wedi eu geirio'n negyddol, er enghraifft 'ffocws cenedlaethol yn hytrach na lleol', y sgôr perfformiad yw'r gyfran o'r ymatebwyr a ddywedodd fod swyddogion yn arddangos y nodwedd hon *yn anaml* neu *byth*.

4.8 Fel y dengys ffigur 4.2, daeth 'gwerthfawrogi perthynas' i'r amlwg fel yr ysgogydd gorau o safbwynt perfformiad â sgôr perfformiad o 77 y cant yn cael ei ddilyn gan 'pa mor rhwydd yw cael gwybodaeth gan swyddogion' â sgôr o 70 y cant. Cafodd yr ysgogwyr 'agored a hygyrch', 'ymatebol ac effeithlon' a 'gweithio gyda Chymru' sgorau cymharol uchel gan randdeiliaid hefyd (59 y cant, 58 y cant a 58 y cant yn y drefn honno). Roedd perfformiad yn waelach mewn cymhariaeth yng nghyswllt 'gwelliannau canfyddedig mewn ymgysylltu dros gyfnod' (33 y cant), 'annog cystadleuaeth rhwng cyrff cyhoeddus' (32 y cant) a 'ffocws cenedlaethol yn hytrach na lleol' (29 y cant).

¹¹ Ar gyfer ysgogwyr sy'n cynnwys mwy nag un eitem yn yr arolwg, daethpwyd â'r ymatebion cadarnhaol ar gyfer yr holl eitemau perthnasol o'r arolwg at ei gilydd a'u rhannu â nifer yr ymatebion dilys ar gyfer yr holl eitemau perthnasol.

Ffigur 4.2: Sylwadau am berfformiad swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yng nghyswllt yr ysgogwyr bodlonrwydd allweddol



Blaenoriaethau ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol

4.10 Mae ffigur 4.3 yn dangos effaith gymharol yr ysgogwyr ‘gweithredol’ ochr yn ochr â sgorau perfformiad. Prif fantais y dadansoddiad hwn yw bod modd gweld blaenoriaethau, yn sydyn iawn, ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol. Po uchaf yw ysgogydd allweddol ar y siart, po fwyaf cadarnhaol y mae rhanddeiliaid wedi ei ystyried a, pho fwyaf i’r dde y mae ysgogydd allweddol, po fwyaf yw’r effaith y mae’r ysgogydd hwn yn ei gael ar fodlonrwydd. Yn unol â’r dull a ddefnyddiwyd yn 2008, y sgôr meincnod a osodwyd ar gyfer perfformiad pob ysgogydd oedd 60 y cant. Yn unol â hynny, tynnwyd llinell lorweddol ar y sgôr meincnod gan rannu’r siart yn bedwar cwadrant.

4.11 **Blaenoriaethau ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol** (cwadrant isaf ar y dde) – mae’r cwadrant hwn yn cynnwys ysgogwyr a oedd yn cael yr effaith fwyaf ar fodlonrwydd ond, ar yr un pryd, a gafodd sgorau perfformiad is na’r sgôr meincnod o 60 y cant. Roedd tri o’r naw ysgogydd ‘gweithredol’ yn dod i’r cwadrant hwn, sef: ‘agored a hygyrch’, ‘rheolaeth a chyflawniad strategol’ ac ‘ymatebol ac effeithlon’.


Mae'r rhain felly yn feysydd i gael blaenoriaeth mewn unrhyw waith gwella yn y dyfodol mewn perthynas ag ymgysylltu â rhanddeiliaid.

4.12 **Cryfderau** (cwadrant uchaf ar y dde) – roedd yr ysgogydd 'gwerthfawrogi perthynas' yn dod i'r cwadrant hwn. Mae'r maes hwn yn gryfder gan fod yr ysgogydd hwn yn cael effaith gymharol sylweddol ar fodlonrwydd ac, ar yr un pryd, roedd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn cael eu gweld yn perfformio'n uwch na'r sgôr meincnod yn y maes hwn.

4.13 **Meysydd i'w monitro** (cwadrant isaf ar y chwith) – mae'r cwadrant hwn yn cynnwys ysgogwyr sy'n cael effaith gymharol fechan ar fodlonrwydd, ond lle'r oedd perfformiad canfyddedig swyddogion yn is na'r sgôr meincnod. Yr ysgogwyr a oedd yn dod i'r cwadrant hwn oedd: 'gweithio gyda Chymru', 'gwelliannau canfyddedig mewn ymgysylltu dros gyfnod', 'ffocws cenedlaethol yn hytrach na lleol' ac 'annog cystadleuaeth rhwng cyrff cyhoeddus'. Gan mai effaith gymharol fechan y maent yn ei gael ar fodlonrwydd, gellid ystyried y rhain fel ffocws eilaidd ar gyfer gwaith gwella yn y dyfodol.

4.14 **Cynnal a chefnogi** (cwadrant uchaf ar y chwith) – 'pa mor rhwydd yw cael gwybodaeth gan swyddogion' oedd yr unig ysgogydd yn y cwadrant hwn. Mae hwn yn faes a oedd unwaith eto'n cael effaith fechan ar fodlonrwydd ond lle'r oedd y sylwadau am berfformiad swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn uwch na'r sgôr meincnod. Yn y dyfodol, dylid cefnogi'r ysgogydd hwn er mwyn cynnal y sgorau perfformiad cadarnhaol.

Ffigur 4.3: Blaenoriaethau strategol – pwysigrwydd o gymharu â pherfformiad yng nghyswllt ysgogwyr allweddol ‘gweithredol’



4.15 Dadansoddwyd yr ysgogwyr allweddol hefyd yn y canlyniadau ar gyfer tri maes mwyaf Llywodraeth y Cynulliad, sef, Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, yr Economi a Thrafnidiaeth ac Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r canlyniadau ar gyfer pob un o'r meysydd hyn i'w gweld yn Atodiad H.

ATODIAD A. HOLIADUR YR AROLWG A CHANLLAW I'R TESTUNAU

Canllaw trafodaeth terfynol ar gyfer y cyfweiliadau cwmpasu

Cyflwyniad

- Cyflwyno eich hun, Ipsos MORI a'r ymchwil – h.y. Rydym wedi cael ein comisiynu i gynnal arolwg rhanddeiliaid 2010 Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Ionawr. Bydd yr arolwg yn canolbwyntio ar y ffordd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio gyda sefydliadau eraill ac yn eu cynnwys o ddydd i ddydd.
- Egluro pwrpas y cyfweiliadau cwmpasu h.y. fel sail i'r gwaith o gynllunio holiadur yr arolwg ac er mwyn sicrhau ei fod yn rhoi sylw i'r materion sy'n bwysig i rhanddeiliaid. Pwysleisio ein bod yn canolbwyntio ar y modd y mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio gyda rhanddeiliaid, *nid* ar berfformiad gweinidogion nac ar ganlyniadau polisi.
- Egluro na fydd y cyfweiliad yn cymryd mwy na 30 munud
- Pwysleisio cyfrinachedd a'r ffaith na ddatgelir enwau
- Gofyn am ganiatâd i recordio'r cyfweiliad

Cefndir

- Yn gyntaf, ac er mwyn helpu i roi eich sylwadau mewn cyd-destun, byddai'n fanteisiol pe gallech egluro'n fyr pa fath o gysylltiad y mae eich sefydliad yn ei gael fel arfer gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- OS NA CHYFEIRIWDYD AT HYNNY'N BAROD: Ac â pha faes neu feysydd polisi y mae'r rhan fwyaf o'ch cysylltiad yn gysylltiedig?

Barn am Lywodraeth Cynulliad Cymru

- Yn gyffredinol, sut fydddech chi'n disgrifio'r berthynas waith sydd gennych ar hyn o bryd â Llywodraeth Cynulliad Cymru?
 - HOLI AM BWYNTIAU CADARNHAOL A NEGYDDOL
 - HOLI AM FFACTORAU SY'N CYFRANNU AT BERTHYNAS WAITH EFFEITHIOL / LLAI EFFEITHIOL
- OS NAD YW EISOES YN GLIR O'R YMATEBION I'R CWESTIWN UCHOD: Beth yn eich barn chi fyddai nodweddion allweddol perthynas waith lwyddiannus neu effeithiol?
- A pha mor agos yw realiti eich profiad chi i'r ddefnydd hon?
- A sut rydych yn gweld eich perthynas waith â Llywodraeth y Cynulliad yn esblygu yn y dyfodol? Pam rydych yn dweud hyn?
 - HOLI AM NEWIDIADAU CADARNHAOL/NEGYDDOL
 - HOLI AM FFACTORAU SY'N DEBYGOL O GYFRANNU AT YMGYSYLLTIAD MWY EFFEITHIOL / LLAI EFFEITHIOL
- Sut fydddech chi'n *hoffi* gweld eich perthynas waith â Llywodraeth Cynulliad Cymru'n esblygu yn y dyfodol?
- Yn olaf, beth yn eich barn chi ddylai blaenoriaethau'r Cynulliad fod, o ran gwella'r ffordd y mae'n gweithio gyda sefydliadau eraill ac yn eu cynnwys?

Sylwadau cyn cloi

- Dyna'r holl brif gwestiynau yr oedd arnaf eisiau eu gofyn. Ar wahân i'r pethau rydym wedi eu trafod, oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill y bydddech chi'n hoffi eu gwneud?

Holiadur terfynol yr arolwg

CYFLWYNIAD/CYFRINACHEDD

Bore da/prynhawn da/noswaith dda. Fy enw i yw o Ipsos MORI, y sefydliad ymchwil, ac rydym yn cynnal arolwg ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r arolwg yn canolbwyntio ar sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio â sefydliadau eraill ac yn eu cynnwys yn ei gwaith. Rydych chi wedi cael eich enwi fel un o'i rhanddeiliaid (stakeholders). Efallai eich bod wedi cael neges e-bost neu lythyr am hyn yn barod. Bydd y cyfweiliad yn para 15 munud ar y mwyaf. Ydych chi'n fodlon cymryd rhan?

OS YW'N BAROD I GYMRYD RHAN, EWCH I CA, OS NAD YW'N BAROD I GYMRYD RHAN, EWCH I C1

CA Yn Gymraeg neu'n Saesneg yr hoffech barhau â'r cyfweiliad? UN COD

Saesneg	1
Cymraeg	2

AR GYFER Y RHAI SYDD AM BARHAU Â'R CYFWELIAD YN GYMRAEG YN CA (COD 2)
NEWIDIWCH I'R SGRIPT CYMRAEG. AR GYFER Y GWEDDILL, EWCH I'R RHAGARWEINIAD I C2

OS NAD YW'N BAROD I GYMRYD RHAN, COFNODWCH Y RHESWM. (DS GOFYNNWCH Y CWESTIWN DIM OND OS NAD YW'R RHESWM YN GLIR O'R ATEB CYNTAF). AR GYFER Y GWEDDILL EWCH I'R RHAGARWEINIAD I C2

C1. Beth yw eich rheswm dros beidio â chymryd rhan? MWY NAG UN COD YN IAWN

Yn rhy brysur	1
Gormod o arolygon gan Lywodraeth Cynulliad Cymru/ wedi cymryd rhan mewn gormod o arolygon gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn barod	2
Gormod o arolygon eraill/ wedi cymryd rhan mewn gormod o arolygon eraill yn barod	3
Gormod o amser yn cael ei dreulio yn gwneud pethau eraill i Lywodraeth Cynulliad Cymru	4
Nid wyf yn teimlo mai fi yw'r un priodol i gymryd rhan	5
Nid wyf yn teimlo bod gen i unrhyw beth / digon i'w ddweud	6
Ni fydd dim yn digwydd o ganlyniad i hyn/gwastraff amser	7
Arall (NODWCH)	8
Dim un o'r rhain	9
Ddim yn gwybod	10

DS: DYMA DDIWEDD YR HOLIADUR AR GYFER Y RHAI NAD YDYNT AM GYMRYD RHAN YN YR AROLWG

Hoffwn eich sicrhau y bydd yr holl wybodaeth yr ydym yn ei chasglu'n cael ei chadw'n gwbl gyfrinachol, ac yn cael ei defnyddio at ddibenion ymchwil yn unig. Ni fydd yn bosibl adnabod unrhyw unigolyn na sefydliad penodol yn y canlyniadau.

RHOI CYFARWYDDIADAU I'R RHAI SY'N CYFWELD YMA: RHAID DARLLEN Y PARAGRAFF SY'N DILYN YN UCHEL.

Sylwch bod y cwestiynau sy'n dilyn yn ymwneud â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru, nid gweinidogion. Dylid ateb y cwestiynau gan feddwl am ansawdd eich cysylltiad â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru ac nid am eich barn am bolisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

GOFYN I BAWB

**C2. A ydych wedi cael cyswllt â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y 12 mis diwethaf?
UN COD**

Ydw	1
Nac ydw	2

AR GYFER Y RHAI SYDD WEDI CAEL CYSWLLT Â LICC YN Y 12 MIS DIWETHAF YN C2 (COD 1) EWCH I'R RHAGARWEINIAD I C6. AR GYFER Y GWEDDILL, EWCH I C3

C3 Beth fydddech chi'n ei ddweud yw'r prif resymau nad ydych wedi cael cyswllt â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y 12 mis diwethaf? PEIDIWCH AG AWGRYMU DIM. MWY NAG UN COD YN IAWN

Heb fod angen cysylltu	1
Newydd ddechrau yn fy swydd/rôl	2
Cyfrifoldeb rywun arall yn y sefydliad	3
Nid yw penderfyniadau Llywodraeth Cynulliad Cymru'n effeithio ar fy ngwaith/gwaith fy sefydliad	4
Nid yw'r corff yn effeithiol/gwastraff amser	5
Mae'r corff yn rhy fiwrocraidaidd	6
Nid wyf yn gwybod pwy i gysylltu â nhw yn Llywodraeth Cynulliad Cymru	7
Nid wyf yn gwybod sut i gysylltu â Llywodraeth Cynulliad Cymru	8
Mae'r gweithdrefnau'n rhy gymhleth	9
Wedi ceisio ond heb gael ymateb	10
Rwyf fi/fy sefydliad yn gwrthwynebu Llywodraeth Cynulliad Cymru	11
Rhywbeth arall NODWCH	12
Ddim yn gwybod	13

C4

Rwy'n mynd i ddarllen rhai datganiadau am Lywodraeth Cynulliad Cymru ac rwyf am i chi ddweud wrthyf i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â phob gosodiad. **DARLLENWCH YN UCHEL a) – d). AMRYWIWCH EU TREFN. UN COD YN UNIG FESUL RHES.**

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod
a) Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fod yn fwy rhagweithiol (proactive) o ran ymgysylltu â fy sefydliad i	1	2	3	4	5	6
b) Nid yw penderfyniadau Llywodraeth Cynulliad Cymru'n effeithio ar fy ngwaith i	1	2	3	4	5	6
c) Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru'n deall y cyfyngiadau mae fy sefydliad yn eu hwynebu	1	2	3	4	5	6
d) Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu gwell cysylltiadau gyda sefydliadau y tu allan i Gaerdydd	1	2	3	4	5	6

GOFYN I BAWB

C5 **Yn eich barn chi, sut, os o gwbl, y gallai swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru wella'r ffyrdd y maent yn gweithio â chyrrff eraill ac yn eu cynnwys yn ei gwaith?**

YSGRIFENNWCH YR ATEBION	1
Ddim yn gwybod	2

GWYBODAETH AM Y SEFYDLIAD

OS MAI 'YDW' OEDD YR ATEB I C2 (COD 1): **I ddechrau, byddwn yn hoffi gofyn ychydig o gwestiynau i chi amdanoch chi'ch hun ac am y sefydliad rydych yn gweithio ynddo.**

OS MAI 'NAC YDW' OEDD YR ATEB I C2 (COD 2): **Rŵan, byddwn yn hoffi gofyn ychydig o gwestiynau i chi amdanoch chi'ch hun ac am y sefydliad rydych yn gweithio ynddo.**

GOFYN I BAWB

C6 **Beth yw eich swydd yn y sefydliad? UN COD**

Rheolwr(aig) Gyfarwyddwr/Prif Weithredwr(aig)/Prif Swyddog/Swyddog Gweithredol/Canghellor/ Cyfarwyddwr(aig)	1
Cadeirydd	2
Dirprwy Gyfarwyddwr(aig)/Gweithredwr(aig)	3
Pennaeth Adran/Gwasanaethau/Polisi	4
Uwch Reolwr(aig)/Uwch Swyddog/Uwch-gynghorydd	5
Rheolwr(aig)/Swyddog/Cynghorydd/ Gweithiwr(aig) Proffesiynol (e.e. ymgyngorydd, athro/athrawes, cyfreithiwr(aig))	6
Cydlynnydd	7
Gweinyddwr(aig)/Ysgrifennydd/Clerc	8
Hunangyflogedig	9
Arall (nodwch)	10
Gwrthod	11

C7 **Ers faint ydych chi wedi bod yn eich sefydliad? UN COD**

Llai na blwyddyn	1
Rhwng blwyddyn a thair blynedd	2
Rhwng tair a phum mlynedd	3
Mwy na phum mlynedd	4
Ddim yn gwybod/ddim yn cofio	5

C8 **I ba fath o sefydliad ydych chi'n gweithio? UN COD**

Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad	1
Awdurdod Lleol (Cyngor)	2
Corff Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)	3
Adran o Lywodraeth y DU	4
Un o Asiantaethau Llywodraeth y DU	5
Corff arall yn y sector cyhoeddus	6
Sefydliad academaidd	7
Partneriaeth rhwng y sector preifat/sector cyhoeddus	8
Grŵp Gwirfoddol/Trydydd sector/dielw	9
Grŵp budd/Corff cynrychioliadol/mudiad lobiö	10
Elusen gofrestrdedig	11
Cwmni/busnes yn y sector preifat	12
Fferm/sefydliad amaethyddol	13
Arall (NODWCH A RHOI COD ' ')	14
Ddim yn gwybod	15

OS MAI CORFF A NODDIR GAN LYWODRAETH Y CYNULLIAD A RODDWDYD FEL COD YN C8 (COD 1) A'U BOD WEDI BOD MEWN CYSYLLTIAD Â SWYDDOGION LICC YN Y 12 MIS DIWETHAF YN C2 (COD 1), DYLAIR GEIRIAU ISOD YMDDANGOS AR Y SGRÎN:

"Os felly, nid ydych yn gymwys i gymryd rhan yn yr arolwg. Er hynny, diolch i chi am roi o'ch amser." YNA, DIRWYN YR AROLWG I BEN

OS MAI CORFF A NODDIR GAN LYWODRAETH Y CYNULLIAD A RODDWDYD FEL COD YN C8 (COD 1) A'U BOD HEB BOD MEWN CYSYLLTIAD Â SWYDDOGION LICC YN Y 12 MIS DDIWETHAF YN C2 (COD 1), DYLAIR GEIRIAU ISOD YMDDANGOS AR Y SGRÎN:

"Dyna diwedd fy nghwestiynau. Diolch yn fawr am gymryd rhan yn yr arolwg." YNA DIRWYN YR AROLWG I BEN

AR GYFER Y GWEDDILL EWCH I C9

C9 **Beth yw cod post y swyddfa lle'r ydych yn gweithio? Os ydych chi'n gweithio mewn mwy nag un swyddfa, rhowch god post y swyddfa lle'r ydych yn gweithio y rhan fwyaf o'r amser.**

NODWCH	1
Ddim yn gwybod	2

C10 Yn eich barn chi, pa rai o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r berthynas rhwng eich sefydliad chi a Llywodraeth Cynulliad Cymru DARLLENWCH a) - i) YN UCHEL. MWY NAG UN COD YN IAWN

a)	Ymgyrchoedd/lobïo ar faterion penodol	1
b)	Mae'n darparu gwasanaethau ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru	2
c)	Mae'n cyflenwi gwasanaethau i Lywodraeth Cynulliad Cymru	3
d)	Mae'n darparu gwasanaethau'n annibynnol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru	4
e)	Mae'n darparu gwasanaethau mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru	5
f)	Rôl cyngori/ymgyngori ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru	6
g)	Rôl cyngori/ymgyngori i Lywodraeth Cynulliad Cymru	7
h)	Mae'n rhannu gwybodaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru	8
i)	Mae'n derbyn gwasanaethau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru	9
	Rhywbeth arall (NODWCH)	10
	Dim un o'r rhain	11
	Ddim yn gwybod	12

OS MAI AWDURDOD LLEOL NEU ADRAN O LYWODRAETH Y DU OEDD YR ATEB YN C8 (COD 2 NEU 4) DYLAIR SGRIP T CATI ROI'R COD '6' YN AWTOMATIG AR GYFER C11 A SYMUD I C12. AR GYFER Y GWEDDILL, GOFYNNWCH C11

C11 Faint o bobl y byddech chi'n ei ddweud a gyflogir gan eich sefydliad ar hyn o bryd? OS YW'R ATEBYDD YN ANSICR, GOFYNNWCH AM FFIGUR BRAS. UN COD

10 neu lai	1
11-20	2
21-50	3
51-100	4
101-500	5
501+	6
Ddim yn gwybod	7

OS MAI 'NAC YDW' OEDD YR ATEB I C2 (COD 2)

Dyna ddiwedd fy nghwestiynau. Diolch yn fawr iawn i chi am gymryd rhan yn yr arolwg. DOD Â'R AROLWG I BEN

OS MAI 'YDW' OEDD YR ATEB I C2 (COD 1) EWCH I C12

ARGRAFFIADAU CYFFREDINOL O SWYDDOGION LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

Byddwn yn hoffi gofyn ychydig o gwestiynau cyffredinol i chi nawr am y modd y mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio gyda chyrff eraill ac yn eu cynnwys yn ei gwaith.

C12 **Beth fydddech chi'n ei ddweud ydych chi'n ei hoffi fwyaf am weithio â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru.** PEIDIWCH AG AWGRYMU DIM. MWY NAG UN COD YN IAWN

Mae'n hawdd siarad â nhw/maen nhw'n gyfeillgar	1
Maen nhw'n ymroddedig (committed) i ddod o hyd i atebion/yn effeithiol yn dod o hyd i atebion	2
Maen nhw'n ymddwyn mewn modd proffesiynol	3
Maen nhw'n canolbwyntio ar gael canlyniadau	4
Mae'n hawdd cael gafael arnynt/cael cyswllt wyneb yn wyneb neu reolaidd â nhw	5
Maen nhw'n barod i wrando ar randdeiliaid/eu cynnwys mewn ffyrdd ystyrion	6
Maen nhw'n rhoi cyfle i randdeiliaid ddylanwadu ar bolisiâu	7
Maen nhw'n wybodus	8
Maen nhw'n rhoi arweiniad defnyddiol i randdeiliaid	9
Arall (nodwch)	10
Ddim yn gwybod	11

C13 **Beth fydddech chi'n ei ddweud ydych chi'n ei hoffi lleiaf am weithio â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru?** PEIDIWCH AG AWGRYMU DIM.

YSGRIFENNWCH YR ATEBION	1
Ddim yn gwybod	2

C14 **Yn y 12 mis diwethaf, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi wedi bod ar y modd y mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gweithio gyda sefydliadau eraill a'u cynnwys yn ei gwaith?** DARLLENWCH YN UCHEL. UN COD.

Bodlon iawn	1
Gweddol fodlon	2
Ddim yn fodlon nac yn anfodlon	3
Gweddol anfodlon	4
Anfodlon iawn	5
Ddim yn gwybod	6

- C15 Yn y 12 mis diwethaf, ydych chi'n credu bod y modd y mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gweithio gyda sefydliadau eraill a'u cynnwys yn ei gwaith, wedi gwella, wedi gwaethgu, neu heb newid? HOLWCH: Ydy hynny ychydig yn well/yn waeth neu yn well/yn waeth o lawer? UN COD

Gwell o lawer	1
Ychydig yn well	2
Dim newid	3
Ychydig yn waeth	4
Gwaeth o lawer	5
Ddim yn gwybod	6

- C16 Rydw i am ddarllen rhai datganiadau am y ffordd y mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio â rhanddeiliaid (stakeholders). Ar gyfer pob un ohonynt, allwch chi ddweud wrthyf i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno?
DARLLENWCH YN UCHEL a) – h). AMRYWIWCH EU TREFN. UN COD YN UNIG FESUL RHES

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod	Amherthnasol
a) Mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru'n bell ac yn amherthnasol	1	2	3	4	5	6	7
b) Mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru'n amharod i arloesi	1	2	3	4	5	6	7
c) Mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru'n canolbwyntio ar gyflwyno	1	2	3	4	5	6	7
d) Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru fel cyfangorff yn cael ei rheoli'n dda	1	2	3	4	5	6	7
e) At ei gilydd, mae gwahanol adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio'n dda gyda'i gilydd	1	2	3	4	5	6	7
f) Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n annog cyrff cyhoeddus i gystadlu â'i gilydd er mwyn eu hysgogi i wella	1	2	3	4	5	6	7
g) Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gadael i fy sefydliad i benderfynu beth yw'r ffordd orau i gyflwyno ar lefel leol	1	2	3	4	5	6	7
h) Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n disgwyl i fy sefydliad i ganolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol yn hytrach na blaenoriaethau lleol	1	2	3	4	5	6	7

GWEITHIO GYDA SWYDDOGION LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

Hoffwn eich holi'n awr am rai agweddau penodol ar weithio gyda swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru.

C17 **Beth yw'r prif ddulliau rydych yn eu defnyddio wrth ymwneud â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru? MWY NAG UN COD YN IAWN**

Cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb	1
Llythyrau	2
Cyfleoedd i gyflwyno adroddiadau/cynigion/ymatebion i ymgynghoriadau neu ddogfennau ysgrifenedig eraill	3
E-gylchlythyrau Llywodraeth Cynulliad Cymru	4
Negeseuon e-bost personol	5
Negeseuon e-bost eraill	6
Sgyrsiau dros y ffôn	7
Cynadleddau / digwyddiadau	8
Gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru	9
Arall (NODWCH A RHOI COD ' ')	10
Dim un o'r rhain	11
Ddim yn gwybod	12

C18 **A pha ddulliau fyddai orau gennych eu defnyddio wrth ymwneud â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru? MWY NAG UN COD YN IAWN**

Cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb	1
Llythyrau	2
Cyfleoedd i gyflwyno adroddiadau/cynigion/ymatebion i ymgynghoriadau neu ddogfennau ysgrifenedig eraill	3
E-gylchlythyrau Llywodraeth Cynulliad Cymru	4
Negeseuon e-bost personol	5
Negeseuon e-bost eraill	6
Sgyrsiau dros y ffôn	7
Cynadleddau / digwyddiadau	8
Gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru	9
Arall (NODWCH A RHOI COD ' ')	10
Dim un o'r rhain	11
Ddim yn gwybod	12

C19 **Yn fras, tua faint o swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru fyddech chi'n dweud ydych chi wedi cael cyswllt â nhw yn y 12 mis diwethaf? OS YW'R ATEBYDD YN ANSICR, GOFYNNWCH AM FFIGUR BRAS.**

YSGRIFENNWCH YR ATEB	1
Ddim yn gwybod	2

- C20 Pa mor rheolaidd ydych chi, yn bersonol, wedi bod mewn cysylltiad â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru fel cynrychiolydd eich sefydliad yn y 12 mis diwethaf? UN COD

Bob dydd	1
Bob wythnos	2
Bob mis	3
Tair i bedair gwaith yn y 12 mis diwethaf	4
Unwaith neu ddwy yn y 12 mis diwethaf	5
Ddim yn gwybod	6

- C21 Wrth ddelio â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru, pa rai o'r canlynol ydych chi wedi'u gwneud yn y 12 mis diwethaf fel cynrychiolydd eich sefydliad? DARLLENWCH YN UCHEL a) – d). MWY NAG UN COD YN IAWN NODER: RYDYM WEDI DILEU ARALL (NODWCH)

a)	Gofyn am wybodaeth, cyngor neu arweiniad	1
b)	Ymateb i ymgynghoriad	2
c)	Cymryd rhan mewn gweithgor/pwyllgor cynghori	3
d)	Gweithio mewn partneriaeth â swyddogion i lunio polisi	4
	Dim un o'r uchod	5
	Ddim yn gwybod	6

- C22 Yn gyffredinol, pa mor hawdd neu pa mor anodd ydyw i ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru? DARLLENWCH YN UCHEL. UN COD

Hawdd iawn	1
Gweddol hawdd	2
Gweddol anodd	3
Anodd iawn	4
Dim barn	5

- C25 Yn gyffredinol, pa mor hawdd neu pa mor anodd ydyw i gael gwybodaeth gan swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru? DARLLENWCH YN UCHEL. UN COD

Hawdd iawn	1
Gweddol hawdd	2
Gweddol anodd	3
Anodd iawn	4
Dim barn	5

- C26 Pe bai gennych ddewis, ym mha iaith fyddai orau gennych gyfathrebu â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru? UN COD

Saesneg	1
Cymraeg	2
Arall (Manylwch)	3

GOFYN I BAWB SY'N DWEUD CYMRAEG YN C24 (COD 2). AR GYFER Y GWEDDILL, EWCH I C26.

C25 **Pa mor aml ydych chi'n gallu defnyddio eich dewis iaith pan fyddwch yn cyfathrebu â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru?** DARLLENWCH YN UCHEL. UN COD

Bob amser	1
Yn aml	2
Weithiau	3
Yn anaml	4
Byth	5
Ddim yn gwybod	6

GOFYN I BAWB

C26 **Pa adran(nau) o Lywodraeth Cynulliad Cymru ydych chi wedi bod mewn cysylltiad â hi/nhw amlaf yn y 12 mis diwethaf?**

MWY NAG UN COD YN IAWN

Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau	1
Economi a Thrafnidiaeth	2
Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	3
Treftadaeth	4
Materion Gwledig	5
Cyllid	6
Adran y Prif Weinidog a'r Cabinet	7
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	8
Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd (AICPI)	9
Gwasanaethau Cyfreithiol	10
Pobl, Lleoedd a Gwasanaethau Corfforaethol	11
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad	12
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	13
Is-adran yr Ysgrifennydd Parhaol	14
Arall '1' (NODWCH)	15
Arall '2' (NODWCH)	16
Ddim yn gwybod	

AR GYFER Y RHAI SYDD WEDI DYNODI DDIM YN GWYBOD YN C26, EWCH I C35A

OS MAI DIM OND UN ADRAN A GRYBWYLLWYD YN C26, CODAU 1-14:

Mae'r cwestiynau nesaf yn canolbwyntio'n benodol ar eich profiad chi o fod mewn cysylltiad â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn [RHOWCH ENW'R ADRAN A DDYNODWYD YN C26]. YNA EWCH I C28

OS MAE COD 15 (ARALL) YN UNIG A DDEWISWYD YN C26

Mae'r cwestiynau nesaf yn canolbwyntio'n benodol ar eich profiad chi o'r swyddogion hynny rydych wedi bod mewn cysylltiad amlaf â hwy. YNA EWCH I C28

AR GYFER Y RHAI A GRYBWYLLLODD FWY NAG UN ADRAN, GOFYNNWCH C27

C27 **Rydych wedi crybwyll eich bod wedi bod mewn cysylltiad â [NODWCH FAINT O ADRANNAU A GRYBWYLLWYD YN C26] adran. Bydd y cwestiynau nesaf yn canolbwyntio ar eich profiad chi o weithio gyda'r swyddogion yn un o'r adrannau hyn. A oes un adran benodol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru yr hoffech chi siarad amdani neu a hoffech chi i'r cyfrifiadur ddewis un ar hap i chi?**
DANGOSWCH YR ADRANNAU MAE'R ATEBYDD WEDI'U DYNODI YN C26 YN UNIG.
UN COD

MAE'R CYFARWYDDYD A'R CWESTIWN ISOD AR GYFER C33
AR GYFER Y RHAI SY'N DYMUNO ATEB Y CWESTIYNAU ETO AM ADRAN ARALL YN C33 (COD 1) AC SYDD GYDA MWY NAG UN ADRAN AR ÔL I SIARAD AMDANO:
Yr adrannau eraill rydych wedi bod mewn cysylltiad gyda yw []. A hoffech chi ddewis adran i siarad amdano, neu a hoffech chi i'r cyfrifiadur ddewis un ar hap i chi?
DANGOSWCH YR ADRANNAU MAE'R ATEBYDD WEDI'U DYNODI YN C26 YN UNIG.
UN COD

Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau	1
Economi a Thrafnidiaeth	2
Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	3
Treftadaeth	4
Materion Gwledig	5
Cyllid	6
Adran y Prif Weinidog a'r Cabinet	7
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	8
Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd (AICPI)	9
Gwasanaethau Cyfreithiol	10
Pobl, Lleoedd a Gwasanaethau Corfforaethol	11
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad	12
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	13
Is-adran yr Ysgrifennydd Parhaol	14
Arall '1' (NODWCH)	15
Arall '2' (NODWCH)	16
Adran wedi'i dewis ar hap gan y cyfrifiadur	17

GOSODWCH Y CYFRIFIADUR I DDEWIS UN ADRAN AR HAP O BLITH YR ADRANNAU A GRYBWYLLWYD GAN YR ATEBYDD YN C26 AC YNA DANGOS:
Yr adran sydd wedi cael ei dewis ar hap ar eich cyfer yw [NODWCH YR ADRAN A DDEWISWYD].

I'ch atgoffa – mae'r cwestiynau sy'n dilyn yn ymwneud â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru, nid gweinidogion. Dylid ateb y cwestiynau gan feddwl am ansawdd eich cysylltiad â swyddogion ac nid am eich barn am bolisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

C28 **Rwy'n mynd i ddarllen rhestr o nodweddion a hoffwn i chi ddweud wrthyf pa mor bwysig yw bob un i chi wrth ddelio â swyddogion yn [RHOWCH ENW'R ADRAN A DDEWISWYD]. Allech chi ddweud wrthyf a ydych yn credu bod bob un yn hanfodol, yn bwysig iawn, yn bwysig neu ddim yn bwysig.**

GEIRIAD Y CWESTIWN GO GYFER Y RHEINY SYDD WEDI CODIO UN 'ARALL' YN C26 (COD 15) YN UNIG: **Rwy'n mynd i ddarllen rhestr o nodweddion a hoffwn i chi ddweud wrthyf pa mor bwysig yw bob un i chi wrth ddelio â swyddogion yr adran o Lywodraeth Cynulliad Cymru yr ydych wedi bod mewn cysylltiad â hi amlaf. Allech chi ddweud wrthyf a ydych yn credu bod bob un yn hanfodol, yn bwysig iawn, yn bwysig neu ddim yn bwysig**

GEIRIAD Y CWESTIWN GO GYFER Y RHEINY SYDD WEDI CODIO 'ARALL' YN C27 (COD 15 NEU 16): **Rwy'n mynd i ddarllen rhestr o nodweddion a hoffwn i chi ddweud wrthyf pa mor bwysig yw bob un i chi wrth ddelio â swyddogion yr adran o Lywodraeth Cynulliad Cymru a ddewiswyd. Allech chi ddweud wrthyf a ydych yn credu bod bob un yn hanfodol, yn bwysig iawn, yn bwysig neu ddim yn bwysig**

DARLLENWCH YN UCHEL a) – m). AMRYWIWCH EU TREFN. NODWCH UN COD AR BOB RHES YN UNIG.

	Hanfodol 1	Pwysig iawn 2	Pwysig 3	Ddim yn bwysig 4	Ddim yn gwybod 5
a) Maen nhw'n rhannu gwybodaeth yn agored	1	2	3	4	5
b) Maen nhw'n darparu gwybodaeth fanwl gywir a dibynadwy	1	2	3	4	5
c) Maen nhw'n fy nhrin i â pharch	1	2	3	4	5
d) Maen nhw'n ddiduedd (impartial) wrth ddelio â sefydliadau	1	2	3	4	5
e) Maen nhw'n egluro pwy sy'n atebol am ganlyniadau	1	2	3	4	5
f) Maen nhw'n ymroddedig (committed) i welliant parhaus	1	2	3	4	5
g) Maen nhw'n gosod y dinesydd wrth galon y penderfyniadau a wneir ganddynt	1	2	3	4	5
h) Maen nhw'n ymrwymedig (committed) i roi sylw i faterion sy'n effeithio ar ardaloedd yng Nghymru sydd y tu allan i Gaerdydd	1	2	3	4	5
i) Maen nhw'n rhoi gwybodaeth i mi sy'n hawdd ei deall	1	2	3	4	5
j) Maen nhw'n ymateb o fewn terfynau amser sy'n gyfleus i mi	1	2	3	4	5
k) Maen nhw'n deall y sefydliad rwyf yn rhan ohono	1	2	3	4	5
l) Maen nhw'n ymgysylltu'n rhagweithiol (proactive) â rhanddeiliaid (stakeholders)	1	2	3	4	5
m) Maen nhw'n gofyn am farn y sefydliad rwy'n rhan ohono cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnom	1	2	3	4	5

C29 Rydw i'n mynd i ddarllen yr un rhestr o nodweddion i chi eto. Y tro hwn, hoffwn i chi ddweud wrthyf i ba raddau y mae bob un yn berthnasol i swyddogion yn [RHOWCH ENW'R ADRAN A DDEWISWYD] yn ymarferol. A allwch ddweud wrthyf a yw pob un yn wir bob amser, yn aml, weithiau, yn anaml neu byth?

GEIRIAD Y CWESTIWN GO GYFER Y RHEINY SYDD WEDI CODIO UN 'ARALL' YN C26 (COD 15) YN UNIG: Rydw i'n mynd i ddarllen yr un rhestr o nodweddion i chi eto. Y tro hwn, hoffwn i chi ddweud wrthyf i ba raddau y mae bob un yn berthnasol yn ymarferol i swyddogion yr adran o Lywodraeth Cynulliad Cymru yr ydych wedi bod mewn cysylltiad â hi amlaf. A allwch ddweud wrthyf a yw pob un yn wir bob amser, yn aml, weithiau, yn anaml neu byth?

GEIRIAD Y CWESTIWN GO GYFER Y RHEINY SYDD WEDI CODIO 'ARALL' YN C27 (COD 15 NEU 16): Rydw i'n mynd i ddarllen yr un rhestr o nodweddion i chi eto. Y tro hwn, hoffwn i chi ddweud wrthyf i ba raddau y mae bob un yn berthnasol yn ymarferol i swyddogion yr adran o Lywodraeth Cynulliad Cymru a ddewiswyd. A allwch ddweud wrthyf a yw pob un yn wir bob amser, yn aml, weithiau, yn anaml neu byth? DARLLENWCH YN UCHEL a) – m). NODWCH UN COD AR BOB RHES YN UNIG. AMRYWICH EU TREFN.

	Bob amser	Yn aml	Weithiau	Yn anaml	Byth	Ddim yn gwybod
	1	2	3	4	5	6
a) Maen nhw'n rhannu gwybodaeth yn agored	1	2	3	4	5	6
b) Maen nhw'n darparu gwybodaeth fanwl gywir a dibynadwy	1	2	3	4	5	6
c) Maen nhw'n fy nhrin i â pharch	1	2	3	4	5	6
d) Maen nhw'n ddiuedd (impartial) wrth ddelio â sefydliadau	1	2	3	4	5	6
e) Maen nhw'n egluro pwy sy'n atebol am ganlyniadau	1	2	3	4	5	6
f) Maen nhw'n ymroddedig (committed) i welliant parhaus	1	2	3	4	5	6
g) Maen nhw'n gosod y dinesydd wrth galon y penderfyniadau a wneir ganddynt	1	2	3	4	5	6
h) Maen nhw'n ymrwymedig (committed) i roi sylw i faterion sy'n effeithio ar ardaloedd yng Nghymru sydd y tu allan i Gaerdydd	1	2	3	4	5	6
i) Maen nhw'n rhoi gwybodaeth i mi sy'n hawdd ei deall	1	2	3	4	5	6
j) Maen nhw'n ymateb o fewn terfynau amser sy'n gyfleus i mi	1	2	3	4	5	6
k) Maen nhw'n deall y sefydliad rwyf yn rhan ohono	1	2	3	4	5	6
l) Maen nhw'n ymgysylltu'n rhagweithiol (procatively) â rhanddeiliaid (stakeholders)	1	2	3	4	5	6
m) Maen nhw'n gofyn am farn y sefydliad rwy'n rhan ohono cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnom	1	2	3	4	5	6

GOFYN I BAWB

C31 **Yn y dyfodol, a hoffech chi gael mwy, llai neu tua'r un lefel o gyswllt â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn [NODWCH YR ADRAN A DDEWISWYD]?**

GEIRIAD Y CWESTIWN GO GYFER Y RHEINY SYDD WEDI CODIO UN 'ARALL' YN C26 (COD 15) YN UNIG: **Yn y dyfodol, a hoffech chi gael mwy, llai neu tua'r un lefel o gyswllt â'r swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yr ydych wedi bod mewn cysylltiad â nhw amlaf?**

GEIRIAD Y CWESTIWN GO GYFER Y RHEINY SYDD WEDI CODIO 'ARALL' YN C27 (COD 15 NEU 16): **Yn y dyfodol, a hoffech chi gael mwy, llai neu tua'r un lefel o gyswllt â'r swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru a ddewiswyd?**
UN COD

Mwy	1
Llai	2
Tua'r un faint	3
Ddim yn gwybod	4

C32 **Yn eich barn chi, sut, os o gwbl, y gallai swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn [NODWCH YR ADRAN A DDEWISWYD] wella'r ffordd y maent yn gweithio â sefydliadau eraill ac yn eu cynnwys yn ei gwaith?**

GEIRIAD Y CWESTIWN GO GYFER Y RHEINY SYDD WEDI CODIO UN 'ARALL' YN C26 (COD 15) YN UNIG: **Yn eich barn chi, sut, os o gwbl, y gallai'r swyddogion hynny rydych wedi bod mewn cysylltiad amlaf wella'r ffordd y maent yn gweithio â sefydliadau eraill ac yn eu cynnwys yn ei gwaith?**

GEIRIAD Y CWESTIWN GO GYFER Y RHEINY SYDD WEDI CODIO 'ARALL' YN C27 (COD 15 NEU 16): **Yn eich barn chi, sut, os o gwbl, y gallai swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn yr adran a ddewiswyd wella'r ffordd y maent yn gweithio â sefydliadau eraill ac yn eu cynnwys yn ei gwaith?**

YSGRIFENNWCH YR ATEBION	1
Ddim yn gwybod	2

AR GYFER Y RHEINY SYDD WEDI CODIO 'ARALL' YN C26 (COD 15):

Dyna ddiwedd fy nghwestiynau am swyddogion yn yr adran o Lywodraeth Cynulliad Cymru yr ydych wedi bod mewn cysylltiad â hi amlaf. YNA EWCH I C35

C33 **Dyna ddiwedd fy nghwestiynau am [NODWCH YR ADRAN A DDEWISWYD]. A fyddech yn hoffi imi ofyn y cwestiynau hyn eto ar gyfer unrhyw adrannau eraill yn Llywodraeth Cynulliad Cymru rydych wedi cael cysylltiad â nhw neu a fyddech yn hoffi symud ymlaen at ran olaf yr arolwg? UN COD**

GEIRIAD Y CWESTIWN GO GYFER Y RHEINY SYDD WEDI CODIO 'ARALL' YN C27 (COD 15 NEU 16): **Dyna ddiwedd fy nghwestiynau am yr adran honno. A fyddech yn hoffi imi ofyn y cwestiynau hyn eto ar gyfer unrhyw adrannau eraill yn Llywodraeth Cynulliad Cymru rydych wedi cael cysylltiad â nhw neu a fyddech yn hoffi symud ymlaen at ran olaf yr arolwg? UN COD**

GEIRIAD Y CWESTIWN GO GYFER Y RHEINY SYDD GYDA UN ADRAN YN WEDDILL I SIARAD AMDANI: **Dyna ddiwedd fy nghwestiynau am yr adran honno. A fyddech yn hoffi imi ofyn y cwestiynau hyn eto ar gyfer yr adran arall yn Llywodraeth Cynulliad Cymru rydych wedi cael cysylltiad â hi neu a fyddech yn hoffi symud ymlaen at ran olaf yr arolwg? UN COD**

Holi'r cwestiynau hyn eto am adran arall	1
Symud ymlaen at adran olaf yr arolwg	2

AR GYFER Y RHAI SY'N DWEUD EU BOD YN DYMUNO ATEB Y CWESTIYNAU ETO AM ADRAN ARALL YN C33 (COD 1) AC SYDD WEDI CRYBWYLL MWY NA DWY ADRAN YN C26, EWCH I C27

AR GYFER Y RHAI SY'N DWEUD EU BOD YN DYMUNO ATEB Y CWESTIYNAU ETO AM ADRAN ARALL YN C33 (COD 1) AC SYDD WEDI CRYBWYLL DWY ADRAN YN Q26, DANGOS Y SGRÎN CANLYNOL:

Yr adran arall yn Llywodraeth Cynulliad Cymru rydych wedi dweud eich bod wedi bod mewn cysylltiad â hi oedd [NODWCH ENW'R ADRAN].

YNA EWCH I C28 A NODWCH ENW'R ADRAN SYDD AR ÔL YNG NGEIRIAD Y CWESTIWN

AR GYFER Y GWEDDILL EWCH I C35

GOFYN I BAWB

C35 **Yn olaf, a fyddech chi'n fodlon cymryd rhan mewn unrhyw ymchwil pellach cysylltiedig â'r arolwg hwn a gynhelir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru? UN COD**

Byddwn	1
Na fyddwn	2
Ddim yn gwybod	3

Dyna ddiwedd yr arolwg. Diolch o galon i chi am gymryd rhan.
GORFFEN

Canllaw trafodaeth terfynol ar gyfer y cyfweiliadau dilynol

Cyflwyniad

- Egluro pwrpas y cyfweiliadau: “*Diolch i chi am gytuno i gymryd rhan yn yr ymchwil ansoddol ddilynol hon. Er mwyn darparu dealltwriaeth ddyfnach o brofiadau rhanddeiliaid, y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru weithredu arnynt, maent wedi gofyn i ni edrych yn fanylach ar rai o'r materion a godwyd yn yr arolwg rhanddeiliaid a gynhaliwyd yn ddiweddar, yn ogystal ag ambell fater ychwanegol nad oedd yn rhan o'r arolwg.*”
- Egluro y dylai'r cyfweiliad bara am tua 30 munud
- Pwysleisio cyfrinachedd, y ffaith na ddatgelir enwau ac ati: “*Cyn i ni ddechrau, hoffwn eich sicrhau y bydd popeth rydych yn ei ddweud yn cael ei drin yn gyfrinachol ac na fyddwch yn cael eich enwi mewn unrhyw adroddiadau y byddwn yn eu cynhyrchu i Lywodraeth Cynulliad Cymru.*”
- Gofyn am ganiatâd i recordio ac egluro y gellir diffodd y peiriant ar unrhyw adeg
- Pwysleisio eich bod yn canolbwyntio ar swyddogion ac nid ar weinidogion.

Barn gyffredinol am Lywodraeth Cynulliad Cymru

Yn yr arolwg, dywedasoch eich bod yn fodlon/anfodlon â'r ffordd y mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymgysylltu â sefydliadau eraill.

- Er mwyn ein helpu i ddeall hynny ychydig yn well, a allech chi yn gyntaf ddisgrifio wrthyf pa lefel o ymgysylltiad sydd gennych gyda Llywodraeth y Cynulliad o ran natur yr ymgysylltiad hwnnw a'r rhannau o Lywodraeth y Cynulliad yr ydych mewn cysylltiad â hwy? Ydych chi'n teimlo bod hyn yn briodol? Pam?
- Hoffwn wybod ychydig bach mwy am y rheswm pam rydych wedi dweud eich bod yn fodlon/anfodlon – beth fyddech chi'n ei ddweud sy'n arbennig o dda/broblemus ynglŷn â'r ffordd y maen nhw'n gweithio gyda'ch sefydliad chi?
 - HOLI AM: enghreifftiau penodol

Fel y dywedais, mae gan y Llywodraeth ddiddordeb mewn edrych yn fanylach ar rai materion penodol y tynnwyd sylw atynt yn yr arolwg. Hoffwn eich holi yn awr ynglŷn â rhai o'r materion hyn.

Hygyrchedd

Yn yr arolwg, dywedasoch ei bod yn rhwydd/anodd ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru ac yn rhwydd/anodd cael gwybodaeth ganddynt.

HOLI'R RHAI HYNNY A DDYWEDODD EI BOD YN RHWYDD YMGYSYLLTU:

- Ym mha ystyr y mae ymgysylltu â Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhwydd? Pa ddulliau sy'n ei wneud yn rhwydd?
- A yw'r rhwyddineb hwn i ymgysylltu'n rhywbeth rydych yn ei brofi'n gyson ar draws y sefydliad ynteu a yw'n amrywio? Pa ddulliau sy'n gweithio'n dda ar draws y sefydliad? Pa ddulliau sy'n fwy penodol i'r meysydd rydych chi'n gweithio â hwy?
- A yw wedi dod yn fwy neu'n llai rhwydd i ymgysylltu â swyddogion dros gyfnod, ynteu a ydych heb weld unrhyw newid? Beth yw'r rheswm dros hyn yn eich barn chi?

HOLI'R RHAI HYNNY A DDYWEDODD EI BOD YN ANODD YMGYSYLLTU:

- Pa anawsterau rydych yn eu cael wrth geisio ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru?
 - HOLI AM: enghreifftiau/ dulliau penodol sydd wedi methu
- A yw hyn yn rhywbeth rydych yn ei brofi'n gyson ar draws y sefydliad ynteu a yw'n amrywio?

- A yw wedi dod yn fwy neu'n llai anodd i ymgysylltu â swyddogion dros gyfnod, ynteu a ydych heb weld unrhyw newid? Beth yw'r rheswm dros hyn yn eich barn chi?

HOLI'R RHAI HYNNY A DDYWEDODD EI BOD YN *RHWYDD* CAEL GWYBODAETH

- Ym mha ystyr y mae'n rhwydd cael gwybodaeth?
 - HOLI AM: wybod gyda phwy i gysylltu, cyflymder ymateb, perthnasedd gwybodaeth a ddarparwyd ac ati.
 - HOLI AM: ddefnyddio'r wefan
- A yw'r rhwyddineb hwn i gael gwybodaeth yn rhywbeth rydych yn ei brofi'n gyson ar draws y sefydliad ynteu a yw'n amrywio?
- Sut ydych chi'n penderfynu pa sianel i'w defnyddio er mwyn cael gwybodaeth (e.e. gwefan, anfon neges ebost at gyswllt, edrych mewn cyhoeddiadau, cyfeirio at ohebiaeth flaenorol ac ati)
- A yw wedi dod yn fwy neu'n llai rhwydd i gael gwybodaeth dros gyfnod, ynteu a ydych heb weld unrhyw newid? Beth yw'r rheswm dros hyn yn eich barn chi?
 - HOLI AM: effaith Rhyddid Gwybodaeth

HOLI'R RHAI HYNNY SY'N DWEUD EI BOD YN *ANODD* CAEL GWYBODAETH:

- Pa anawsterau rydych yn eu cael wrth geisio cael gwybodaeth gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad?
 - HOLI AM: enghreifftiau penodol
 - HOLI AM: ddefnyddio'r wefan a phrofiadau o hyn
 - HOLI AM: ddisgwyliadau ynglŷn â gwahanol ffynonellau gwybodaeth e.e. pa wybodaeth y mae rhanddeiliaid yn teimlo y dylai fod ar gael ar y wefan, pa fathau o bethau y maent yn teimlo eu bod yn fwy priodol i siarad gyda swyddogion yn eu cylch ac ati.
- A ydych yn cael y mathau hyn o broblemau yn gyson ar draws y sefydliad ynteu a yw'n amrywio?
- A yw wedi mynd yn fwy neu'n llai anodd i gael gwybodaeth dros gyfnod, ynteu a ydych heb weld unrhyw newid? Beth yw'r rheswm dros hyn yn eich barn chi?
 - HOLI AM: effaith Rhyddid Gwybodaeth
- Sut mae hyn yn effeithio ar eich sefydliad?

Canolbwyntio ar gwsmeriaid

Gan symud ymlaen, yn yr arolwg, dywedasoed nad yw / bod swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru bob amser yn gofyn beth yw barn eich sefydliad cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arno.

HOLI'R RHAI HYNNY SY'N DWEUD *BOD* LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU YN GOFYN BETH YW EU BARN:

- Hoffem wybod mwy am eich profiadau yn y cyswllt hwn: Beth yw'r prif ffyrdd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn gofyn am eich barn?
- Pa un o'r ffyrdd hyn sydd orau gennych a pham?
- Dros gyfnod, a yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dod yn well neu'n waeth am ofyn am eich barn ynteu a ydych heb weld unrhyw newid?
- A oes unrhyw beth y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru ei wneud i wella'r ffordd y mae'n ymgynghori â chi?
 - HOLI AM: dulliau, prydlondeb, natur y materion yr ymgynghorir yn eu cylch

HOLI'R RHAI HYNNY SY'N DWEUD *NAD YW* LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU YN GOFYN BETH YW EU BARN:

- Hoffem wybod mwy am hyn: Am ba fath o bethau nad yw swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gofyn beth yw eich barn cyn gwneud penderfyniadau?
- Pam rydych yn meddwl nad ydynt wedi gofyn am eich barn?

- HOLI AM: barodrydd Llywodraeth y Cynulliad i ymgynghori, ymwybyddiaeth Llywodraeth y Cynulliad o sefydliadau rhanddeiliaid, materion yn ymwneud ag amser/adnoddau
- Dros gyfnod, a yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dod yn well neu'n waeth am ofyn am eich barn ynteu a ydych heb weld unrhyw newid?
- Am ba fath o faterion y byddech yn hoffi i Lywodraeth Cynulliad Cymru ofyn beth yw eich barn yn y dyfodol?
- Sut ddylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fynd at i wneud hyn?
 - HOLI AM: ddulliau a ffeirir, graddfeydd amser

Prydlondeb

Yn yr arolwg, dywedsoch nad yw / bod swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ymateb o fewn graddfeydd amser hwylus

HOLI'R RHAI HYNNY SY'N DWEUD *BOD* SWYDDOGION LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU'N YMATEB YN BRYDLON:

- Allwch chi ddweud ychydig wrthyf am eich profiadau yn y cyswllt hwn – gan ddisgrifio'r effaith y mae graddfeydd amser Llywodraeth y Cynulliad yn ei chael ar eich gwaith chi efallai
 - HOLI AM: Raddfeydd amser byr yn disgwyl ymateb cyflym neu raddfeydd amser hir lle mae'n edrych fel pe bai dim yn digwydd
- Ym mha ffordd y mae hyn o gymorth i'ch sefydliad o ran ei allu i ymgysylltu'n effeithiol â Llywodraeth y Cynulliad?
- A yw hyn yn rhywbeth y mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi mynd yn well neu'n waeth am ei wneud dros gyfnod?

HOLI'R RHAI HYNNY SY'N DWEUD *NAD* YW SWYDDOGION LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU'N YMATEB YN BRYDLON:

- Allech chi ddweud ychydig bach mwy wrthyf am eich profiadau yn y cyswllt hwn, gan roi enghreifftiau os yn bosibl?
 - HOLI AM: Raddfeydd amser byr yn disgwyl ymateb cyflym neu raddfeydd amser hir lle mae'n edrych fel pe bai dim yn digwydd
- Ac a yw hyn yn rhywbeth sydd wedi mynd yn well neu'n waeth dros gyfnod, ynteu a ydych heb weld unrhyw newid?
- Ym mha ffordd y mae'r graddfeydd amser y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu defnyddio yn ei gwaith yn achosi problemau i'ch sefydliad chi?
- Yn ddelfrydol, pa ddull yn eich barn chi ddylai Llywodraeth y Cynulliad fod yn ei ddefnyddio er mwyn gwella ei pherfformiad yn y maes hwn?

Cydweithio

Hoffwn edrych yn awr ar fater gweithio cydgysylltiedig. Yn yr arolwg, roeddech chi'n cytuno/anghytuno bod gwahanol rannau o Lywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.

HOLI'R RHAI HYNNY A OEDD YN *CYTUNO* BOD Y GWAHANOL RANNAU'N GWEITHIO'N DDA GYDA'I GILYDD:

- Pam wnaethoch chi ddweud hyn?
 - HOLI: Sut mae gweithio cydgysylltiedig i'w weld a gofyn am enghreifftiau penodol o'r sefydliad yn cael ei gydgyssylltu
- A yw pethau wedi newid dros gyfnod yn y cyswllt hwn?
 - HOLI: A yw pethau wedi gwella/gwaethygu/aros yr un fath
 - HOLI AM: Effaith ailstrwythuro rheolaeth i feysydd Cyfarwyddwyr Cyffredinol

HOLI'R RHAI HYNNY A OEDD YN ANGHYTUNO BOD Y GWAHANOL RANNAU'N GWEITHIO'N DDA GYDA'I GILYDD:

- Pam wnaethoch chi ddweud hynny?
 - HOLI: Sut mae diffyg cydgysylltu i'w weld a gofyn am enghreifftiau penodol o'r sefydliad ddim yn cael ei gydgysylltu
 - HOLI AM: Weithio cydgysylltiedig o fewn a rhwng gwahanol is-adrannau/meysydd Cyfarwyddwyr Cyffredinol
- Sut mae diffyg gweithio cydgysylltiedig yn effeithio ar eich sefydliad chi a'i berthynas waith o ddydd i ddydd â Llywodraeth Cynulliad Cymru?
- Fydech chi'n dweud bod y broblem yn newid dros gyfnod:
 - HOLI: A yw hyn wedi gwella/gwaethygu/aros yr un fath
- Beth yw'r rheswm dros hyn yn eich barn chi?
 - HOLI AM: Effaith ailstrwythuro rheolaeth i feysydd Cyfarwyddwyr Cyffredinol
- Gan feddwl sut y gellid gwella'r sefyllfa, sut fyddai Llywodraeth Cynulliad gydgysylltiedig yn edrych/sut y byddai'n ymddwyn?

Deall sefydliadau

Yn olaf, thema arall sy'n codi o'r arolwg yw dealltwriaeth swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru o sefydliadau rhanddeiliaid.

- I ba raddau rydych yn teimlo bod y swyddogion rydych chi mewn cysylltiad â hwy yn Llywodraeth Cynulliad Cymru'n deall eich sefydliad?

HOLI'R RHAI HYNNY SY'N DWEUD *BOD* SWYDDOGION LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU YN DEALL:

- Beth sy'n arwydd o'r ddealltwriaeth hon i chi?
- Oes yna unrhyw beth penodol rydych chi'n teimlo ei fod wedi hwyluso dealltwriaeth swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru o'ch sefydliad chi?
- Ac i ba raddau mae'r ddealltwriaeth hon o fudd i'ch sefydliad ac yn cyfrannu tuag at ymgysylltu effeithiol?

HOLI'R RHAI HYNNY SY'N DWEUD *NAD* YW SWYDDOGION LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU YN DEALL:

- Beth yn benodol rydych chi'n teimlo nad ydynt yn ei ddeall am eich sefydliad?
- Oes yna rywbeth yn benodol rydych chi'n teimlo ei fod yn atal eu dealltwriaeth?
- Sut mae hyn yn effeithio ar eich sefydliad a'ch ymgysylltiad â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru?
- Beth ydych chi'n teimlo y dylai swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru fod yn ei wneud er mwyn gwella eu dealltwriaeth o sefydliadau rhanddeiliaid fel eich un chi?

Sylwadau clo:

Yn olaf, gan feddwl am y meysydd rydym wedi ymdrin â hwy yn y cyfweliad hwn, oes yna rywbeth arall fydech chi'n hoffi ei ddweud am eich ymgysylltiad â Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Diolch i'r ymatebydd am gymryd rhan a dod â'r cyfweliad i ben.

ATODIAD B. METHODOLEG

Creu'r ffrâm samplu

B.1 Er mwyn darparu ffrâm samplu ar gyfer yr ymchwil, gwahoddodd Is-adran Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru bob un o is-adrannau'r Llywodraeth i ddarparu rhestr o unigolion yr oeddent yn eu hystyried fel eu rhanddeiliaid allweddol.

B.2 Ni roddwyd cyfyngiad ar nifer yr unigolion y gallai pob sefydliad rhanddeiliad ei gynnwys yn y ffrâm samplu gan mai nod yr ymchwil oedd casglu barn rhanddeiliaid unigol yn hytrach na chael safbwyntiau sefydliadol neu gorfforaethol.

B.3 Ar gyfer pob rhanddeiliad, gofynnwyd i'r is-adrannau ddarparu manylion cysylltu llawn, gan gynnwys teitl swydd, enw'r sefydliad, rhif ffôn, cyfeiriad ebost a chyfeiriad post. Yn ystod y cyfnod yr oedd yr wybodaeth yn cael ei choladu, bu cynrychiolwyr o'r Is-adran Ymchwil Gymdeithasol yn cysylltu ag is-adrannau er mwyn annog cymaint o ymateb ag a oedd yn bosibl ac er mwyn darparu unrhyw gyfarwyddyd ychwanegol yr oedd ei angen.

B.4 Ar ôl i'r Is-adran Ymchwil Gymdeithasol gael rhestrau'r is-adrannau daethpwyd â hwy at ei gilydd i greu un ffeil Excel cyn eu hanfon ymlaen at Ipsos MORI.

B.5 Roedd y ffeil Excel yn cynnwys tua 15,532 o gofnodion, wedi eu cynnwys mewn deg dalen ar wahân; un ddalen ar gyfer pob un o feysydd Llywodraeth y Cynulliad. I ddibenion glanhau, dad-ddyblygu a samplu, cyfunwyd y deg dalen i greu un ddalen ac yna mewnoforiwyd y data i SPSS.

Glanhau a dad-ddyblygu data

B.6 Roedd y prif gamau a gymerwyd i lanhau a dad-ddyblygu'r sampl fel a ganlyn:

1. *Safoni cyfosodiad y data*: Mewn rhai achosion, nid oedd yr wybodaeth a oedd mewn rhai colofnau yn y ffeil yn ymwneud â'r wybodaeth y dynodwyd y golofn honno ar ei chyfer (e.e. roedd cyfeiriad ebost wedi ei roi yn y golofn a

ddynodwyd ar gyfer rhifau ffôn, neu enw cyswllt wedi ei roi yn y golofn a ddynodwyd ar gyfer swydd). Cywirwyd hyn â llaw drwy drosglwyddo data rhwng colofnau yn ôl y galw.

2. *Nodi enwau cyswllt a oedd ar goll:* Lle bynnag yr oedd modd, cafwyd enwau cyswllt a oedd ar goll o gyfeiriadau ebost (e.e. enwcyntaf.cyfenw@conwy.gov.uk). Lle nad oedd modd cael enw cyswllt o gyfeiriad ebost, chwiliwyd y we gan ddefnyddio'r cyfeiriad ebost a gwybodaeth arall a ddarparwyd ar gyfer cysylltu (megis swydd) i geisio cael enw cyswllt.
3. *Nodi cyfeiriadau ebost a rhifau ffôn a oedd ar goll:* Ar gyfer pob cofnod lle'r oedd cyfeiriad ebost, rhif ffôn neu'r naill a'r llall ar goll o'r gronfa ddata, chwiliwyd y we i gasglu'r wybodaeth hon (ar sail gwybodaeth arall a roddwyd ar gyfer cysylltu, gan gynnwys enw a sefydliad). Lle na ellid dod o hyd i rif ffôn ar gyfer unigolyn penodol, cynhwyswyd rhif switsfwrdd cyffredinol ar gyfer ei sefydliad (os daethpwyd o hyd i un) yn y gronfa ddata yn ei le. Daethpwyd o hyd i gyfeiriadau ebost hefyd gan ddefnyddio enwau rhanddeiliaid.
4. *Fformatio enwau cyswllt:* Roedd yr enwau cyswllt a ddarparwyd gan is-adrannau mewn nifer o wahanol fformatau; er enghraifft, roedd rhai'n cynnwys teitlau fel rhagddodiad a/neu gymwysterau gradd fel ôl-ddodiad, ac eraill ddim yn eu cynnwys. Yn yr un modd, roedd rhai wedi eu cyflwyno ar ffurf 'enw cyntaf', 'cyfenw', roedd eraill ar ffurf 'cyfenw', 'enw cyntaf', ac roedd eraill yn cynnwys enw canol. Er mwyn rhoi sylw i'r anghysonder hwn, crëwyd colofnau ar wahân ar gyfer enwau cyntaf, cyfenwau, enwau canol, teitlau a chymwysterau gradd. Roedd gosod cyfenwau ar wahân yn fwyaf arbennig yn ddefnyddiol er mwyn edrych am gofnodion wedi eu dyblygu yn dilyn prosesu awtomataidd (fel sy'n cael ei ddisgrifio isod).
5. *Gwiriadau strwythurol ar gyfer cyfeiriadau ebost a rhifau ffôn:* Roedd y gwiriadau hyn, a gyflawnwyd er mwyn asesu dilysrwydd yr wybodaeth dan sylw, yn cynnwys:
 - a. edrych ar hyd y rhifau ffôn er mwyn sicrhau bod y rhain yn cynnwys y nifer cywir o ddigidau

- b. sicrhau bod rhifau ffôn yn dechrau â "0"
- c. sicrhau bod y codau STD yn ddilys
- ch. tynnu rhifau estyniad a rhifau ffacs (yn cael eu dynodi â 'ffacs:') o rifau ffôn
- d. sicrhau bod y cyfeiriad ebost yn cynnwys symbol "@"
- dd. dileu lleoedd gwag a nodau diangen (megis atalnodau, llinellau toriad, a llythrennau yn achos rhifau ffôn).

6. *Dileu manylion cyswllt anghymwys*: Nodwyd pob enw cyswllt a oedd yn cynrychioli Cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad (drwy chwiliad yn canolbwyntio ar enw'r sefydliad – gan gynnwys acronymau) a thynnwyd hwy o'r sampl. Dilëwyd cofnodion â pharth ebost '.wales.gsi.gov.uk' hefyd.
7. *Tynnu manylion cyswllt na ellid eu hadnabod*: Yn dilyn camau 1 i 6, chwiliwyd am gofnodion i'w dileu o'r gronfa ddata mewn achosion lle'r oedd:
 - a. enw, swydd, cyfeiriad ebost, rhif ffôn a chyfeiriad postio'r cyswllt i gyd ar goll
 - b. enw'r cyswllt ar goll a dim modd darganfod ei enw drwy ddefnyddio gwybodaeth gysylltu arall a ddarparwyd na thrwy chwiliadau rhyngrwyd
 - c. dim gwybodaeth ar gael ar wahân i gyfeiriad postio.
8. *Dileu sampl na ellid ei ddefnyddio*: dilëwyd hefyd gofnodion a oedd yn cynnwys enw ond dim gwybodaeth arall ar gyfer cysylltu (h.y. dim cyfeiriad ebost, rhif ffôn na chyfeiriad postio).

B.7 Yn dilyn y camau glanhau a nodwyd uchod, lleihawyd y gronfa ddata y gellid ei defnyddio i gyfanswm o 13,411 o gofnodion cymwys. Cam olaf y broses glanhau data oedd dileu cofnodion wedi eu dyblygu. Nodwyd cofnodion wedi eu dyblygu fel a ganlyn:

1. Dilëwyd cofnodion â chyfeiriadau ebost a chyfenwau yr un fath drwy broses awtomataidd.

2. Gwnaethpwyd gwiriad atodol er mwyn nodi cofnodion â pharthau ebost (e.e. @ipsos.com) a chyfenwau yr un fath. Archwiliwyd y cofnodion hyn â llaw er mwyn penderfynu a oeddent mewn gwirionedd yn gysylltiadau gwahanol ynteu a oeddent yn wallau teipio yn hanner cyntaf y cyfeiriad ebost.
3. Yn achos cofnodion heb gyfeiriadau ebost, cafodd cofnodion â rhifau ffôn ac enwau cyswllt yr un fath eu dileu drwy broses awtomataidd.
4. Fel gwiriad terfynol, gwnaethpwyd chwiliadau â llaw yn canolbwyntio ar enw cyswllt yn unig. Sortiwyd y gronfa ddata yn ôl enw cyswllt a phenderfynwyd gan ddefnyddio gwybodaeth arall ar gyfer cysylltu yn y gronfa ddata a oedd unigolion ag enwau yr un fath mewn gwirionedd yn achosion o ddyblygu.

B.8 Ar ôl dad-ddyblygu, roedd y ffrâm samplu derfynol yn cynnwys cyfanswm o 9,567 o gysylltiadau cymwys. Copïwyd cysylltiadau cymwys o'r gronfa ddata a'u storio mewn ffeil SPSS newydd i ddibenion samplu a gwaith maes.

Datblygu'r holiadur

B.9 Roedd y prif newidiadau a wnaethpwyd i holiadur yr arolwg ar gyfer 2010 fel a ganlyn:

- dilëwyd eitemau yn ymwneud â gallu ymatebwyr i ddefnyddio'r Gymraeg gan y teimlid y byddai un cwestiwn i ganfod a oedd yr ymatebydd yn dymuno cwblhau'r arolwg yn Gymraeg neu yn Saesneg yn ddigon yn y rhan hon o'r holiadur. (Mewn rhan arall o'r holiadur gofynnwyd o hyd i'r ymatebwyr ym mha iaith yr oedd yn well ganddynt gyfathrebu â Llywodraeth y Cynulliad, a pha mor aml y maent yn gallu gwneud hyn)
- yn y fersiwn byr o'r holiadur ar gyfer rhanddeiliaid llai diweddar, dilëwyd cwestiynau yn ymwneud â faint o amser sydd wedi mynd heibio ers y tro diwethaf i'r ymatebwyr fod mewn cysylltiad â Llywodraeth y Cynulliad, a oedd Llywodraeth y Cynulliad wedi cysylltu â hwy ac a fyddent yn hoffi cael mwy neu

lai o gysylltiad yn y dyfodol ac yn eu lle gosodwyd pedwar datganiad yn ymwneud ag agwedd at ddull Llywodraeth y Cynulliad o ymgysylltu â rhanddeiliaid

- yn y cwestiwn yn ymwneud â'r math o sefydliad, newidiwyd cod y 'grŵp gwirfoddol' i 'sector gwirfoddol/ trydydd sector/ grŵp dielw'. Yn yr un modd, newidiwyd y cod 'grŵp buddiant' i 'grŵp buddiant/ corff cynrychioladol/ sefydliad lobïo'. Ychwanegwyd cod cwbl newydd hefyd at y cwestiwn, sef: 'Sefydliad amaethyddol/fferm'
- dilëwyd cwestiynau yn ymwneud â statws cyllidol sefydliadau o gymharu â Llywodraeth y Cynulliad
- symudwyd y cwestiwn lle gofynnir i randdeiliaid nodi gwelliannau posibl i ddulliau ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddiwedd yr holiadur a gofynnwyd i'r ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn mewn perthynas â'r adran y dewisasant siarad amdani ar gyfer rhan olaf yr holiadur (yn hytrach nag ymateb mewn perthynas â Llywodraeth y Cynulliad yn ei chyfanrwydd). Yn y cyfamser, symudwyd y cwestiynau lle gofynnir i randdeiliaid beth maent yn ei hoffi ac yn ei gasáu am weithio gyda swyddogion yn yr adran y dewisasant siarad amdani ymlaen i gymryd lle'r eitem 'gwelliannau'
- yn y cwestiwn am nodweddion y sefydliad, dilëwyd pob un ond tair o'r nodweddion a restrwyd ('pell ac amhersonol', 'amharod i arloesi' a 'chanolbwyntio ar gyflawni') a gosodwyd nodweddion newydd yn eu lle, nifer ohonynt wedi eu haddasu o arolwg staff Llywodraeth y Cynulliad. Y nodweddion newydd oedd: 'Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei chyfanrwydd yn cael ei rheoli'n dda', 'Yn gyffredinol, mae gwahanol rannau o Lywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n dda gyda'i gilydd', 'Mae Llywodraeth y Cynulliad yn annog cystadleuaeth rhwng cyrff cyhoeddus er mwyn ysgogi gwelliant', 'Mae Llywodraeth y Cynulliad yn caniatáu i'm sefydliad benderfynu beth yw'r ffordd orau o gyflawni yn lleol' ac 'Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i'm

sefydliad ganolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol yn hytrach na rhai lleol'

- dilëwyd yr eitem benagored yn ymwneud â rhesymau dros gael cysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a chyflwynwyd dau gwestiwn caeedig newydd yn ei lle, y naill er mwyn nodi nifer y swyddogion yr oeddent wedi bod mewn cysylltiad â hwy a'r llall er mwyn edrych ar y lefelau ymgysylltu. Pwrpas ychwanegu'r eitemau hyn oedd helpu i edrych ar yr hypothesis ei bod yn bosibl bod pobl sydd â lefelau ymgysylltu uwch yn fwy bodlon â'u hymgysylltiad na'r rhai hynny â lefelau is.
- yn y cwestiwn lle gofynnwyd i ymatebwyr nodi pa rai o feysydd Llywodraeth y Cynulliad yr oeddent wedi cael y cysylltiad mwyaf â hwy, diweddarwyd y rhestr o feysydd i adlewyrchu'r broses o ailstrwythuro'r sefydliad yn ddiweddar
- yn y rhestr o ffactorau llwyddiant critigol, dilëwyd y naw ffactor isod: 'Maent yn deall beth rydych yn ceisio ei gyflawni', 'Maent yn ymwneud â rhanddeiliaid mewn ffordd broffesiynol', 'Maent yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn darparu atebion sy'n gweithio', 'Maent yn parchu barn amrywiol eraill', 'Maent yn eich cynnwys chi ar adeg addas yn y broses bolisi', 'Maent yn arloesol ac yn barod i fentro', 'Maent yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau ac amcanion', 'Maent wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon uchel' ac 'Maent yn gweithio gyda chi er mwyn cynnwys dinasyddion wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus'. Yn lle'r ffactorau hyn, ychwanegwyd wyth eitem newydd: 'Maent yn dangos parch tuag ataf', 'Maent yn rhoi lle canolog i'r dinesydd wrth wneud penderfyniadau', 'Maent wedi ymrwymo i roi sylw i'r mathau o faterion sy'n effeithio ar ardaloedd yng Nghymru ar wahân i Gaerdydd', 'Maent yn darparu gwybodaeth hawdd ei deall i mi', 'Maent yn ymateb o fewn graddfeydd amser sy'n hwylus i mi', 'Maent yn deall fy sefydliad', 'Maent yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rhagweithiol' ac 'Maent yn gofyn beth yw barn fy sefydliad cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnom ni'

- dilëwyd y cwestiwn lle gofynnir i'r ymatebwyr gymharu'r adran honno o Lywodraeth y Cynulliad y dewisasant siarad amdani ag adrannau eraill yr oeddent wedi bod mewn cysylltiad â hi
- dilëwyd hefyd yr eitemau lle gofynnid i'r ymatebwyr a oeddent yn ymwybodol o unrhyw sefydliadau a ddylai fod yn ymgysylltu â Llywodraeth y Cynulliad ond nad ydynt yn gwneud hynny ar hyn o bryd.

B.10 Er mwyn sicrhau bod yr holiadur yn hawdd i'w ddeall a bod y sgrïptiau CATI (Cyfweliad Ffôn â Chymorth Cyfrifiadur) a'r sgrïptiau ar-lein yn gweithio fel y bwriadwyd iddynt wneud, cynhaliwyd arolwg peilot rhwng 1 a 5 Chwefror 2010. Cwblhawyd 32 holiadur fel rhan o'r cynllun peilot – 30 dros y ffôn a dau ar-lein. Gwnaethpwyd ymdrechion penodol i dreialu'r cyfieithiad Cymraeg o'r holiadur. Atebwyd 13 o'r holiaduron peilot yn Gymraeg, a'r gweddill yn Saesneg.

B.11 Dangosodd y peilot fod yr holiadur yn llawer hwy na'r 20 munud arfaethedig. O ganlyniad, dilëwyd nifer o gwestiynau cyn i'r prif gyfnod gwaith maes ddechrau (gweler uchod). Roedd yn amlwg hefyd o'r peilot bod cyfran sylweddol o'r ymatebwyr – tua un rhan o dair ohonynt – wedi cael anhawster i nodi pa un o feysydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yr oeddent wedi cael y cysylltiad mwyaf ag ef. Er mwyn rhoi sylw i hyn, ychwanegwyd dau ddewis 'arall' at y cwestiwn perthnasol a phenderfynwyd y byddai Ipsos MORI, gan weithio mewn cysylltiad agos â'r Is-adran Ymchwil Gymdeithasol, yn codio unrhyw ddewisiadau 'eraill' a gyfeiriwyd yn ôl-weithredol i ddibenion dadansoddi gan ddefnyddio geiriau allweddol a ddarparwyd gan yr ymatebwyr.

Dull yr arolwg a'r gwaith maes

Llythyrau ymlaen llaw

B.12 Fel yn yr arolygon blaenorol, anfonwyd llythyr dwyieithog ynglŷn â'r arolwg at yr ymatebwyr ymlaen llaw. Arwyddwyd y llythyr gan y Fonesig Gill Morgan, Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

B.13 Cynhyrchwyd pedwar fersiwn o'r llythyr ymlaen llaw ar gyfer yr achosion posibl isod:

1. Lle'r oedd cyfeiriad ebost a rhif ffôn ar gael
2. Lle'r oedd rhif ffôn ar gael ond dim cyfeiriad ebost
3. Lle'r oedd cyfeiriad ebost ar gael ond dim rhif ffôn
4. Lle nad oedd cyfeiriad ebost na rhif ffôn ar gael

B.14 Yn achos 1, 2 a 4, roedd y llythyr yn gwahodd ymatebwyr i ddarparu'r wybodaeth gysylltu a oedd ar goll er mwyn iddynt allu cwblhau'r arolwg yn y modd o'u dewis.

B.15 Anfonwyd y llythyr drwy'r post at yr holl randdeiliaid hynny yr oedd cyfeiriad postio ar gael ar eu cyfer a/neu drwy ebost at y rhai hynny yr oedd cyfeiriad ebost ar gael.

B.16 Ceir copïau o fersiynau 1 a 2 o'r llythyr ymlaen llaw yn Atodiad I.

Arolwg ffôn

B.17 Yn fuan ar ôl anfon y llythyrau ymlaen llaw, cysylltodd Ipsos MORI â'r rhanddeiliaid yr oedd rhif ffôn ar gael iddynt ac nad oeddent yr adeg hynny wedi cwblhau'r arolwg ar-lein, a'u gwahodd i gymryd rhan mewn cyfweiliad ffôn. Gwnaethpwyd o leiaf 10 ymdrech i gysylltu â phob ymatebydd. Gwnaethpwyd apwyntiadau i ffonio'n ôl ar adeg briodol os oedd yr ymatebydd yn dymuno hynny.

B.18 Yn ystod y gwaith maes galwadau ffôn, daeth yn amlwg nad oedd rhai ymatebwyr wedi cael eu copi o'r llythyr ymlaen llaw. Mewn achosion o'r fath, roedd y cyfwelwyr yn gallu ail-anfon y llythyr ar unwaith drwy ebost.

B.19 Cynhaliwyd y gwaith maes galwadau ffôn o swyddfa Ipsos MORI yn Harrow gan ddefnyddio Cyfweiliadau Ffôn â Chymorth Cyfrifiadur (CATI). Mae CATI yn defnyddio proses gyfweld gyfrifiadurol, â holiadur ar sgrin a System Reoli Samplau ganolog ar gyfer monitro gwaith maes. Prif gryfder CATI yw bod cyfwelwyr yn cael eu cyfeirio'n awtomatig drwy'r holiadur ac yn cael eu hannog i wirio ymatebion penodol ac ati. Mae hyn yn sicrhau bod y cwestiynau cywir yn cael eu gofyn i'r ymatebwyr

cywir ac nad oes unrhyw gwestiynau'n cael eu hepgor yn ddamweiniol neu'n cael eu cwblhau'n rhannol yn unig. Mae hyn yn ei dro'n golygu nad oes angen i'r cyfwelwyr wirio eu gwaith â llaw ac mae'n arwain o ganlyniad at ddata o ansawdd gwell.

B.20 Roedd y rhan fwyaf o'r tîm cyfweld, gan gynnwys goruchwyliwr cynorthwyol y tîm, yn gallu siarad Cymraeg a chynigiwyd cyfweliadau Cymraeg i bob ymatebydd ar adeg y pwynt cyswllt cyntaf. Mewn achosion lle cafodd cyfwelydd nad oedd yn gallu siarad Cymraeg gais am gyfweliad Cymraeg, trosglwyddodd y cyfwelydd yr alwad ar unwaith i un o'i gydweithwyr a oedd yn gallu siarad Cymraeg. Er mwyn hwyluso'r dull gweithredu hwn, roedd o leiaf un cyfwelydd a oedd yn siarad Cymraeg wrth gefn drwy gydol y gwaith maes.

B.21 Cwblhawyd cyfanswm o 662 o gyfweliadau dros y ffôn ac roedd cyfartaledd hyd y cyfweliadau yn 18 munud.

Arolwg ar-lein

B.22 Cafodd y rhanddeiliaid hynny yr oedd cyfeiriad ebost ar gael iddynt, ac y gellid felly anfon yr ebost ymlaen llaw ynghlŷn â'r arolwg atynt, hefyd ddwy ddolen gyswllt unigryw i'r holiadur ar-lein; un i'r fersiwn Saesneg a'r llall i'r fersiwn Cymraeg. Darparwyd dolenni cyswllt unigryw ar gais hefyd i'r ymatebwyr hynny na chafodd yr ebost ymlaen llaw – boed hynny oherwydd nad oedd cyfeiriad ebost ar gael iddynt neu oherwydd bod y cyfeiriad ebost yn y sampl yn anghywir.

B.23 Ysgrifennwyd sgrïpt fersiwn Saesneg yr arolwg ar-lein gan dîm technegol mewnol Ipsos MORI. Cyfieithwyd y sgrïpt wedyn gan asiantaeth wedi ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gan ddefnyddio'r offeryn cyfieithu Confirmit.

B.24 Cwblhawyd cyfanswm o 556 o holiaduron ar-lein. Mae'r gyfran hon lawer yn uwch na'r un yn arolwg 2008 (344).

Cyfradd ymateb a rhesymau dros beidio ag ymateb

B.25 Mae'n anodd cyfrifo cyfradd ymateb gywir ar gyfer arolwg modd cymysg fel hwn gan nad oes ffordd o wybod cyfradd yr wybodaeth andefnyddiol ar gyfer yr elfen

ar-lein. Serch hynny, gellir cyfrifo cyfradd ymateb fras drwy rannu maint y sampl a gafwyd â'r sampl a ddefnyddiwyd, gan ystyried y gyfradd anefnyddiol yn yr arolwg ffôn.¹² Mae'r cyfrifiad hwn yn rhoi cyfradd ymateb o 50%.

B.26 Roedd y gyfradd wrthod ar gyfer yr arolwg yn isel. Fel y dengys tabl B1, o'r rhanddeiliaid hynny y cysylltwyd â hwy yn yr arolwg ffôn, dim ond 258 o bobl wrthododd yn bendant gymryd rhan.

Tabl B1: Arolwg ffôn – canlyniadau galwad derfynol

Canlyniad galwad derfynol	
Cyfweliad llwyddiannus	662
Rhif anghywir neu annilys	341
Bwriadu/eisoes wedi cwblhau'r arolwg ar-lein	325
Gwrthod	258
Cyswllt a enwyd yn ddieithr, wedi ymddeol, wedi symud ymlaen	225
Gwneud apwyntiad pendant neu amodol	183
I ffwrdd yn ystod cyfnod gwaith maes	164
Dyblygu	17
Anghymwys	15
Dim ateb neu wedi galw'r uchafswm o weithiau	7
<i>Cyfanswm</i>	<i>2,197</i>

Dibynadwyedd Ystadegol

B.27 Fel yn achos pob ymchwil ansoddol sy'n ymwneud â samplu ymatebwyr, amcangyfrifon yw'r ffigurau a geir yn hytrach na'r 'gwir' werthoedd y byddid wedi eu cael pe bai pob aelod o'r boblogaeth wedi ei gyfweld. Serch hynny, gellir rhagweld yr amrywiad rhwng amcangyfrifon y sampl a'r 'gwir' werthoedd ar sail maint y samplau y mae'r canlyniadau'n seiliedig arnynt a nifer y troeon y rhoddir ateb penodol.

B.28 Fel rheol mae ymchwilwyr yn awyddus i fod 95% yn sicr wrth wneud amcangyfrifon - hynny yw, maent yn awyddus i fod yn siŵr mai dim ond 5% yw'r siawns y gall yr amcangyfrif fod wedi ei gael drwy siawns. Mae tabl B2, isod, yn

¹² Mae gwybodaeth anefnyddiol yn cynnwys: rhifau ffôn anghywir; achosion lle'r oedd y cyswllt a enwyd yn ddieithr yn y sefydliad neu wedi symud ymlaen; achosion lle nad oedd ateb er gwaethaf ymdrechion niferus i gysylltu; dyblygu; ac ymatebwyr anghymwys.

dangos yr amrediadau a ragfynegwyd ar gyfer samplau o wahanol faint a chanlyniadau canran ar 'lefel sicrwydd 95%', yn seiliedig ar sampl ar hap.

Tabl B2: Amrediadau a ragfynegwyd ar gyfer samplau o wahanol faint ar lefel sicrwydd 95%

Bras oddefiannau samplu sy'n berthnasol i ganrannau ar y lefelau hyn neu'n agos atynt			
Canlyniad yr arolwg:	10% neu 90%	30% neu 70%	50%
<i>Maint y sampl:</i>			
100	+/- 5.9	+/- 9.0	+/- 9.8
200	+/- 4.2	+/- 6.4	+/- 6.9
500	+/- 2.6	+/- 4.0	+/- 4.4
750	+/- 2.2	+/- 3.3	+/- 3.6
1,000	+/- 1.9	+/- 2.5	+/- 3.1
1,228	+/- 1.7	+/- 2.6	+/- 1.7

B.29 Er enghraifft, ar gwestiwn lle mae 50% o'r bobl mewn sampl o 1,228 yn ymateb ag ateb penodol, mae siawns o 95 mewn 100 na fyddai'r canlyniad hwn yn amrywio o fwy nag 1.7 pwynt canran uwchben ac islaw'r gwerth a geid o ymdriniaeth lawn o'r boblogaeth gyfan gan ddefnyddio'r un trefniadau. Serch hynny, er ei bod yn wir casglu bod y 'gwir' ganlyniad (95 gwaith o bob 100) yn gorwedd rywle rhwng 48.3% a 51.7%, mae'n fwy tebygol o fod yn agosach at ganol y band hwn (h.y. 50%).

B.30 Mae goddefiannau hefyd yn berthnasol i gymharu canlyniadau o wahanol rannau o sampl. Rhaid i wahaniaeth, mewn geiriau eraill, fod o faint penodol o leiaf i gael ei ystyried yn arwyddocaol o safbwynt ystadegol. Mae'r tabl isod yn ganllaw i'r goddefiannau samplu sy'n berthnasol i gymariaethau. Mae'n dangos, er enghraifft, wrth gymharu data o arolygon 2008 a 2010 ar gyfer cwestiwn lle rhoddodd tua 10% o'r bobl ateb penodol, bod angen gwahaniaeth o ddau bwynt canran er mwyn i'r gwahaniaeth hwnnw fod yn arwyddocaol o safbwynt ystadegol. Mae'n bwysig nodi lle mae is-samplau yn fach iawn, ei bod yn bosibl na fydd gwahaniaethau mawr hyd yn oed rhwng canlyniadau yn arwyddocaol o safbwynt ystadegol.

Tabl B3: Amrediadau a ragfynegydd ar gyfer gwahanol arolygon neu is-grwpiau ar lefel sicrwydd 95%

Canlyniad yr arolwg:	Gwahaniaethau sydd eu hangen ar gyfer arwyddocâd ar lefelau canran neu yn agos atynt		
	10% neu 90%	30% neu 70%	50%
<i>Maint y sampl sy'n cael ei gymharu:</i>			
1,273 a 1,228 <i>(cyfanswm sampl 2008 o gymharu â chyfanswm sampl 2010)</i>	2	4	4
494 a 638 <i>(swydd uwch o gymharu â swydd ganolig/is)</i>	4	5	6
1,228 a 250 <i>(sampl cyfan o gymharu â'r rhai hynny a fu mewn cysylltiad â maes yr Economi a Thrafnidiaeth)</i>	4	6	7
271 a 1,103 <i>(rhai a atebodd ynghylch Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau o gymharu â chyfartaledd y cwestiynau am feysydd Llywodraeth Cynulliad Cymru)</i>	5	6	7
147 a 1,103 <i>(rhai a atebodd ynghylch yr Economi a Thrafnidiaeth o gymharu â chyfartaledd y cwestiynau am feysydd Llywodraeth Cynulliad Cymru)</i>	5	8	9
65 a 1,103 <i>(rhai a atebodd ynghylch Treftadaeth o gymharu â chyfartaledd y cwestiynau am feysydd Llywodraeth Cynulliad Cymru)</i>	8	12	13

B.31 Ym mhob achos lle mae'r is-samplau yn fach h.y. llai na 50 achos, rhaid ystyried y canfyddiadau fel rhai dangosol, yn hytrach na chynrychioladol.

B.32 Dylid cofio, er mwyn i lefelau hyder gael eu gosod o amgylch amcangyfrifon, ac er mwyn cynnal profion arwyddocâd, bod rhaid cymryd yn ganiataol bod y sampl yn cynrychioli sampl ar hap o'r boblogaeth berthnasol. Arolwg cwota yw'r arolwg hwn ac o ganlyniad ni ellir sefydlu arwyddocâd ystadegol gwirioneddol.

Er mwyn adrodd am arwyddocâd, rhaid inni felly dybio nad oedd yr arolwg yn arolwg cwota h.y. rydym yn cyfeirio at 'arwyddocâd ffug-ystadegol'. O ganlyniad, drwy gydol yr adroddiad, pan ddisgrifir gwahaniaeth rhwng dau arolwg neu ddau is-grŵp fel un

arwyddocaol, mae hyn yn cyfeirio at wahaniaeth arwyddocaol ffug-ystadegol ar lefel hyder 95%.

ATODIAD C: PROFFIL Y SAMPL

C.1 Mae'r atodiad hwn yn disgrifio proffil y 1,228 a ymatebodd i'r arolwg rhanddeiliaid a'r sefydliadau y maent yn gweithio iddynt. Er mwyn gallu cymharu canlyniadau, cynhwyswyd data o arolygon 2006 a 2008 lle bynnag y bo modd.

C.2 Fel y dengys tabl C1, roedd y gyfran fwyaf o'r ymatebwyr yn dod o awdurdodau lleol a sefydliadau academaidd. Roedd niferoedd llai yn cael eu cyflogi mewn mathau eraill o sefydliadau. Er bod sampl 2010 yn debyg ar y cyfan i broffil sefydliadol samplau 2006 a 2008, roedd yn cynnwys cyfran fwy o ymatebwyr o sefydliadau academaidd a chyfran lai o elusennau cofrestredig.

Tabl C1: Math o sefydliad

	2006	2008	2010
	%	%	%
Awdurdod Lleol (cyngor)	28	29	31
Sefydliad academaidd	7	8	14
Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)	17	11	8
Cwmni/busnes sector preifat	6	10	8
Sector Gwirfoddol/Trydydd Sector/Grŵp di-elw	11	7	7
Un o adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig	2	5	6
Elusen gofrestredig	14	13	5
Corff sector cyhoeddus arall	5	6	5
Asiantaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig	3	2	3
Partneriaeth sector cyhoeddus/preifat	5	4	2
Grŵp buddiant/Corff cynrychioladol/Sefydliad lobïo	4	4	2
Sefydliad amaethyddol/fferm	n/a	n/a	1
Arall	9	10	6
<i>Sail: Yr holl ymatebwyr</i>	<i>1,130</i>	<i>1,139</i>	<i>1,128</i>

C.3 I ddibenion dadansoddi, cywasgwyd yr 13 categori ar gyfer y mathau o sefydliadau yn nhabl C1 i bum grŵp ehangach: 'y sector cyhoeddus', 'y trydydd sector', 'sefydliad academaidd', 'partneriaeth sector preifat-cyhoeddus' ac 'arall'. Gosodwyd y rhan fwyaf o'r sampl (54 y cant) yn y grŵp sector cyhoeddus a chyfrannau gryn dipyn yn llai – tua un o bob deg – ym mhob un o'r grwpiau eraill (Tabl C2).

C.4 Mewn cymhariaeth â sampl 2008, mae sampl 2010 yn cynnwys cyfran lai o ymatebwyr o'r trydydd sector, y sector preifat a phartneriaethau sector cyhoeddus-preifat, a chyfran fwy o sefydliadau academaidd.

Tabl C2: Mathau o sefydliadau wedi eu gosod mewn grwpiau

	2008	2010
	%	%
Sector cyhoeddus	56	54
Y trydydd sector (sector gwirfoddol, grwpiau buddiant, elusennau ac undebau)	23	15
Sefydliad academaidd	8	14
Sector preifat neu bartneriaeth sector cyhoeddus-preifat	15	10
Arall	7	7
<i>Sail: Yr holl ymatebwyr</i>	<i>1,139</i>	<i>1,128</i>

C.5 Roedd mwy na hanner yr ymatebwyr (57 y cant) yn cynrychioli sefydliadau a oedd yn cyflogi dros 500 o bobl, tra oedd eu chwarter yn dod o sefydliadau â 50 neu lai o weithwyr ac 17 y cant o sefydliadau a oedd yn cyflogi 51-500 o weithwyr. Fel y dengys tabl C3, o gymharu â 2008, roedd sampl 2010 yn cynnwys cyfran fwy o ymatebwyr o sefydliadau mawr a chyfran is o sefydliadau bach.

Tabl C3: Nifer y gweithwyr cyflogedig mewn sefydliad

	2006	2008	2010
	%	%	%
10 neu lai	16	17	13
11 i 20	7	6	5
21 i 50	11	10	7
51 i 100	7	8	7
101 i 500	11	9	10
500+	47	48	57
Ddim yn gwybod	2	3	1
<i>Sail: Pawb</i>	<i>1,130</i>	<i>1,139</i>	<i>1,128</i>

C.6 Holwyd rhanddeiliaid ynglŷn â'u safle o fewn eu sefydliad. I ddibenion dadansoddi, dosbarthwyd y swyddi i dri chategori eang: swyddi 'uwch', 'canolig' ac 'is'.

C.7 Fel y dengys tabl C4, gosodwyd bron i hanner yr ymatebwyr (48 y cant) yn y grŵp 'canolig'. Gosodwyd cyfran ychydig yn llai (40 y cant) yn y grŵp swyddi uwch a 4 y cant yn unig yn y grŵp swyddi is. Mae hyn yn wahanol i 2008 pan osodwyd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (48 y cant) yn y grŵp swyddi uwch a llai nag un rhan o dair ohonynt (29 y cant) yn y grŵp canolig. Mae'n debyg bod yr amrywiad rhwng y ddwy set o ganlyniadau yn deillio o wahaniaethau yn fformat y cwestiwn a ddefnyddiwyd yn 2008 a 2010. Yn yr arolwg cynharach, roedd y cwestiwn yn benagored, ond yn 2010 mabwysiadwyd fformat caeedig â chod wedi ei bennu ymlaen llaw, yn seiliedig ar ymatebion a roddwyd yn 2008.

Tabl C4: Swydd yn y sefydliad

	2008	2010
	%	%
Uwch	48	40
Canolig	29	48
Is	22	4
Arall/heb ateb	2	8
<i>Sail: Yr holl ymatebwyr</i>	<i>1,139</i>	<i>1,128</i>

C.8 Roedd bron i dri chwarter y rhanddeiliaid (73 y cant) wedi bod yn cael eu cyflogi gan eu sefydliad ers mwy na phum mlynedd. Roedd 14 y cant arall wedi bod gyda'u sefydliad am rywle rhwng tair a phum mlynedd tra oedd 10 y cant wedi bod gyda'u sefydliad ers rhwng un a thair blynedd. Roedd cyfran lawer llai (3 y cant) wedi bod gyda'u sefydliad ers llai na blwyddyn.

C.9 Fel y dengys tabl C5, mae cyfran y rhanddeiliaid a oedd wedi bod gyda'u sefydliad ers mwy na phum mlynedd yn fwy na'r gyfran a gofnodwyd yn arolygon 2006 a 2008.

Tabl C5: Hyd gwasanaeth

	2006	2008	2010
	%	%	%
Llai na blwyddyn	5	5	3
Rhwng un a thair blynedd	22	14	10
Rhwng tair a phum mlynedd	18	17	14
Mwy na phum mlynedd	55	63	73
<i>Sail: Yr holl ymatebwyr</i>	<i>1,130</i>	<i>1,139</i>	<i>1,128</i>

C.10 Yn unol â'r dull a ddefnyddiwyd yn 2008, dosbarthwyd yr ymatebwyr i grwpiau rhanbarthol sy'n adlewyrchu'n fras ardaloedd Cynllun Gofodol Cymru. Ffurfiwyd y grwpiau drwy gyfateb codau post ag ardaloedd Awdurdodau Unedol, yna mapio Awdurdodau Unedol yn erbyn ardaloedd y Cynllun Gofodol. Er nad yw ffiniau ardaloedd Awdurdodau Unedol ac ardaloedd y Cynllun Gofodol yn cyfateb yn union, gwnaethpwyd y gwaith mapio mor gywir ag a oedd yn bosibl. Fel y dengys tabl C6, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi eu lleoli yn Ne-ddwyrain Cymru. Roedd tua un o bob deg wedi eu lleoli yng Ngogledd-ddwyrain Cymru, ym Mae Abertawe, yng Nghanol Cymru a hefyd yng Ngogledd-orllewin Cymru, tra oedd un o bob ugain wedi eu lleoli yn Hafan Sir Benfro.¹³ Roedd 14 y cant wedi eu lleoli y tu allan i Gymru. Mae'r ffigurau hyn yn debyg iawn i'r rhai a gofnodwyd yn 2008.

¹³ Roedd nifer fach o godau post (20 i gyd) yn ffitio i fwy nag un o ardaloedd y cynllun gofodol. O ganlyniad, neilltuwyd y codau post hyn i'r holl ardaloedd yr oeddent yn gymwys iddynt.

Tabl C6: Lleoliad y sefydliad

	2008	2010
	%	%
De-ddwyrain Cymru (Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy, Casnewydd, Caerdydd)	43	39
Gogledd-ddwyrain Cymru (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam)	12	11
Canol Cymru (Powys, Ceredigion)	9	11
Bae Abertawe (Sir Gaerfyrddin, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot)	12	10
Gogledd-orllewin Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy)	9	10
Hafan Sir Benfro (Sir Benfro)	5	5
Y tu allan i Gymru	13	14
<i>Sail: Yr holl ymatebwyr</i>	1,139	1,128

C.11 Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod gan eu sefydliad amrywiaeth o berthnasau gyda Llywodraeth y Cynulliad. Dywedodd dwy ran o dair (68 y cant) ohonynt fod eu sefydliad yn rhannu gwybodaeth neu hysbysrwydd â Llywodraeth y Cynulliad. Dywedodd cyfrannau tebyg fod eu sefydliad yn cyflenwi gwasanaethau naill ai mewn partneriaeth â Llywodraeth y Cynulliad, yn annibynnol arni, ar ei rhan, neu iddi (57 y cant, 56 y cant, 52 y cant a 27 y cant yn y drefn honno). Roedd un rhan o dair o'r ymatebwyr (31 y cant) yn ymwneud ag ymgyrchoedd neu'n lobbïo ar faterion penodol, tra oedd cyfran debyg (33 y cant) yn gweithredu fel cynghorydd neu ymgynghorydd i Lywodraeth y Cynulliad a dywedodd 21 y cant eu bod yn darparu cyngor neu wasanaeth ymgynghori *ar ran* Llywodraeth y Cynulliad. Dywedodd 38 y cant eu bod yn cael gwasanaethau gan Lywodraeth y Cynulliad. O'r rhai hynny a ddywedodd 'arall', roedd hyn yn cynnwys perthynas megis cael grant gan Lywodraeth y Cynulliad, cydariannu ymchwil a hyfforddiant ôl-raddedig gyda Llywodraeth y Cynulliad a chytundebau isadeiledd.

C.12 Fel y dengys tabl C7, o gymharu â phroffil sampl 2008, roedd sampl 2010 yn cynnwys cyfran fwy o randdeiliaid a ddywedodd eu bod yn cael gwasanaethau gan Lywodraeth y Cynulliad, ac yn cyflenwi gwasanaethau mewn partneriaeth â'r sefydliad.

Tabl C7: Perthynas â Llywodraeth y Cynulliad

	2006	2008	2010
	%	%	%
Rhannu gwybodaeth/hysbysrwydd â Llywodraeth Cynulliad Cymru	57	66	68
Cyflenwi gwasanaethau mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru	52	47	57
Cyflenwi gwasanaethau yn annibynnol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru	41	50	56
Cyflenwi gwasanaethau ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru	46	45	52
Cael gwasanaethau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru	n/a	22	38
Rôl cynghorydd neu ymgynghorydd i Lywodraeth Cynulliad Cymru	32	33	33
Ymgyrchu/lobio ar faterion penodol	32	33	31
Cyflenwi gwasanaethau i Lywodraeth Cynulliad Cymru	16	21	27
Rôl cynghorydd neu ymgynghorydd ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru	15	21	21
Arall	5	3	5
Dim un o'r rhain	1	3	1
Ddim yn gwybod	1	1	1
<i>Sail: Yr holl ymatebwyr</i>	<i>1,130</i>	<i>1,139</i>	<i>1,128</i>

ATODIAD D. RHANDDEILIAID LLAI DIWEDDAR - CANFYDDIADAU

D.1 Mae'r adran hon yn crynhoi'r canfyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid nad oeddent wedi cael cysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn ystod y 12 mis blaenorol (11 y cant o'r sampl¹⁴), y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel 'rhanddeiliaid llai diweddar'. Mae'n dechrau drwy edrych ar ffactorau sy'n gyfrifol am eu diffyg cysylltiad â swyddogion, cyn symud ymlaen i edrych beth y maent yn ei feddwl o Lywodraeth y Cynulliad a beth yw eu barn am ffyrdd y gallai swyddogion wella'u dull o ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Rhesymau dros ddiffyg cysylltiad

D.2 Pan ofynnwyd iddynt roi rhesymau dros eu lefelau ymgysylltu isel, dywedodd ychydig yn llai na hanner (49 y cant) y rhanddeiliaid llai diweddar nad oedd yr angen wedi codi iddynt gysylltu â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, dywedodd 19 y cant mai rhywun arall yn eu sefydliad oedd yn gyfrifol am gysylltu â Llywodraeth y Cynulliad a dywedodd 11 y cant eu bod yn newydd i'r swydd ac nad oeddent wedi cael rheswm i gysylltu eto (tabl D1). Dywedodd tri y cant o'r ymatebwyr hefyd nad yw penderfyniadau Llywodraeth y Cynulliad yn effeithio ar eu gwaith a dywedodd cyfran debyg (3 y cant) eu bod wedi ceisio cysylltu â swyddogion ond heb gael ateb.

D.3 O gymharu â chanlyniadau arolwg 2008, mae gostyngiad amlwg wedi bod yng nghyfran yr ymatebwyr a ddywedodd nad ydynt wedi cael rheswm i gysylltu â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad (74 y cant yn 2008 o gymharu â 49 y cant yn 2010). Yr un pryd, gwelwyd cynnydd yn nifer y rhai hynny a ddywedodd mai rhywun arall yn eu sefydliad sy'n gyfrifol am gysylltu â Llywodraeth y Cynulliad (4 y cant o gymharu ag 19 y cant yn y drefn honno). Nid yw'r rhesymau dros y gwahaniaethau hyn yn glir ond gellid eu priodoli yn rhannol i newidiadau a wnaethpwyd i'r holiadur ar gyfer rhanddeiliaid llai diweddar yn 2010.¹⁵

¹⁴ Gan fod y sail yn fach, nid yw'n bosibl gwneud sylwadau ynglŷn â gwahaniaethau rhwng is-grwpiau yn y canlyniadau sydd yn y bennod hon.

¹⁵ Yn arolwg 2008 roedd eitem o flaen y cwestiwn hwn yn holi faint o amser oedd wedi mynd heibio ers y tro diwethaf i'r ymatebwyr gael cysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad. Dilëwyd y cwestiwn hwn ar gyfer arolwg 2010.

Tabl D1 Rhesymau dros ddiffyg cysylltiad

	2006	2008	2010
	%	%	%
Heb fod angen	58	74	49
Cyfrifoldeb rhywun arall yn y sefydliad	6	4	19
Newydd i'r swydd	3	5	11
Nid yw penderfyniadau Llywodraeth y Cynulliad yn effeithio ar fy ngwaith i / ar waith fy sefydliad	8	2	3
Wedi trio ond heb gael ateb	5	-	3
Ddim yn gwybod sut i gysylltu â Llywodraeth y Cynulliad	-	-	2
Y gweithdrefnau'n rhy gymhleth	-	-	1
Nid yw'r drefniadaeth yn effeithiol/gwastraff amser	-	*	1
Rheswm arall	31	6	18
Ddim yn gwybod	*	*	3
Dim ateb	-	*	8
<i>Sail: Pawb nad oedd wedi bod mewn cysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn ystod y 12 mis blaenorol</i>	62	134	136

Barn am Lywodraeth y Cynulliad

D.4 Er gwaethaf eu diffyg cysylltiad yn ddiweddar, teimlai'r rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid llai diweddar y gallent gynnig barn ynglŷn â'r modd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r canlyniadau'n dangos nad yw diffyg cysylltiad fel pe bai'n adlewyrchu canfyddiad ymhlith rhanddeiliaid llai diweddar nad yw Llywodraeth y Cynulliad yn meddu ar y pŵer neu nad yw'n cael llawer o effaith: roedd 76 y cant o'r ymatebwyr yn *anghytuno* nad yw'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan Lywodraeth y Cynulliad yn effeithio ar eu gwaith (ffigur D1).


E.5 Serch hynny, ymddengys y gellid gwneud mwy i ymgysylltu â rhanddeiliaid llai diweddar, yn enwedig y rhai hynny sydd wedi eu lleoli y tu allan i Gaerdydd. Roedd tua hanner (49 y cant) y rhanddeiliaid llai diweddar yn cytuno y dylai Llywodraeth y Cynulliad fod yn fwy rhagweithiol wrth ymgysylltu â'u sefydliad ac roedd 63 y cant yn cytuno bod angen i Lywodraeth y Cynulliad ddatblygu gwell cysylltiadau â sefydliadau y tu allan i Gaerdydd.

E.6 Roedd y farn ynglŷn â dealltwriaeth Llywodraeth y Cynulliad o sefydliadau rhanddeiliaid yn gymysg: roedd un rhan o dair (33 y cant) yn cytuno nad yw Llywodraeth y Cynulliad yn deall y cyfyngiadau y mae eu sefydliad yn eu hwynebu

ond roedd cyfran debyg (30 y cant) yn anghytuno. Nododd 28 y cant arall nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r datganiad hwn.

Ffigur D1 Barn am Lywodraeth y Cynulliad

C. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â phob datganiad?



Sail: Pawb na fu mewn cysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn ystod y 12 mis blaenorol (136)

Blaenoriaethau ar gyfer gwella

D.7 Gwahoddwyd rhanddeiliaid llai diweddar hefyd i awgrymu (yn ddigymell) sut y gallai swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wella'r ffyrdd y maent yn gweithio gyda sefydliadau eraill ac yn eu cynnwys. Gwnaethpwyd ystod eang o awgrymiadau ac mae tabl D2 yn dangos y pum prif ymateb. Yr awgrym mwyaf cyffredin oedd mwy o gysylltiad wyneb yn wyneb â rhanddeiliaid (13 y cant) yn cael ei ddilyn gan yr angen i swyddogion ddatblygu gwell dealltwriaeth o feysydd gwaith rhanddeiliaid a'r heriau a wynebir ganddynt (11 y cant). Roedd yr awgrymiadau eraill yn cynnwys: rhoi mwy o wybodaeth i rhanddeiliaid am ddatblygiadau sy'n ymwneud â strategaethau neu ddeddfwriaeth Llywodraeth y Cynulliad (7 y cant); cyfathrebu'n well â rhanddeiliaid yn gyffredinol (7 y cant); a gwell presenoldeb a chysylltiadau â sefydliadau y tu allan i Gaerdydd a De Cymru (7 y cant).

Tabl D2 Blaenoriaethau ar gyfer gwella – y pum prif ymateb

	2010
	%
Mwy o gysylltiad wyneb yn wyneb â rhanddeiliaid	13
Cael gwell dealltwriaeth o feysydd gwaith/heriau rhanddeiliaid	11
Rhoi mwy o wybodaeth i rhanddeiliaid am ddatblygiadau/strategaethau/deddfwriaeth	7
Gwell cyfathrebu yn gyffredinol	7
Gwell presenoldeb/cysylltiadau â sefydliadau y tu allan i Gaerdydd/De Cymru	7

Sail: Pawb a oedd heb gael cysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn ystod y 12 mis blaenorol (136)

ATODIAD E. NODWEDDION CANFYDDEDIG SWYDDOGION – CANLYNIADAU YN ÔL ADRAN

E.1 Mae'r atodiad hwn yn rhoi manylion am farn rhanddeiliaid ynglŷn â Llywodraeth Cynulliad Cymru a swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yng nghyswllt nifer o nodweddion. Mae tabl E1 yn crynhoi ymatebion ar lefel gorfforaethol. Mae tablau E2 i E16 yn crynhoi'r data yn ôl meysydd unigol Llywodraeth y Cynulliad. Dim ond ar gyfer y meysydd hynny yn Llywodraeth y Cynulliad lle dywedodd isafswm o 50 o randdeiliaid eu bod wedi bod mewn cysylltiad â'r maes hwnnw yn ystod y 12 mis blaenorol y darperir dadansoddiad ar lefel maes.

Tabl E1: Nodweddion canfyddedig swyddogion Llywodraeth y Cynulliad – Holl feysydd Llywodraeth y Cynulliad

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Y naill na'r llall	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod / amherthnasol
	%	%	%	%	%	%
Mae'r swyddogion yn bell ac yn amhersonol	2	11	17	49	20	1
Mae'r swyddogion yn amharod i arloesi	6	21	22	38	8	6
Mae'r swyddogion yn canolbwyntio ar gyflawni	8	46	21	17	4	4
Mae Llywodraeth y Cynulliad fel cyfangorff yn cael ei rheoli'n dda	2	32	33	18	5	10
At ei gilydd, mae gwahanol adrannau Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n dda gyda'i gilydd	1	16	23	29	18	13
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn annog cyrff cyhoeddus i gystadlu â'i gilydd er mwyn eu hysgogi i wella	2	23	28	22	5	20
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gadael i fy sefydliad i benderfynu beth yw'r ffordd orau i gyflwyno ar lefel leol	7	37	20	19	6	11
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i fy sefydliad i ganolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol yn hytrach na blaenoriaethau lleol	8	35	22	23	3	9

Sail: Pawb a fu mewn cysylltiad yn ystod y 12 mis blaenorol (1,092)

Tabl E2: Nodweddion canfyddedig swyddogion Llywodraeth y Cynulliad – Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Y naill na'r llall	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod / amherthnasol
	%	%	%	%	%	%
Mae'r swyddogion yn bell ac yn amhersonol	4	13	19	43	20	1
Mae'r swyddogion yn amharod i arloesi	8	24	21	35	9	3
Mae'r swyddogion yn canolbwyntio ar gyflawni	8	42	22	19	6	3
Mae Llywodraeth y Cynulliad fel cyfangorff yn cael ei rheoli'n dda	2	26	36	20	7	9
At ei gilydd, mae gwahanol adrannau Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n dda gyda'i gilydd	1	11	21	32	28	7
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn annog cyrff cyhoeddus i gystadlu â'i gilydd er mwyn eu hysgogi i wella	3	25	29	21	6	15
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gadael i fy sefydliad i benderfynu beth yw'r ffordd orau i gyflwyno ar lefel leol	7	38	19	20	10	7
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i fy sefydliad i ganolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol yn hytrach na blaenoriaethau lleol	11	38	24	20	2	5

Sail: Pawb a fu mewn cysylltiad â PADGOS yn ystod y 12 mis blaenorol (369)

Tabl E3: Nodweddion canfyddedig swyddogion Llywodraeth y Cynulliad – Yr Economi a Thrafnidiaeth

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Y naill na'r llall	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod / amherthnasol
	%	%	%	%	%	%
Mae'r swyddogion yn bell ac yn amhersonol	2	8	20	50	18	2
Mae'r swyddogion yn amharod i arloesi	11	27	20	34	6	3
Mae'r swyddogion yn canolbwyntio ar gyflawni	6	45	20	18	7	3
Mae Llywodraeth y Cynulliad fel cyfangorff yn cael ei rheoli'n dda	1	26	37	20	7	9
At ei gilydd, mae gwahanol adrannau Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n dda gyda'i gilydd	1	11	20	38	20	10
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn annog cyrff cyhoeddus i gystadlu â'i gilydd er mwyn eu hysgogi i wella	2	24	31	20	5	19
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gadael i fy sefydliad i benderfynu beth yw'r ffordd orau i gyflwyno ar lefel leol	6	32	21	23	7	11
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i fy sefydliad i ganolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol yn hytrach na blaenoriaethau lleol	8	34	21	22	3	11

Sail: Pawb a fu mewn cysylltiad â maes yr Economi a Thrafnidiaeth yn ystod y 12 mis blaenorol (250)

Tabl E4: Nodweddion canfyddedig swyddogion Llywodraeth y Cynulliad – Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Y naill na'r llall	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod / amherthnasol
	%	%	%	%	%	%
Mae'r swyddogion yn bell ac yn amhersonol	3	10	18	46	23	1
Mae'r swyddogion yn amharod i arloesi	9	21	23	36	9	4
Mae'r swyddogion yn canolbwyntio ar gyflawni	8	43	22	18	5	4
Mae Llywodraeth y Cynulliad fel cyfangorff yn cael ei rheoli'n dda	1	30	36	17	8	8
At ei gilydd, mae gwahanol adrannau Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n dda gyda'i gilydd	3	14	21	29	24	9
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn annog cyrff cyhoeddus i gystadlu â'i gilydd er mwyn eu hysgogi i wella	1	23	30	23	5	19
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gadael i fy sefydliad i benderfynu beth yw'r ffordd orau i gyflwyno ar lefel leol	6	37	19	20	8	11
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i fy sefydliad i ganolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol yn hytrach na blaenoriaethau lleol	8	31	25	22	4	9

Sail: Pawb a fu mewn cysylltiad â maes yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn ystod y 12 mis blaenorol (194)

Tabl E5: Nodweddion canfyddedig swyddogion Llywodraeth y Cynulliad – Treftadaeth

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Y naill na'r llall	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod / amherthnasol
	%	%	%	%	%	%
Mae'r swyddogion yn bell ac yn amhersonol	3	10	16	52	19	-
Mae'r swyddogion yn amharod i arloesi	7	22	24	35	5	7
Mae'r swyddogion yn canolbwyntio ar gyflawni	6	41	22	24	2	6
Mae Llywodraeth y Cynulliad fel cyfangorff yn cael ei rheoli'n dda	3	35	34	14	3	11
At ei gilydd, mae gwahanol adrannau Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n dda gyda'i gilydd	2	15	19	33	17	14
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn annog cyrff cyhoeddus i gystadlu â'i gilydd er mwyn eu hysgogi i wella	1	29	29	19	4	19
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gadael i fy sefydliad i benderfynu beth yw'r ffordd orau i gyflwyno ar lefel leol	5	38	22	20	4	11
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i fy sefydliad i ganolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol yn hytrach na blaenoriaethau lleol	6	34	20	26	5	9

Sail: Pawb a fu mewn cysylltiad â maes Treftadaeth yn ystod y 12 mis blaenorol (108)

Tabl E6: Nodweddion canfyddedig swyddogion Llywodraeth y Cynulliad – Materion Gwledig

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Y naill na'r llall	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod / amherthnasol
	%	%	%	%	%	%
Mae'r swyddogion yn bell ac yn amhersonol	2	12	20	50	17	-
Mae'r swyddogion yn amharod i arloesi	10	27	23	34	3	4
Mae'r swyddogion yn canolbwyntio ar gyflawni	8	36	27	20	5	3
Mae Llywodraeth y Cynulliad fel cyfangorff yn cael ei rheoli'n dda	1	34	37	14	8	6
At ei gilydd, mae gwahanol adrannau Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n dda gyda'i gilydd	3	22	21	28	19	8
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn annog cyrff cyhoeddus i gystadlu â'i gilydd er mwyn eu hysgogi i wella	-	22	34	19	3	21
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gadael i fy sefydliad i benderfynu beth yw'r ffordd orau i gyflwyno ar lefel leol	5	34	24	21	8	8
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i fy sefydliad i ganolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol yn hytrach na blaenoriaethau lleol	10	31	20	29	3	6

Sail: Pawb a fu mewn cysylltiad â Materion Gwledig yn ystod y 12 mis blaenorol (119)

Tabl E7: Nodweddion canfyddedig swyddogion Llywodraeth y Cynulliad – maes Cyfarwyddwr Cyffredinol Dyfodol Cynaliadwy

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Y naill na'r llall	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod / amherthnasol
	%	%	%	%	%	%
Mae'r swyddogion yn bell ac yn amhersonol	3	11	16	50	20	1
Mae'r swyddogion yn amharod i arloesi	7	23	23	36	6	6
Mae'r swyddogion yn canolbwyntio ar gyflawni	8	40	23	21	5	4
Mae Llywodraeth y Cynulliad fel cyfangorff yn cael ei rheoli'n dda	1	35	33	16	6	9
At ei gilydd, mae gwahanol adrannau Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n dda gyda'i gilydd	3	18	21	29	20	11
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn annog cyrff cyhoeddus i gystadlu â'i gilydd er mwyn eu hysgogi i wella	1	24	31	21	5	19
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gadael i fy sefydliad i benderfynu beth yw'r ffordd orau i gyflwyno ar lefel leol	6	36	22	19	7	9
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i fy sefydliad i ganolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol yn hytrach na blaenoriaethau lleol	8	33	23	25	4	8

Sail: Pawb a fu mewn cysylltiad â Dyfodol Cynaliadwy yn ystod y 12 mis blaenorol (350)

Tabl E8: Nodweddion canfyddedig swyddogion Llywodraeth y Cynulliad – Cyllid

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Y naill na'r llall	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod / amherthnasol
	%	%	%	%	%	%
Mae'r swyddogion yn bell ac yn amhersonol	2	11	10	58	19	-
Mae'r swyddogion yn amharod i arloesi	9	19	20	43	8	1
Mae'r swyddogion yn canolbwyntio ar gyflawni	4	39	19	28	7	3
Mae Llywodraeth y Cynulliad fel cyfangorff yn cael ei rheoli'n dda	1	36	26	21	11	6
At ei gilydd, mae gwahanol adrannau Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n dda gyda'i gilydd	2	17	13	33	29	6
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn annog cyrff cyhoeddus i gystadlu â'i gilydd er mwyn eu hysgogi i wella	1	22	27	22	14	13
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gadael i fy sefydliad i benderfynu beth yw'r ffordd orau i gyflwyno ar lefel leol	7	37	16	20	13	8
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i fy sefydliad i ganolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol yn hytrach na blaenoriaethau lleol	8	37	18	27	1	10

Sail: Pawb a fu mewn cysylltiad â Chyllid yn ystod y 12 mis blaenorol (90)

Tabl E9: Nodweddion canfyddedig swyddogion Llywodraeth y Cynulliad – Y Prif Weinidog a'r Cabinet

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Y naill na'r llall	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod / amherthnasol
	%	%	%	%	%	%
Mae'r swyddogion yn bell ac yn amhersonol	3	6	19	43	25	5
Mae'r swyddogion yn amharod i arloesi	10	17	20	30	11	13
Mae'r swyddogion yn canolbwyntio ar gyflawni	9	41	20	16	5	10
Mae Llywodraeth y Cynulliad fel cyfangorff yn cael ei rheoli'n dda	3	24	33	19	7	15
At ei gilydd, mae gwahanol adrannau Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n dda gyda'i gilydd	3	10	23	24	23	18
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn annog cyrff cyhoeddus i gystadlu â'i gilydd er mwyn eu hysgogi i wella	1	18	29	18	5	29
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gadael i fy sefydliad i benderfynu beth yw'r ffordd orau i gyflwyno ar lefel leol	5	34	23	11	7	21
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i fy sefydliad i ganolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol yn hytrach na blaenoriaethau lleol	7	28	33	13	3	18

Sail: Pawb a fu mewn cysylltiad â maes y Prif Weinidog a'r Cabinet yn ystod y 12 mis blaenorol (120)

Tabl E10: Nodweddion canfyddedig swyddogion Llywodraeth y Cynulliad – Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Y naill na'r llall	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod / amherthnasol
	%	%	%	%	%	%
Mae'r swyddogion yn bell ac yn amhersonol	4	8	19	45	23	1
Mae'r swyddogion yn amharod i arloesi	10	21	24	32	7	6
Mae'r swyddogion yn canolbwyntio ar gyflawni	7	41	26	19	5	2
Mae Llywodraeth y Cynulliad fel cyfangorff yn cael ei rheoli'n dda	2	31	32	20	6	9
At ei gilydd, mae gwahanol adrannau Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n dda gyda'i gilydd	1	12	19	33	24	11
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn annog cyrff cyhoeddus i gystadlu â'i gilydd er mwyn eu hysgogi i wella	1	19	28	29	8	15
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gadael i fy sefydliad i benderfynu beth yw'r ffordd orau i gyflwyno ar lefel leol	7	36	14	23	8	11
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i fy sefydliad i ganolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol yn hytrach na blaenoriaethau lleol	7	40	18	19	4	11

Sail: Pawb a fu mewn cysylltiad ag Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod y 12 mis blaenorol (242)

Tabl E11: Nodweddion canfyddedig swyddogion Llywodraeth y Cynulliad – lechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau lechyd

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Y naill na'r llall	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod / amherthnasol
	%	%	%	%	%	%
Mae'r swyddogion yn bell ac yn amheronol	3	9	20	46	22	-
Mae'r swyddogion yn amharod i arloesi	7	21	25	35	5	7
Mae'r swyddogion yn canolbwyntio ar gyflawni	9	39	17	28	4	3
Mae Llywodraeth y Cynulliad fel cyfangorff yn cael ei rheoli'n dda	1	23	33	31	4	8
At ei gilydd, mae gwahanol adrannau Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n dda gyda'i gilydd	2	12	21	29	28	9
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn annog cyrff cyhoeddus i gystadlu â'i gilydd er mwyn eu hysgogi i wella	1	20	33	23	8	15
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gadael i fy sefydliad i benderfynu beth yw'r ffordd orau i gyflwyno ar lefel leol	7	31	14	31	6	11
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i fy sefydliad i ganolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol yn hytrach na blaenoriaethau lleol	7	43	20	18	3	10

Sail: Pawb a fu mewn cysylltiad ag lechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau lechyd yn ystod y 12 mis blaenorol (107)

Tabl E12: Nodweddion canfyddedig swyddogion Llywodraeth y Cynulliad – maes Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Y naill na'r llall	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod / amherthnasol
	%	%	%	%	%	%
Mae'r swyddogion yn bell ac yn amhersonol	4	9	20	45	23	1
Mae'r swyddogion yn amharod i arloesi	9	21	25	33	6	6
Mae'r swyddogion yn canolbwyntio ar gyflawni	8	42	23	20	5	3
Mae Llywodraeth y Cynulliad fel cyfangorff yn cael ei rheoli'n dda	1	30	31	23	5	9
At ei gilydd, mae gwahanol adrannau Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n dda gyda'i gilydd	1	13	20	32	24	10
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn annog cyrff cyhoeddus i gystadlu â'i gilydd er mwyn eu hysgogi i wella	1	19	29	28	8	16
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gadael i fy sefydliad i benderfynu beth yw'r ffordd orau i gyflwyno ar lefel leol	7	36	14	25	8	11
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i fy sefydliad i ganolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol yn hytrach na blaenoriaethau lleol	7	41	18	20	4	11

Sail: Pawb a fu mewn cysylltiad ag Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod y 12 mis blaenorol (280)

Tabl E13: Nodweddion canfyddedig swyddogion Llywodraeth y Cynulliad – Pobl, Lleoedd a Gwasanaethau Corfforaethol

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Y naill na'r llall	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod / amherthnasol
	%	%	%	%	%	%
Mae'r swyddogion yn bell ac yn amhersonol	-	11	19	45	23	1
Mae'r swyddogion yn amharod i arloesi	7	26	15	36	10	7
Mae'r swyddogion yn canolbwyntio ar gyflawni	7	44	25	12	5	7
Mae Llywodraeth y Cynulliad fel cyfangorff yn cael ei rheoli'n dda	3	22	34	15	11	15
